

ECO'R WYDDFA

Rhif 124

EBRILL 1987

Pris 20c

"RHOI'R BRWSUS I FYNY"!



Wedi bron i ddeugain mlynedd o lanhau simneau'r fro hon a broydd eraill mae Mr Albert Jones, 5 Erw Wen, Caeathro wedi penderfynu ymddeol. Dechreuodd ar ei waith fel glanhawr simneua' ym 1947, gan fabwysiadu'r cynllun "Vacuum". Ef oedd y cyntaf yng Ngogledd Cymru i ddefnyddio dull oedd yn chwyldroadol y pryd hwnnw. Roedd bri mawr ar y gwaith o 1947 i 1975, ond bellach, a chymaint o bobl yn troi o dân glo i dân nwy neu drydan, rhaid teithio ymhellach oddi cartref i gael gwaith.

Cafodd lawer tro trwstan yn ystod ei yrfa, a dyma hanes un ohonynt:

"Roeddwn wedi cael galwad i ddy Mrs Gwyddwn ei bod yn dioddef gyda'i nerfau a churais ar y drws braidd yn bryderus. Roedd y drws yn gil-agored, ac wedi methu cael ateb penderfynais wthio'r drws yn agored a mentro i mewn. Yn y cyntedd clywais sŵn tu cefn i mi, ac wrth droi i edrych, dyna lle'r oedd Mrs â bwyell yn ei llaw! Allan a mi fel bwled drwy ddrws y cefn - ac ni fu glanhau ar y simne honno!

Chwarelwr yn Llanberis oedd

Albert Jones cyn dechrau ar ei waith glanhau simneua', ond ar ôl rwb mawr Hafod Owen aeth i weithio gyda John Mowlems, contractiwr oedd yn adeiladu man i gadw bomiau yn 1939. Yn 1940 galwyd ef i'r fyddin, ac ar ôl cyfnod yn yr Alban, dychwelyd ar ddiwedd y rhyfel i'r chwarel. Ond yna daeth y penderfyniad i newid gyrfa. Dymunwn ymddeoliad dedwydd iddo, a phob llwyddiant i Arwel Roberts o Gaeathro sy'n parhau gyda'r busnes.

ETHOLIADAU Y CYNGHORAU CYMDEITHAS

Daw holl seddi'r Cyngorau Cymdeithas i fyny am etholiad yn y Gwanwyn. Mae ganddynt bwerau statudol amrywiol, a hwy sy'n cynrychioli y pentref neu'r fro. Mae pump o gyngorau cymdeithas o fewn y fro - Betws Garmon, Llanberis, Llanddeiniolen, Llanrug a'r Waunfawr. Rhan bwysig o waith y cyngorau yw rhoi sylwadau ar geisiadau cynllunio.

Mae yna bob amser alw am bobl frwdfrydig i wasanaethu eu bro fel cyngorwyr cymdeithas, ond mae llawer yn amharod i gynnig eu hunain oherwydd diffyg gwybodaeth o'r trefniadau, neu am na wyddant beth yw'r amserlen statudol.

Y Swyddog Etholiad a apwyntir gan Gyngor Bwrdeisdref Arfon sy'n gyfrifol am gynnal yr etholiad. Mae'r rhybudd etholiad

yn cael ei gyhoeddi ar Fawrth 27ain. Bydd angen derbyn yr enwebiadau erbyn Ebrill 6, a chyhoeddir y rhestr Ymgeiswyr erbyn canol dydd Ebrill 8. Bydd yr etholiad - os bydd mwy o ymgeiswyr nac o seddau - ar Fai 7, sef yr un diwrnod ag etholiad Cyngorwyr Dosbarth. Daw'r cyngorwyr newydd i'w swydd bedwar niwrnod ar ôl dydd yr etholiad.

Dylai ymgeisydd gyflwyno PAPUR ENWEBU dilys i'r Swyddog Etholiad. Rhaid cofnodi cyfenw, enwau bedydd, cyfeiriad a disgrifiad yr ymgeisydd ynghyd â'i rif ar y Gofrestr Etholwyr. Rhaid i'r papur enwebu hefyd gynnwys manylion tebyg am y cynigydd a'r eilydd, a rhaid iddynt hwythau fod yn etholwyr yn yr etholaeth.

Cynhelir CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL ECO'R WYDDFA

yn Neuadd yr Eglwys,
PENISARWAUN

Nos Iau, Ebrill 23ain am 7.00

Croeso i bawb sydd â diddordeb yn
nyfodol yr Eco.

DISGO I'R SGANIWR



APEL Y SGANIWR: Bore Iau, Chwefror 26ain, daeth Dr Jim Davies, Cadeirydd Pwyllgor Apêl y Sganiwr i'r Gwasanaeth Boreol i dderbyn sic o £100 gan aelodau o'r pedwerydd dosbarth. Fe godwyd yr arian ganddynt drwy drefnu disgo i'r pedwerydd a'r pumed dosbarth. Cyflwynwyd sic o £22.50 i Dr Davies hefyd gan chwech o enethod o'r flwyddyn gyntaf a fu'n canu carolau dros Wyl y Nadolig. Y mae'r ysgol wedi cyfrannu £522.50 tuag at Gronfa Apêl y Sganiwr hyd yn hyn.

DARGANFYDDIAD HANESYDDOL



Mae posibilrwydd fod siambr gladdu wedi ei darganfod ym mro'r Eco. Cafwyd caniatad gan y tîm archaeolegol sydd yng ngofal y gwaith archwilio i gyhoeddi'r llun uchod ar yr amod nad yw'r lleoliad yn cael ei ddatgelu. Bu'r archaeolegwyr yn ymweld â'r safle'n rheolaidd ers dechrau'r flwyddyn pan ddaeth agoriad y siambr i'r amlwg yn dilyn tirlithriad bychan wedi cyfnod o rew caled. Deallwn fod rhai creiriau diddorol wedi eu darganfod, ond na ellir rhoi gwybodaeth fanwl amdanynt hyd yn hyn gan fod posibilrwydd o achos llys rhwng yr archaeolegwyr â pherchennog y tir ynglŷn â "Treasure Trove". Mae

swyddogion Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa wedi eu tyngu i gyfrinachedd, ond gobeithir cael adrodd rhywfaint o'r datblygiadau yn eu Cyfarfod Blynnyddol a gynhelir fis Mai. Deallwn nad person lleol yw perchennog y tir, ond ei fod yn byw yn Lloegr.

**PLYGU'R ECO
Rhifyn MAI**
nos Iau, Ebrill 30ain
am 6 o'r gloch
yn NEUADD BENTREF
BETHEL

ECO'R WYDDFA

RHIF 124
EBRILL 1987

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

**SWYDDOGION A GOHEBWYR
GOLYGYDD NEWYDDION
CYFFREDINOL AC ERTHYGLAU:**
Dafydd Whiteside Thomas,
Bron-y-Nant, Pontrhyallt, Llanrug.
(C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION:
Amranwen Lynch, Gwyddfor,
Penisarwaun (Llanberis 870575).

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs Olwen
Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug.
(Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes
Eilian. (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir, Llanberis.

LLANRUG: Mrs Gillian Morris,
Annedd Wen, Tal-y-bont.
(Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts,
Cerrig-y-drudion, Nant Peris.
(871327)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, 9
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU:

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
EBRILL 30ain
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
EBRILL 21ain
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

CYMDEITHAS ADDYSG YR AMGYLCHFYD GWYNEDD

Annwyl Olygydd,
Yng Nghanolfan Astudio Plas
Tan y Bwlch yn ddiweddar
ffurfiwyd cymdeithas
addysgiadol Gymraeg newydd—
sef Cymdeithas Addysg yr
Amgylchedd Gwynedd.

Gyda'r defnydd ac yn wir y
cam-ddefnydd eang sy'n cael ei
wneud o'r amgylchfyd mae pobl yn
fwy ymwybodol nag erioed o'r
bygythiad y mae'r cydbwysedd
bregus rhwng dyn a natur yn ei
wynebu. O ganlyniad, gwelwyd
llawer o bwyslais ar faterion yn
ymwneud â'r amgylchfyd ym
meysydd llafur ysgolion - yn
enwedig pynciau fel dacaryddiaeth
a bywydeg. Hefyd mae
Astudiaethau'r Amgylchfyd erbyn
hyn wedi sefydlu fel rhan o
gwrwllwm nifer o ysgolion cynradd
a dosbarthiadau iau ysgolion
uwchradd.

Bwriad y Gymdeithas yw hybu ac
echangu'r math yma o ddatblygiad a
hefyd cyd-gysylltu peth o'r gwaith
sydd eisoes wedi ei wneud gan
wahanol fudiadau, grwpiau
ieuenctid, ysgolion a cholegau.
Hefyd, rydym yn gobeithio drwy
Gylchlythyr Gwybodaeth,
ddosbarthu newyddion am
ddigwyddiadau a datblygiadau
newydd yn ymwneud â'r
amgylchfyd. Bydd ein holl
wiethgareddau a chyfarfodydd yn
cael eu cynnal yn y Gymraeg.

Llywydd y Gymdeithas newydd
yw Mr Ted Breeze Jones, sydd wrth
gwrw wedi treulio oes yn ymddiddori
ym mywyd gwyllt a chadwraeth
natur a hefyd yn trosglwyddo ei
ddiddordeb i bobl eraill - bydded
hen neu ifanc.

Mae'r Gymdeithas yn agored i
unrhyw unigolyn sydd â diddordeb
mewn materion yn ymwneud â'r
amgylchfyd a hefyd i unrhyw
gymdeithas leol fyddai'n hoffi
cyfrannu tuag at y fenter.

Rydym yn awyddus iawn i gael
ysgolion uwchradd a chynradd i
ymuno yn ogystal â mudiadau
ieuenctid, e.e. Yr Urdd a'r
Ffermwyr Ifanc.

Gellir cael rhagor o fanylion a
gwybodaeth am y Gymdeithas o'r
cyfeiriad isod.

Geraint George,
Plas Tan y Bwlch
Maentwrog
Blaenau Ffestiniog
Gwynedd LL41 3YU
Ffôn: Maentwrog 324

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

TIM CYMUNEDOL ANFANTAIS MEDDWL ARFON

Annwyl Olygydd,
Hoffwn gyda'ch caniatâd
dynnu sylw darllenwry papur at
gynllun arbennig a drefnir gan yr
Adran Gwasanaethau
Cymdeithasol i gynorthwyo
teuluoedd â phlentyn dan
anfantaes meddyliol yn Arfon.

Bydd plentyn yn ymweld â
'Modryb ac Ewythr' am gyfnodau
byrion er mwyn i'w deulu gael
seibiant, ac i'r plentyn yntau gael
cyfle i gyfarfod ffrindiau newydd
ac ennill rhywfaint o
annibyniaeth.

Nid oes rhaid wrth brofiad
blaenorol oherwydd trefnir cwrs
paratoi i bawb sy'n dymuno ein
helpu. Telir cydnabyddiaeth a
threuliau i bob Modryb ac Ewythr
a bydd cefnogaeth oddi wrth
weithwyr proffesiynol wrth law
bob amser.

'Rydym yn chwilio am
deuluoedd a phobl sengl gydag
amser i'w roi ac amynedd i helpu
plentyn a'i deulu. Os bydd rhai
o'r darllenwyr â diddordeb
mewn bod yn Fodryb ac Ewythr,
gellir cael rhagor o fanylion am y
cynllun oddi wrth y Tim
Cymunedol Anfantais Meddwl,
rhif ffôn Caernarfon 4121,
estyniad 2302.

Edrychaf ymlaen at glywed
ganddynt. Diolch yn fawr iawn
am eich cydweithrediad.

Yr eiddoch yn gywir,
Dawn Blackwell,
T r e f n y d d
Gwirfoddolwyr-Hyfforddwyr

CYMDEITHAS HANES AMAETHYDDIAETH

Mae'n rhyfeddol fel mae hanes
amaethyddiaeth wedi cael ei
esgeuluso dros y blynyddoedd. Y
trwbwl yw mae'n debyg mai ar lafar
mae pobol wedi arfer ymdrin â'r
pwnc, yn atgofion personol a
straeon o bob math, ac anodd
weithiau rhoi'r rheini ar bapur heb
golli'r naws sydd yn y dweud. Ond
gwaetha'r modd, er mor ddifyr
ydynt, os arhosant heb eu cofnodi
yna i ebargofiant yr â pob hanesyn
llafar yn y pen draw.

Mae yna beth wmbreth o
ddefnyddion ar gael, yn atgofion,
hen luniau, dyddiaduron, hen
ffilmiau, celfi a pheiriannau, ac mae
yna lawer o chwilfrydedd yn eu
cylch hefyd. Hawdd gweld hynny
pan gynhelir ambell "ddiwrnod
dyrnu" gan Gymdeithas Hen
Beiriannau Gogledd Cymru, a cheir
ymateb da yn aml iawn i'r hyn a
ymddengys yn y papurau bro.

Yn nhyb rhai mae'n hen bryd

ffurfio Cymdeithas Hanes
Amaethyddiaeth, ac efallai sefydlu
cylchgrawn i ymhel â'r maes. I'r
perwyl hwn bwriedir cynnal
cyfarfod sefydlu yng Ngholeg
Glynllifon, nos Fercher, Ebrill
15fed am 7.30pm. Bydd darlith ar
"Hanes Amaethyddiaeth" gan T
Elias, Mynydd Nefyn, arddangosfa
o hen luniau amaethyddol o
Archifdy Gwynedd ac o hen gelfi
gan Mr John Bumby ar ran
Cymdeithas Hen Beiriannau
Gogledd Cymru.

Nodwch yr achlysur ar eich
calendr rwan. Dewch yn llw.

BLE MAE'R BELE?



Sawl darlennydd Eco'r Wyddfa
glywodd erioed am y bele goed (sef
Pine Marten yn Saesneg). Sawl un
welodd y creadur tybed? Bu'n byw
yng nghoedwigoedd Cymru ers can-
rifoedd, ac yn wir, defnyddiwyd ei
groen yn wisg barchus gan uchelwyr
y canol oesoedd.

Yn anffodus bu trai aruthrol ar ei
boblogaeth yn ddiweddar yn ôl pob
sôn. Gan mai creadur swil yw'r bele,
anodd iawn yw gwybod pa mor brin
ydyw mewn difri, os yw yn dal ei dir
yma o gwbl bellach. Dyma paham yr
hoffwn dderbyn unrhyw wybodaeth
am y bele goed yng Nghymru, ac fe
werthfawrogn yn fawr gael atebion
i'r cwestiynau canlynol gan eich dar-
llenwyr os oes profiad ganddynt.
A welsoch chi fele goed erioed?
A glywsoch am rywun yn ei weld?
Os do, yna pwy, pa bryd a pha le
ydoedd0

Beth yn union welwyd?

Cofiwch, creadur o dylwyth y
carlwm yw'r bele, a chanddo gorff
hirfain a choesau byrion. Mae'n
anifail mawr fodd bynnag, yn fwy na
chath, gyda chynffon hir flewog.
Dylid gofalu peidio drysu'r bele
gyda'r ffwlbart, sydd yn eitha cyffre-
din yng Nghymru y dyddiau hyn.
Mae'n werth cofio hefyd fod y bele yn
debycach o gael ei weld, o unrhyw
greadur sy'n fwy na wiwer, yn dringo
coed. A'r wiwer yw ei brif fwyd hefyd!

Byddaf yn croesawu unrhyw
wybodaeth ar ran y Cyngor Gwar-
chod Natur yma yn 'Gwelfor', Waun-
fawr, Caernarfon. (Ffôn: Waunfawr
547).

Duncan Brown

Uwch Warden - Gogledd Gwynedd

COFIWCH AM Y CYFARFOD BLYNYDDOL

DERWYN HUGHES

Treflys
PENISARWAUN

Ffôn Llanberis
870945

Am
nenfydau
a waliau
siapus

Antex

MR BASTOW

Mae trigolion hynaf ardaloedd y Waun Fawr a Betws Garmon, rwy'n siŵr, yn cofio'r hen gymeriad hynod, Mr Bastow, a grwydrai'r lôn bost a llwybrau'r fro dros hanner can mlynedd yn ôl. Yr oedd rhyw ddirgelwch rhyfedd ynglŷn ag o'r diwrnod cyntaf y daeth i fyw ar ei ben ei hun i Rhif 5, Rhesdai Gwyrfaei, flwyddyn neu ddwy cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. I bawb, ar yr olwg gynta', hen drempyn blêr a rhacsio oedd o. Clamp o ddyn cyhyrog, ond wedi mynd yn bur wargrwm at y diwedd. Ei farf laes a'i wallt yn glaerwyn a chap gweu bychan brown yn cuddio'i gorun. Welais i 'rioed mo'no heb y cap i mewn yn y tŷ nac allan. Ei wddw bob amser yn noeth hyd hanner ei frest. Hen facintosh seimlyd, heb fotymau, yn hongian yn llac dros ei war a chortyn-coch am ei ganol i'w chau ar dywydd gwyntog. 'Sana' a thyllau fel tatws newydd ynddyn nhw - 'sana' beic - wedi'u tynnu dros ei drywsus at ei benna-glinia', a llinyn bob amser yn cau ei 'sgidia. Yn aml byddai ganddo bâr o fenyg lleidr fel menyg-moto-beic yn hongian wrth llyn am ei wddw. Roedd ei ymddangosiad a'i ddull hynod yn tynnu sylw pawb, yn enwedig pan âi i lawr i Gaernarfon - byddai pobl ddiarth yn sefyll ar y stryd i sylu ar ei ôl.

Yn amlach na pheidio byddai'n gwthio trol fechan o'i flaen - ei gwthio bob amser ac nid ei thynnu. Tynnai'r drol lawn gymaint o sylw pobl ddiarth ag a wnâi ei pherchennog. Hen focs nionod oedd y trwmwal wedi ei osod ar ddwy olwyn beic 'solid teiars'. Er mai bechan oedd y drol roedd y lloropiau tua dwylath o hyd - dwy gangen gam a chnotiog wedi'u rhwymo'n groes i'w gilydd, ac weithiau un gangen yn unig. Cerddai'n ôl a blaen i Gaernarfon yn rheolaidd gan grwydro o stryd i stryd ac o siop i siop gan siarad ag o'i hun, ond yn siop Lipton y prynai ei fwyd i gyd a byddai'r drol fach yn llawn o duniâu corn biff, samon, ffa a bisgedi. Cyn cychwyn ar ei daith yn ôl byddai'n galw yn y Llyfrgell Rydd i gael cyflenwad o lyfrau, - roedd o'n ddarllenwr eang. Os digwydddech ei weld heb y drol byddai ganddo bob amser bapur newydd, llyfr neu gylchgrawn o dan ei gesail. Roedd ganddo wely o riwbob yn yr ardd gefn, ac arferai godi pob tail ceffyl a welai ar y ffordd a'i roi yn gaenen drwchus ar waelod y drol, ei orchuddio â hen bapur newydd, a neges siop Lipton ar ben y cwbl wedyn.

Byddai'n hoff iawn o gerdded a dringo, a gwelid ef yn cyfeirio tua'r mynyddoedd, ffon yn ei law a chaib ddringo dros ei ysgwydd. Roedd yn aelod o'r Alpine Club, a dringodd i ben yr Wyddfa ddegau o weithiau, y tro olaf ag yntau wedi cyrraedd ei bedwar ugain. Roedd hefyd yn seryddwr brwd, ac fe'i gwelid ar aml noson olau leuad yn cyfeirio'i gamre i ben Mynydd Cefn Du neu Moeltryfan lle'r eisteddai ar dalp o graig i sylu i'r gofod ac astudio'r sêr. Dyn anghyffredin, ac 'od-i-bawb-arall', ond oherwydd yr urddas a berthynai iddo, a'i

foneddigeiddrwydd cyson, yn hawlio parch gan bawb yn ddiwahân. Pwy oedd o ac o ble y daeth o? Doedd neb yn gwybod yn iawn - na neb yn malio rhyw lawer chwaith. Cyfeirid ato mewn cylchoedd eglwysig fel 'The Reverend T C V Bastow, MA' (Thomas Claude Vermuyden Bastow). Wedi derbyn ei addysg yn Harrow a Rhydychen, a'i ordeinio'n ddiagon Eglwys Loegr ym 1875. Yn fuan iawn fe'i dyrchafwyd a gwasanaethodd fel rheithor mewn amryw o drefi yn Lloegr - Claybrooke, Eastnor, Cheam Common a Chroesoswallt. Am ryw dair blynedd yn unig yr arhosodd ym mhob un o'r lleoedd hyn, ar wahân i'w ofalaeth olaf yn Peatling Parva lle'r arhosodd am saith mlynedd ar hugain (1885-1912) cyn ymddeol a dod i fyw i'r llecyn tawel rhwng y Waun Fawr a Betws Garmon. Mae'n debyg mai'r mynyddoedd oedd y dynfa.

Roedd yn wybyddus fod ganddo fab, Cynol Bastow, a merch - Marie, y ddau yn Llundain. Di-briod oedd Marie, a deuai'n achlysurol i edrych am ei thad ac aros am ryw dridiau neu wythnos i ymgeleddu tipyn ar y lle. Roedd hithau'n gawres gyhyrog, yn gwisgo sgert o frethyn trwchus a honno bron yn cyffwrdd y sgidiau trymion oedd am ei thraed. Gan nad oedd lle iddi i gysgu yn nhŷ ei thad, brasgamai'r filltir o ffordd i letya yn 'Graianfryn' y Waun Fawr.

Yn ystod blynyddoedd y Rhyfel Cyntaf byddai Mr Bastow yn ymwelydd cyson â'r Priordy ar lan Llyn Cwellyn - y 'Snowdon Guide' (y 'Snowdon Ranger' heddiw). Diddymwyd trwydded yr hen

dafarn gan y perchennog, y Parch J M Parry (Parri Plas Nant) a'i osod i'r Parch D Jenks i fod yn ysgol i hyfforddi gwŷr ifanc ar gyfer yr eglwys, ond am gyfnod yn unig y bu hynny cyn ei thro'i'n westy drachefn ar ddiwedd y rhyfel. Naturiol oedd i'r hen glerigwr dreulio llawer o'i amser yng nghwmni Mr Jenks a'i 'bobl ei hun' megis. Ar ôl yr ymweliad, ar ambell noson braf yn yr haf, hawdd iawn ganddo fyddai mynd am dro rownd y llyn yn hytrach na mynd adref ar ei union. Cerddai ymlaen at fferm y Planwydd ac yna gyda glan bella'r llyn, heibio i'r Chwarel Goch ac yn ôl i'r ffordd bost ger Castell Cidwm.

Byddai'r ffermwyr i gyd yn hoff iawn o 'Rhen Basto', chwedl hwythau, a chât grwydro'r caeau fel y mynnai gan y gwyddent nad oedd beryg' iddo adael yr un giât heb ei chau ar ei ôl. Cât aml biseriad o lefrith neu laeth enwyn, ac ambell wy yn ei boced. Clywais amdano'n mynd hefo'i drol fach heibio i fferm y Cynant i gyfeiriad Allt Coed Mawr, a Richard Jones, y ffermwr, wrthi'n codi tatws yn y cae. Stopio am sgwrs, a Richard Jones yn hel bwcedaid o datws mân ac yn eu lympio i'r drol er mwyn i'r hen fachgan gael gwneud lobsgows.

Emyr Jones, Caernarfon



Mr Bastow a'i drol fach. Y llun drwy garedigrwydd Gwilym Hughes, Tref Eilian, Waunfawr.

CHWAREL DINORWIG - GWEITHDAI GILFACH DDU - ADUNIAD GWEITHWYR

Ddydd Sadwrn, Mai 16, 1987, bwriada Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, drefnu aduniad ar gyfer cyn-weithwyr yng Ngweithdai Peirianyddol Gilfach Ddu, a gyflogwyd gan gwmni Chwarel Dinorwig. Bu'n ddeunaw mlynedd ers i'r chwarel a'r gweithdai gau, ac felly byddai'n ddymunol iawn petai modd i'r rhai hynny a fu'n gweithio yno ailgyfarfod er mwyn gweld beth a ddiogelwyd. Yn naturiol, caiff staff yr Amgueddfa fantais o'u profiad a'u cyngor, ac fe gaiff y cyn-weithwyr gip ar y dulliau o ddiogelu rhai o'r crefftau a nodweddai yr 'Iard' fel y gelwid y gweithdai.

Dylai'r rhai hynny sydd yn derbyn y gwahoddiad gyfarfod yn y Caban yma am 10.30 am banded o de a sgwrs. Yn dilyn anerchiadau byrion, a mymryn o adloniant, bydd digon o gyfle i drafod atgofion a straeon y gorffennol. Os oes gennych hen luniau, neu unrhyw beth arall a fyddai o ddiddordeb, yna dewch â hwy efo chi - bydd rhai o weithwyr Archifdy Gwynedd yn bresennol, ac yn falch iawn o'u gweld. Yn dilyn cinio ysgafn, cewch gyfle i gerdded drwy'r gweithdai, a gweld rhai o'n crefftwyr wrth eu gwaith. Trefnir gweithgareddau yn yr efail a'r

ffowndri, ac fe fydd yr olwyn ddŵr a'r Pelton yn troi. Os hoffech ymuno â'r aduniad, dylech ysgrifennu at Dr Dafydd Roberts yn y Gilfach Ddu mewn da bryd. Bydd croeso i'r rhai hynny a weithiai yn yr 'Iard' a hefyd i'r rhai oedd â chysylltiad agos â'r lle, oherwydd eu gwaith - gyrrwyr injis bach, fforddoliwrs ac ati. Ni fydd tâl mynediad wrth reswm, ac mae pawb yma yn edrych ymlaen i'ch cyfarfod.

Noddir yr aduniad gan gwmni bragu Wrexham Lager.

TAC SIS
AMBERLINE
BETHEL

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

Bistro

Glandŵr

43-45 Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871278

(Danny a Nerys Roberts)



CURIAD CALON CYMRU



CURIAD CALON CYMRU

ANERCHIAD DAFYDD WIGLEY A.S., YN ANGLADD Y DIWEDDAR BARCHEDIG HERBERT THOMAS, LLANNOR

Mae'n ffrainc fawr, ond trist, cael dweud gair o ddiolch am fywyd y diweddar Herbert Thomas. Mae'n disgyn i mi, mae'n debyg oherwydd i mi gael y cyfle o gyd-weithio ag ef dros y pum mlynedd ar hugain a aeth heibio – yn y lle cyntaf oddi fewn y Mudiad Cenedlaethol, ac yn ystod y tair blynedd ar ddeg diwethaf yn ein bywyd cyhoeddus yma yn etholaeth Arfon. Caf felly ddiolch ar ran yr etholaeth, ar ran y Blaid, ac ar ran ei gyfeillion di-rif am ei gyfraniad aruthrol i fywyd ei fro ac i fuddiannau ei genedl.

Rwy'n cofio y tro cyntaf i mi ei gyfarfod oedd yn y 'People's Cafe' – Caffi'r Werin – ar faes Caernarfon tua 1962, rhyw brynhawn Sadwrn, ar gyfer Pwyllgor Rhanbarth o'r Blaid. Os cofiaf yn iawn, yr oedd braidd yn ddig mai ar brynhawn Sadwrn yr oedd y cyfarfod – yr oedd yn teimlo nad oedd gan unrhyw beth – hyd yn oed Plaid Cymru – yr hawl i dorri ar draws pêl-droed prynhawn Sadwrn; ac yn hynny o beth, i raddau helaeth iawn cytunaf ag ef!

Dros y blynyddoedd ers hynny, cefais ei gwmni mewn cyfarfodydd niferus o'r Blaid, yn lleol ac yn genedlaethol – ac roedd ei deyrngarwch i Ysgol Haf a Chynhadledd y Blaid yn ddihaereb. Cefais gyd-weithio ag ef fel ymgeisydd seneddol, ac yna yn y byd cyhoeddus yn Arfon, minnau fel Aelod Seneddol, ac yntau fel aelod etholedig o Gyngor Dwyfor.

Bu ei gyfraniad i'w fro ac i'w eglwys yn hynod, ei gariad at achos ei wlad yn gadarn, a'i wasanaeth i'w gymuned a'i phobl yn gyson, yn drwyadl, ac yn ddiflino. Bydd bwlch enfawr lle y bu'n sefyll.

Mae'n addas ein bod yn dod yn ôl i'w filltir sgwâr i dalu'r gymwynas olaf iddo. Yr oedd y llecyn yma, yng nghysgod yr Wyddfa, yn agos at ei galon ar hyd ei oes. Bu'n sôn am ddod yn ôl i fyw yma ar ôl ymddeol – 'mynd yn ôl i bridd fy mro', ac er na weithiodd hynny allan, cadwodd gysylltiad clos â'r ardal ar hyd y blynyddoedd.

Brodor o Ddinorwig oedd Herbert Thomas, a'i dad wedi ei ladd yn ifanc mewn damwain yn y chwarel. Hawdd credu fod y teulu yn benderfynol nad i'r chwarel yr âi ef ar ôl gadael Ysgol Brynrefail. Enillodd le yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, a graddiodd mewn Hanes. Yr oedd yn perthyn i genhedlaeth ddifys a disglair o efrydwyr y Coleg, gan gynnwys rhai fel y Cyng O M Roberts, y diweddar J E Jones, ac I B Griffith. Yr oedd yno yn ei chanol hi yn y frwydr bryd hynny i gael statws i'r iaith Gymraeg yn y Coleg.

Yr oedd hefyd yn bêl-droediwr o fri ac yn chwarae yn y gôl i dîm y Coleg. Yn wir, cymaint oedd ei ddoniau ar y maes pêl-droed fel y cafodd dreial gyda Spurs. Difys fyddai meddwl beth fyddai ei lwybr a'i ffawd pe byddai wedi arwyddo fel pêl-droediwr proffesiynol.

Ond nid i'r Spurs yn Llundain, ond i dîm pêl-droed pentref bach

Llanbêr yr oedd ei deyrngarwch cyntaf. Bu'n ffyddlon i'r Clwb ar hyd y blynyddoedd, ac yn hael iddo hefyd. Cyfrannodd grysau ac arian i gynnal y tîm, a bu'n Llywydd ar y clwb am flynyddoedd. Bu hefyd yn Llywydd ar y gynghrair leol. Droeon y gwelais ei gar yn ymyl cae pêl-droed Llanberis ar brynhawn Sadwrn – ac mae gennyf ddiolch mawr iddo am berswadio'r Blaid i symud eu Pwyllgor Rhanbarth misol o brynhawn Sadwrn i nos Wener er mwyn sicrhau fod ein blaenoriaethau yn gywir!

Gwelwyd ei ddiddordeb angerddol yn ei fro hefyd yn ei gyfraniadau niferus i'r papur bro, Eco'r Wyddfa. Droeon fe gyfrannodd oleuni ar ryw agwedd neu'i gilydd ar hanes y fro trwy ysgrif neu trwy lythyr.

Aeth o Fangor i Goleg Llandaf a chafodd ei ordeinio i'r Eglwys. Ar ôl dwy flynedd yn Y Bermo, a chyfnod o 1931 i 1938 yn Llanfairfechan, symudodd i Lannor lle bu'n gwasanaethu ei Eglwys hyd at ei ymddeoliad ym 1977 a lle parhaodd i fyw a gwarchod ei gymdeithas tan y diwedd.

Do, fe roddodd Herbert Thomas oes o wasanaeth i'w fro – i fro ei febyd ac i'r fro a fabwysiadwyd ganddo a rhoddodd oes o wasanaeth i'r eglwys ac i'r esgobaeth. Yn ei waith yn yr eglwys pwysleisiodd bwysigrwydd yr iaith Gymraeg – o bosibl ar adeg pan nad oedd hynny mor ffasiynol o fewn yr eglwys. Ar bob cyfle bu'n gwarchod hawliau'r iaith Gymraeg mewn cynhadledd neu bwyllgor neu gyfarfod, ei ffyddlondeb iddi fel y graig. Bu hefyd yn gwasanaethu fel Deon Gwlad Llŷn am gyfnod o 13 mlynedd. Roedd ganddo ddiddordeb arbennig yng ngwaith yr SPCK yn yr esgobaeth.

Daeth Herbert Thomas i waith ein cynghorau lleol bron trwy ddamwain. Yn ystod y Rhyfel, pan oedd sedd ar y Cynghorau yn mynd yn wag, cawsant eu llenwi trwy gyfethol i Gyngor Llŷn yn ystod y cyfnod hwnnw. Cafodd flas arni a bu'n aelod o'r Awdurdod am 30 mlynedd nes daeth y Cyngor i ben yn 1974. Bu'n Gadeirydd ar y Cyngor gan roddi arweiniad arbennig mewn sawl cyfeiriad. Ef oedd un o brif symbylwyr cynllun dŵr Cwm Ystradllyn, a ddaeth â chymaint o fendith i'r ardal. Ysgrifennwyd yn y 'Cambrian News' ynglŷn â'r cyfnod hwnnw, "Yr oedd yn gyfnod o ddatblygiad a thyfiant, cyfnod pan oedd cynlluniau a dyheadau yn cael eu gwireddu."

Yr oedd hefyd yn aelod o hen Gyngor Sir Gaernarfon a ddaeth i ben yn 1974, ac yn naturiol fe ddaeth wedyn yn aelod blaenllaw o

Gyngor newydd Dwyfor, a etholwyd yn 1973 ac a ddaeth i rym yn 1974.

Bu'n Gadeirydd ar y Cyngor, yn Gadeirydd y Pwyllgor Polisi – pwyllgor mwyaf allweddol y Cyngor – ddwywaith; bu'n Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio; am bum mlynedd bu'n Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd. Ond efallai mai'r pwyllgor a roddai'r boddhad mwyaf iddo oedd ei waith fel Cadeirydd yr Is-bwyllgor Iaith a rhoddodd arweiniad cadarn i sefydlu'r polisiâu blaengar sydd gan Gyngor Dwyfor tuag at yr iaith Gymraeg heddiw – y cyngor mwyaf goleuedig yng Nghymru yn hyn o beth.

Nid un i'ruthro i mewn gyda swm a miri oedd Herbert Thomas fel cynghorydd; yn hytrach yr oedd parch aruthrol iddo fel 'hen ben', y Cynghorydd â barn gytbwys, ei draed ar y ddaear a'i galon yn y lle iawn. Yr oedd llawer yn troi ato am arweiniad. Yr oedd hefyd yn un teyrngar iawn i swyddogion y Cyngor; hawdd iawn bob amser yw gwneud cocyn hitio o swyddogion, yn arbennig gennym ni y glweidyddion. Yr oedd Herbert Thomas yn gwybod am natur y gwaith anodd a wynebai unrhyw sywddog i awdurdodau lleol heddiw, ac yn chwilio am y cytbwysedd cywir yn yr hyn oedd yn deg i'r cyhoedd ddisgwyl gan eu gweision. Yr oedd yn un a oedd bob amser yn gwybod yn fanwl am gyfansoddiad a rheolau'r Cyngor – roeddynt ar flaenau ei fysedd. Fel ei waith yn yr eglwys, yr oedd ar y Cyngor hefyd yn gweithio 'o fewn y drefn'; ac roedd yn gweithio o fewn y drefn i gael gwell trefn ohoni. Yr oedd parch aruthrol gan ei gyd-gynghorwyr tuag ato.

Bu am flynyddoedd yn cynrychioli pwyllgor Clwyd a Gwynedd o Gyngorau Dosbarth Gogledd Cymru, ac yn ddiweddar yn gynrychiolydd ar Gyd-bwyllgor Dwyieithrwydd Gwynedd. Roedd hefyd yn cynrychioli Dwyfor yng Nghanolfan Cymreig Materion Rhyngwladol yng Nghaerdydd, ac roedd hyn yn rhywbeth pwysig iawn iddo.

Yn naturiol, yng nghyd-destun y Blaid yr oeddwn i yn ei adnabod orau. Bu'n aelod o'r Blaid ers y tridegau, o'r dyddiau pan fu'n gwasanaethu yn Llanfairfechan. Yr oedd yn aelod ffyddlon o Bwyllgor Rhanbarth Arfon am flynyddoedd, a phrin fu'r un adeg dros hanner canrif nad oedd yn Ysgol Haf a Chynhadledd y Blaid – fel arfer gyda'i gyfaill mawr y Parch E O Jones, Penrhyndeudraeth. Yno, megis yng ngwaith y Cyngor, nid fel areithiwr oddi ar lwyfannau yr oedd yn adnabyddus, ond fel un â meddwl clir, argyhoeddiadau dwfn a barn ddibynadwy.

Roedd yn hael iawn hefo'r Blaid fel yr oedd tuag at nifer o fudiadau a oedd yn agos i'w galon. Rwy'n cofio'n dda mynd draw i'w gartref wrth hel arian tuag at gael swyddfa newydd i'r Blaid. Cefais groeso cynnes ac yntau'n gwranddo'n ddiwyd ar fy 'mhregeth' heb dorri ar draws nac aflonyddu; ar ôl i mi orffen, trodd at lyfr a oedd gerllaw, ac o'r llyfr tynnodd amlen wedi ei selio. Yr oedd yn gwybod yn iawn, cyn i mi agor fy ngheg, beth oeddwn eisiau, ac roedd y siec yn barod; a chyfraniad llawer mwy hael nag oedd fy mhregeth innau yn ei

haeddu!

Bu'n gweithio i'r Blaid yn ddiwyd dros y blynyddoedd. Ef oedd un o brif weinyddwyr y gronfa Gŵyl Ddewi am gyfnod sylweddol – roedd yn un da am drin arian. Ac am gyfnod hefyd, bu wrthi yn hel torion o'r papurau newydd – y gwaith ymchwil di-ddiolch sydd yn angenrheidiol ar gyfer unrhyw blaid wleidyddol. Bu wrthi yn ein hymgyrchoedd yma yn Arfon, ond fel arfer yn trefnu pethau o'r sywddfa yn hytrach nag areithio o'r llwyfannau.

Dim ond pedwar Is-lywydd anrhydeddus y mae'r Blaid yn Arfon wedi ei hethol erioed; ac mae'n arwydd o'n meddwl uchel ohono fod Herbert Thomas yn un o'r rhain.

Roedd gan Herbert Thomas ddiddordebau niferus, yn ogystal â'i eglwys, ei fro a'i Blaid. Gwelid ef bron bob blwyddyn ar faes y Sioe Genedlaethol yn Llanellwedd. Yr oedd yn enwog am gadw gwenyn, a llawer ohonom wedi mwynhau'r mêl a gynhyrchid ganddo. Yr oedd felly hefyd yn wyneb cyfarwydd ar faes yr Eisteddfod, â'i wyneb bron yn rhan o babell y Ddraig Goch ar y maes. Roedd ganddo ddiddordeb mawr ym myd y ddrama, ac yn gas ganddo golli unrhyw gynhyrchiad o fewn cyrraedd. Roedd diddordeb mawr ganddo hefyd ym myd argraffu Cymraeg, yn arbennig yn y papurau Cymraeg.

Yr ydym yn ei gofio am ei hynawsedd, ei hiwmor, a'i haelioni; am ei gytbwysedd, ei grefydd a'i Gymreictod. Ond os oes yna un gair sy'n sefyll allan wrth gofio am Herbert Thomas y gair hwnnw yw teyrngarwch. Teyrngarwch i'w Eglwys, teyrngarwch i'w fro, teyrngarwch i'w iaith, teyrngarwch i'w wlad, a theyrngarwch i'w Blaid.

Cydymdeimlwn â'i deulu a'i gyfeillion niferus yn eu profedigaeth a'u colled aruthrol. Bydd ei enaid yn ysbrydoliaeth i ni oll. Diolchwn amdano a heddych i'w lwch.

Seiliwyd y goffadwriaeth uchod ar anerchiad Dafydd Wigley AS yng ngwasanaeth angladd y diweddar Barchedig Herbert Thomas yn Eglwys Llanddeiniolen, dydd Llun, 18 Mawrth 1987.

HEN BENNILL

Y sawl sy'n beio arnaf beied!
Heb fai arno na arbeded!
Y sawl sydd dan eu beiau beunydd,
Geill y rheini fod yn llonydd.

W.H. JONES

TRYDANWR

**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS**

**FFÔN:
LLANBERIS 871470**

**Contractau
Weirio Tai**

**Cawodydd Trydan
ac ati**

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

Mae'n ffaith digon diddorol bod dwy o'r gwledydd Celtaidd yn dathlu dydd eu nawddsant yn ystod mis Mawrth. Ary dydd cyntaf o'r mis 'roeddem ni'r Cymry yn dathlu ein Dydd Gŵyl Dewi a'r Gwyddelod hwythau yn cofio eu nawddsant Padrig ar yr 11eg o'r mis. Fe gofiwn yn ogystal fod yna wledydd Celtaidd eraill - Llydaw, Ynys Manaw, yr Alban a Cheltiaid Sbaen, ac fe geir mesur o ddealltwriaeth yn Eisteddfodau Cenedlaethol y carfannau hyn, gyda chynrychiolwyr gorsedd beirdd y naill yn ymweld â'r lleill. Fe ddichon bod ein hawdurdodau addysg yn ufuidd i feistri estron wedi rhoddi'r prif bwyslais ar Saesneg a Ffrangeg, ac o bosibl anwybyddu hawliau rhai ieithoedd modern eraill fel Almaeneg ac Ellmyneg. Tybed a ddaeth hi'n amser i ailystyried a newid pwyslais?

Dymuna teulu'r diweddar William Goronwy Morris, 'Ty Oer', Clwt-y-Bont ddatgan eu diolchgarwch diffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth chwerw.

Dymuna Mrs Nellie Valmai Pritchard, 'Penddyffryn' ddiolch i gymdogion, perthnasau a chyfeillion am bob caredigrwydd tuag ati tra bu dan driniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Dymuna Mrs Jennie Williams, 12

Maes Eilian ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati yn ystod ei phrofedigaeth o golli ei brawd, a hefyd mam yng nghyfraith yn ogystal.

Dymuna Mrs Ethel Williams, 'Brook field' hithau ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am bob cydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati yn ei phrofedigaeth o golli ei mam.

CYDYMDEIMLWN â Mrs M Pleming, 1 Maes Eilian ar golli ei thad yng nghyfraith Mr Harry Pleming, Caernarfon. Ond yn dilyn y cydymdeimlad fe'i cawn hi'n waith plesurus ei llongyfarch am fod yn nain.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Evan Bryn Roberts, Ty'r Ysgol - hwythau yn daid a nain ar ôl geni merch i Mrs Annete Bryn Parry, sydd wedi ymgartrefu yn Neiniolen.

COLLED: Chwith serch hynny yw cofnodi marwolaeth Mrs Ellen Williams, gynt o 'Chwarel Goch' Fachwen, a fu farw yn Ysbyty Llangefni wedi cyrraedd yr oedran o 79. Mae hithau'n gadael plant i hiraethu ar ei hôl, ac fe ddangoswyd parch ei hardal a'i theulu tuag ati gan y dyrfa luosog a ddaeth i Eglwys St Mair ddydd ei hangladd.

CYFARFOD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD: Fe gynhaliwyd hwn yn Eglwys St Mair ddydd Gwener y 6ed o Fawrth. Eleni fe ddethlir canfed pen-blwydd y mudiad. Roedd llywyddiaeth y cyfarfod yng ngofal Mrs Beti Lloyd Roberts a'r organyddes oedd Mrs Jennie Williams. Fe gymerwyd rhan gan Mrs Eileen Thomas, Mrs Nellie Williams, Mrs G Medwen Griffith, Mrs Elizabeth Jones, Mrs Alice Myfanwy Griffith, Miss Ellen Wyn Jones, Mrs Katie Griffith, Mrs Katie Lloyd Hughes, Mrs Megan Price Morris, Mrs M Pleming, Miss Lizzie Thomas a Mrs Katie Roberts. Ysgrifennydd y mudiad yn yr ardal yw Mrs Reene Morris a swim yr offrmw a gasglwyd oedd £10.00

CROESAWU: Hyfryd iawn yw cael croesawu Mr Ifor Phillips yn ôl i'r stryd. Fe fu gyda'i rieni yn Rhif 6 Maes Eilian, ac wedyn gyda hwy yn Neiniolen, ond erbyn hyn mae'n byw yn rhif 3 Maes Eilian, ac felly'n ôl yn ei hen gynefin.

Y PARCH HERBERT THOMAS

Pan oeddwn yn paratoi ac ysgrifennu'r nodiadau ar gyfer y rhifyn diwethaf o 'Eco'r Wyddfa' nid oeddwn yn dychmygu y buaswn yn awr yn gorfod cyfeirio at farwolaeth y diweddar Barch Herbert Thomas, Llannor. Fe deimlaf fy mod yn ddyledus iddo am anfon i mi rai nodiadau oedd yn ein cario'n ôl i ddechrau'r ganrif. Er wedi ymadael â'r ardal hon, yr oedd ei feddyliau yn dod yn ôl yn barhaus i ardali ei eni a lle treuliodd ei febyd. Mae eraill sy'n hyn

na mi sy'n cofio'n well am y dyddiau hynny, a chanddynt adnabyddiaeth gliriach o'r diweddar frawd. Fe gofiat i mi ei gyfarfod gyntaf ym mhorth capel 'Sardis' ddiwrnod angladd y diweddar Mr T Myrddin Jones - un a fu'n cyd-chwarae pêl-droed â Mr Thomas, ac a fu hefyd yn ddiagon ffyddlon yn 'Sardis'. Roedd y capel yn orlawn a nifer yn gorfod aros ym mhorth y capel.

Er i Mr Thomas gyrraedd yr oedran teg o 80, eto fe ddaeth angau'n sydyn ac annisgwyl, a'r sioc fel pe'n ein sobri ninnau. Mae eraill wedi bod yn tystio am ei gyfraniad i grefydd a gwleidyddiaeth, ond fe gefais i'r hyfrydwch o adolygu ei gyfraniad i Eco'r Wyddfa ac rwy'n sicr bod eraill a all gloddio i mewn i'r pethau o'i eiddo nas cyhoeddwyd hyn yn hyn. Brogarwr oedd os bu un erioed a pharchus a fyddo'r goffadwriaeth amdano.

NEWID ARDAL: Mae cryn dipyn o newid ym Maes Eilian hefyd. Ymadawodd Mrs Annie Jones o rhif 5 ac mae ei dwy ferch yn gofalu amdani yn eu tro, y naill ar Ynys Môn a'r llall yng Nghaernarfon.

Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL: Bellach fe ddaeth tymor y Gymdeithas Ddiwylliadol i'w derfyn, ac fe gafwyd noson o 'Gawl a Chân' a hyfryd iawn oedd cael estyn croeso i nifer o bobl ieuanc o Ddeiniolen, a fu'n ein difyrru ag adroddiadau a chân, ac fe gafwyd eitemau diddorol iawn gan rai o aelodau Band Ieuencid Deiniolen. Fe aberthasant eu hamser i ymarfer eu doniau.

CYD WEITHIO YNG NGWYNEDD DATGANIAD A GWYBODAETH CANOLFAN CYDWEITHREDOL CYMRU

Y mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru wedi apwyntio dau berson fel gweithwyr datblygu dan hyfforddiant yng Ngwynedd. Bydd Llew Ll Roberts a Llion Myfyr yn gweithio ym Mangor dan oruchwyliath uniongyrchol Mr Cynan Jones, Swyddog Datblygu Gogledd Orllewin Cymru. Byddant hefyd yn gweithio o bryd i'w gilydd yn Adran Datblygu Economaidd Cyngor Sir Gwynedd yng Nghaernarfon.

Yn ogystal, mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi apwyntio dau weithiwr dan hyfforddiant ymhob sir yng Nghymru, cyfanswm o 16 i gyd. Golyga hyn mai Canolfan Cydweithredol Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu gydweithredol fwyaf yn y Deyrnas Unedig. Cefnogir y Cynllun gan y Cymunedau Ewropeaidd, y Swyddfa Gymreig, ac Awdurdodau

sirol a lleol drwy Gymru gyfan. Taimla Mr Roberts a Mr Myfyr yn ffodus eu bod yn gweithio yng Ngwynedd lle mae nifer helaeth o grwpiau cydweithredol llwyddiannus yn gweithio eisoes - digon o dystiolaeth bod gweithio'n gydweithredol yn gweddu'n ardderchog i gymunedau bychan gwledig. Maent eisoes wedi bod ynglŷn ag amryw o grwpiau cydweithredol, gan ennill profiad gwerthfawr ym maes marchnata a rheolaeth ariannol.

Eu bwriad yw sefydlu mwy o gwmnïau cydweithredol yng Ngwynedd dros y 2 flynedd nesaf. Un enghraifft yw Glyn Protective Clothing (Caernarfon) Cyf.

Sefydlwyd y cwmni cydweithredol hwn yn dilyn cau ffatri yn Llanberis yn arbenigo mewn dillad diwydiannol. 'Roedd y cwmni yn rhan o gwmni defnyddiau BTR a gwnaed 33 yn ddi-waith pan

gaewyd y ffatri. Penderfynodd 12 o'r gweithwyr (10 gwraig a 2 ddyn) sefydlu cwmni cydweithredol gyda'r bwriad o gyflenwi anghenion rhai o'u cyn-weithwyr am ddillad diwydiannol, a phrynwyd offer, peiriannau a defnyddiau.

Cafwyd ymateb sydyn i'w cais am uned ddiwydiannol gan Gyngor Bwrdeisdref Arfon, a dechreuodd masnachu ar Fedi 1af, 1986. O fewn y cyfnod byr hwn, maent wedi ennill archeb sylweddol gan y Rheilffyrdd Prydeinig, ac fe'u comisiynwyd gan Balas Buckingham i gyflenwi dillad i'r 'Household Cavalry'.

Mae Mr Cynan Jones, Swyddog Datblygu Gwynedd sy'n gweithio yn ein sywddfa ym Mangor, yn darparu sylfeini, cyngor ymarferol a chefnogaeth i grwpiau sydd newydd gychwyn busnesau cydweithredol, a gall dreulio amser ar lefel ungiol yma yng Ngwynedd gyda chwmnïau cydweithredol sydd yn bodoli eisoes, neu grwpiau sydd yn bwriadu sefydlu fel busnesau cydweithredol. Mae llawer o adnoddau'r ganolfan yn mynd tuag at y gwaith datblygu yma.

Wrth gwrs, nid cwmnïau cydweithredol y gweithwyr yw'r ateb i broblem diweithdra, ond maent yn dangos un ffordd ymlaen, ac y gall y gweithwyr (gydag ychydig o gymorth) ffurfio busnes sy'n cynnig nid yn unig swydd a chyflog ond yr hawl i rannu'n gyfartal y penderfyniadau sy'n ffurfio dyfodol y fenter.

Mae cynnydd o 500 y cant yng Nghymru mewn tair blynedd yn brawf fod busnes cydweithredol yn gynnig sy'n bosibl ei weithredu, hyd yn oed yn y dirwasgiad economaidd ansicr yr ydym yn ei ganol ar hyn o bryd. Nid yw'r cynnydd yn amlycach yn unlle nag yng nghefn gwlad Gwynedd, lle sefydlwyd chwarter y cyfanswm o gwmnïau cydweithredol Cymru. Maent yn amrywiol iawn, e.e. peirianneg manwl, cwmni theatr, argraffwyr a thafarn gymunedol.

Gwasanaeth di-dâl drwy Wynedd
- am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni yn: Canolfan Cydweithredol Cymru, Stryd Fawr, Bangor
Ffôn: (0248) 364729

**NEWYDD
AGOR!
SIOP
BAENT**

**STORFA
Tŷ NEWYDD**

BRWSHUS . TYRPS
POLIFFILA . BWCEDI
'HARDWARE' AC ATI

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

**EMYR
JONES**

PLYMAR
PEIRIANNYDD

GWRESOGI

GWAITH
INSIWLEIDDIO

44 Glanffynnon

**LLANRUG
Caernarfon.**

3513

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

DIOLCH: Dymuna Gwilym, Ann a Nicola, 9 Tal y Bont ddiolch i'r teulu, i'w cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli mam a nain annwyl. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Mrs Martha Harrison, 11 Hafan Elan, Llanrug, gynt o 38 Bro Rhos, Bethel, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed ar Fawrth 13, 1987.

CANRIFAL: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Carnifal yn y Neuadd Goffa, nos Lun, Chwefror 23ain. Yn bresennol 'roedd chwe aelod o'r hen bwyllgor a'r cwestiwn mawr oedd a oedd y pentrefwyr eisiau carnifal eleni. Yn wyneb y ffeithiau hyn mae yn amlwg nad oes diddordeb am garnifal.

I ofalu am ddyfodol cinio Nadolig y pensïynwyr, penderfynwyd cynnal rhai o'r gweithgareddau a fuasai yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos garnifal.

Fe fydd pwyllgor agored yn cael ei drefnu eto i roi cyfle arall i ddangos diddordeb.

DIOLCH: Dymuna Mrs Katie Parry, 23 Hafan Elan ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion a fu mor garedig wrthi tra yn yr ysbyty, ac wedi dod adref. Diolch yn fawr.

Dymuna Mrs Annie Williams, 18 Hafan Elan, Llanrug ddiolch i'w theulu, cyfeillion a chymdogion am

eu cofion a'u caredigrwydd tuag ati tra yn yr ysbyty, ac ar ôl dod adref.

CYDYMDEIMLAD: Estynnir cydymdeimlad â Mrs K Griffith, Fron Hyfryd ar farwolaeth ei chwaer yng Nghaeathro.

CYMDEITHAS LENYDDOL: I derfynu tymor llwyddiannus o Gymdeithas Lenyddol Capel Mawr, cafwyd swper i ddathlu Gŵyl Dewi yng Ngwesty'r 'Royal Goat' Beddgelert, nos Wener, 27ain o Chwefror. Llywydd y noson oedd Mr Eifion Roberts, Nant y Glyn. Roedd yr adloniant wedi ei drefnu gan Mrs J Davies, Rhyd y Delyn a Mrs M E Jones, Ogwen. Cafwyd eitemau o ganu gan Barti o Ferched o'r Gymdeithas, deuawdau gan Mrs J M Jones, Ger y Ffynnon a Mrs M E Jones, Ogwen a Mrs N Williams, Haulfan a Mrs Eileen Williams, Stad Afon Rhos. Adroddiadau gan Mrs M Williams, Tanycoed, Mrs Hughes, Gorffwysfa a Mr Eifion Roberts, Nant y Glyn. Cafwyd eitemau eraill yng ngofal Mrs I Butler, Haddef. Mrs N Lovatt, Brwynog a Mrs M E Jones, Ogwen. Cyfeilydd y noson oedd Mrs N Lovatt a chafwyd cân werin ganddi hefyd. Gwraig wadd y noson oedd Miss Annie Jones, Llanberis, gynt o Minffordd, Llanrug, a chafwyd cyfraniad ariannol haelionus ganddi i goffrau'r Gymdeithas. Mr J W Owen, Llain y Delyn gyflwynodd y wraig wadd. Diolchwyd i bawb am noson lwyddiannus gan y Parch W O Roberts, Manod, a diolchodd hefyd i'r swyddogion am eu gwaith yn ystod y tymor. Cefnogwyd y diolchiadau gan Miss Malan Roberts, Garreg Lwyd.

CYDYMDEIMLO: Estynnir cydymdeimlad â Mrs K Griffith, Fron Hyfryd ar farwolaeth ei chwaer yng Nghaeathro.

Hefyd â Mr Alun Williams, 2 Rhos Rug ar farwolaeth ei fam yn Rhosgadfan.

Yn ogystal, cydymdeimlwn â Mrs N Hughes, 24 Stad Hafan Elan ar farwolaeth ei chwaer.

GWELLHAD: Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs N Griffith, Bryn Celyn. Hefyd i Mrs N Hughes, 24 Hafan Elan. Mae Mrs N W Morris, 15 Rhos Rug wedi dychwelyd adref o'r ysbyty; dymunwn wellhad buan iddi hithau.

PROFEDIGAETH: Bu farw Miss C A Roberts, Fron, yn ddiweddar. Roedd yn aelod ffyddlon o Eglwys Llanrug. Estynnir cydymdeimlad â'i brawd, Glyn, ei chwaer Betty a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

MARWOLAETH: Yn frawychus o sydyn, fore Gwener, Chwefror 27ain, bu farw Mrs Gwawrwen Thomas, yn 58 oed. Cafwyd gwasanaeth

cyhoeddus yn y tŷ bawn dydd Mawrth, Mawrth 3ydd, dan arweiniad y gweinidog y Parch John Morris a'r Parch W O Roberts. Claddwyd ei gweddillion ym Mynwent Llanrug. Cydymdeimlir â Mr Robert Llewelyn Thomas a'r meibion, Arwel a Gwyn a'r brodyr Goronwy, Gwyn a Tom Alun yn eu profedigaeth.

CHWIORYDD CAPEL MAWR: Cafwyd cyfarfod o'r chwiorydd yng Nghapel Mawr yn ddiweddar o dan lywyddiaeth Mrs Jean Davies. Arweinwyd mewn gweddi gan Mrs Beryl Thomas, Gerallt. Anfonwyd cofion at chwiorydd yr eglwys sy'n wael. Darparwyd lluniaeth gan Mrs Nansi Lovatt a Mrs Olwen Llywelyn.

GWELLHAD: Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs L Jones, Lyndale a Mr Owen Jones, Llwyn Onn. Hefyd i Mrs B Evans, Afon Rhos ynghyd â Mr Alf Pritchard.



Agoriad Swyddogol y Foelas

(o'r chwith i'r dde): Eli Williams, Rheolwr; Richard a Meirwen Thomas, Perchnogion; Mrs Griffiths; Mrs Pat Larsen, Maer Arfon; Mr I B Griffith, Maer Caernarfon y Gŵr Gwadd; Mr John Gwilym Jones, Llywydd y Seremoni.

Y FOELAS: Ers yn agos i flwyddyn bellach bu disgwyl mawr am weld 'Y Foelas' ar ei newydd wedd fel Cartref ar gyfer yr henoed yn hytrach na gwesty a thŷ bwyta. Bu llawer iawn o feddwl a chynllunio ac ail-feddwl cyn i'r adeilad gael ei addasu i wneud cartref i un ar ddeg o bobl sydd angen gofal heb iddo fod yn ofal nyrsio. Ac o'r diwedd, ar ddydd Mercher, 11 Mawrth, 1987 fe'i hgorwyd fel y gallai pawb gael cyfle i weld y gwelliannau a wnaethpwyd - ac i fwcio'u hystafelloedd!

Perfformiwyd y seremoni agoriadol gan Faer Bwrdeisdref Caernarfon, yr Henadur I B Griffith, OBE, a derbyniwyd dymuniadau da oddi wrth nifer o bobl - yn eu mysg, yr Aelod Seneddol Mr Dafydd Wigley, a Maer Arfon, y Cynghorydd Mrs Pat Larsen. Roedd y prynhawn yng ngofal Mr John Gwilym Jones, gynt o Lanberis, ond bellach o Bontllyfni.

Roedd Mr a Mrs Richard Thomas, y

CYFARFOD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yng Nghapel Mawr, brynhawn Gwener, Mawrth 6ed. Roedd hwn yn gyfarfod arbennig gan ein bod yn dathlu canfed pen-blwydd y Cyfarfod Gweddi Byd Eang eleni. Y llywydd oedd Mrs Jean Davies a chymerwyd rhan gan Miss Megan Humphreys, Mrs Jane Humphreys, Mrs Beryl Jones, Mrs Lola Butler, Mrs Jean Evans, Mrs Bethanne Williams, Mrs Inigo Jones, Mrs Myfi Roberts, Mrs Beryl Thomas, Mrs Nansi Roberts, Mrs Enid WhmThomas, Mrs Amy Smith, Mrs Ceridwen Williams, Mrs Megan Williams, Mrs J Parry, Miss M G Roberts. Rhoddwyd yr anerchiad gan Mrs Jennie Catherine Williams a chyfeiliwyd gan Mrs Nansi Lovatt.

CYDYMDEIMLIR â Mrs C Roberts, Gwylfa ar farwolaeth ei mam yn Llanberis.



Mr Harry Roberts, Llanrug — a dderbyniodd Fedal Gymdeithas Bandiau Pres Gogledd Cymru am roi 40 mlynedd a mwy o wasanaeth i'r mudiad bandiau pres.

Mae mwy o ddewis
nag erioed gan
**JOHN A ROBERTA
GRIFFITH
Y STORFA
SGWÂR LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon 2790

Bwydydd, Llysiau,
Diodydd, Gwlân Sirdar,
Patrymau, Gweill Aero
Agored 7.30 a.m. - 6.30 p.m.
Agored tan 8.00 p.m. nos
Wener a
9.30 - 12.30 fore Sul
Archebwch dros y ffôn - fe'i
danfonwn at eich drws

**E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis**

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Dysgwch yrru'r car gydag

**Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS**

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

**PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112**

Cymeradwyr gan yr Adran
Drafnidiaeth

GWELLHAD: Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mathew, bachgen bach Dafydd a Gwenda Thomas, a fu yn Ward y Plant, Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

PWYLLGOR APÊL Y SGANIWR: Cyfarfu Pwyllgor Apêl y Sganiwr, nos Wener, Mawrth 13eg yn Festri Pontrhythallt. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch John Morris. Hysbyswyd y pwyllgor fod £3,170.84 eisoes wedi ei gasglu tuag at yr apêl. Penderfynwyd cyrraedd y nod o £3,729. Hyderir yn fawr y bydd ymateb teilwng i'r apêl ac y bydd y £558.16 sydd ei angen i gyrraedd y nod yn cael ei gyrraedd yn fuan.

PLAID CYMRU: Nos Fercher, Mawrth 11 daeth aelodau o ganghennau Waunfawr a Llanberis atom i gangen Llanrug i gystadlu mewn Cwis Gwahanol. Cawsom noson ddifyr ac addysgiadol iawn wedi ei threfnu gan Dafydd Whiteside Thomas a Gwyndaf Jones. Croesawyd y gwesteion gan Phyllis Ellis. Rhoddwyd y te gan Meirwen Lloyd a Meryl Green. Enillwyd y raffl gan Ann Pritchard, Llanberis. Enillwyd y Cwis oedd: 1. Gweneirys Jones, Waunfawr; 2. Mary Vaughan Jones, Waunfawr a Rhys Llwyd, Llanrug.

Gwobr gysur: Eirwen Rowlands.

Mae'r pwyllgor yn paratoi ar gyfer y Ffair Wanwyn ar nos Fercher, Ebrill 1, yn Ysgol Gynradd Llanrug. Bydd yno stondinau cacennau, bwyd, teganau ac eliffant gwyn. Derbynnir cyfraniadau gan y canlynol: Meirwen Lloyd, Nan Humphreys, Phyllis Ellis, Ann Evans, Olwen Hughes, Helen Parry, Vera Williams, Olwen Llywelyn. Trefnir gemau i'r plant. Edrychwn ymlaen at eich croesawu yno ac at eich cefnogaeth arferol.

Ar nos Fercher, Ebrill 8, mae'r gangen yn trefnu perfformiad o "Pawb Isio Byw" gan gwmni Bara Caws yn neuadd Ysgol Brynrefail. Mynediad £1.50 i oedolion a 75c i blant a phensiynwyr. Tocynnau ar gael gan aelodau'r gangen. Os am ychwaneg o wybodaeth ffoniwch Caernarfon 5668 neu Waunfawr 200.

Dyddiadur yr Eco

Ebrill 1: LLANRUG: Plaid Cymru. Ffair Wanwyn yn Ysgol Gynradd Llanrug am 6.30 o'r gloch.

EBRILL 8: LLANRUG: Ysgol Brynrefail. Theatr Bara Caws yn perfformio 'Pawb Isio Byw' am 7.30 o'r gloch.

CYMDEITHAS UNDEBOL: Nos Fawrth, Mawrth 3 yng Ngwesty Plas Tan Dinas, dathlodd y Gymdeithas Undebol ddydd Gŵyl Dewi. Y wraig wadd ydoedd Mrs Mair Parry, Bethel (genedigol o Crawia, Llanrug.) Traddododd annerchiad grymus ar Dewi Sant, a chyflwynodd hefyd ei hatgofion plentyndod yn Llanrug a'r cylch. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch John Morris. Talwyd y diolchiadau gan Miss Megan

Humphreys, Cadnant, Tan-y-Coed. Etholwyd swyddogion am y tymor 1987-88: Llywydd, Mr Ifor Williams, 25 Stad Hafan Elan; Trysorydd, Mrs J C Williams, Bodfair; Ysgrifenyddes, Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad iechyd buan i Mrs Nesta Jones, 1 Bro Rhyddallt, sydd wedi dychwelyd gartref o'r ysbyty.

MERCHED Y WAWR: Bu'r gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi eleni ar Fawrth 10fed. Cafwyd noson o "Rannu a Blasu Danteithion" pryd y daeth pob aelod ag un cynnyrch - sawrus neu felys. Roedd y byrddau yn wledd i'r llygaid cyn dechrau ar y bwyta, a bu hen drin a thrafod y gwahanol risetiau. Roedd parti Clychau'r Grug yno'n diddanu, a chafwyd gwledd o gân ganddynt hwythau dan arweiniad Mrs Glenys Griffith, a chyfeillio Miss Lowri Prys Roberts. Diolchwyd iddynt gan Mrs Bethanne Williams. Darparwyd paned gan aelodau'r pwyllgor.

Mae'r timau bellach wedi eu trefnu ar gyfer y chwaraeon rhanbarthol sydd i'w cynnal ar Ebrill 2 yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Bydd Cyfarfod Blynnyddol y gangen ar Ebrill 14 a gobeithir ei ddilyn gyda chwist "Pwy sy'n Perthyn?".

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gronfa'r Eco:

£25: Cyngor Cymdeithas Waunfawr.

£5: Mr Meurig Owen, Llundain; Mr E C Rowlands, Little Sutton; Mrs McCarthy, Childwall; Mrs Menna Bryne, Llanfilo; Mrs J Williams, Borth y Gest; Teulu y diweddar W Sam Griffiths, Deiniolen; Mr a Mrs Edward Jones, 15 Bro Rhos, Bethel.

4: Teulu Minffordd, er cof am William Goronwy Morris

£3: Mrs H T Owen, Plwmp, Llandysul; Mr P W Williams, Corby; Mr Owen Jones, Talwrn.

£2: Mrs Jones, Hirfron, Llaneris; Di-enw; Nellie Valmai Pritchard, Pendyffryn, Dinorwig; Mrs Ella Williams, 15 Pentre Helen, Deiniolen; Mrs Myfanwy Jones, 2 Bro Deiniol; Mrs Katie Parry, 23 Hafan Elan, Llanrug.

£1: Miss M Griffith, Caerhun; Mrs Evelyn Anderson, Bodafon, Stad Tŷ Hen; Sharon Owen, Bryn Hyfyrd; Mrs Betty Evans, 11 Llys y Gwynt, Penisarwaun;

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands "Glanrafon" (872275)

EGLWYS SANT GABRIEL: Cynhaliwyd noson Bingo lwyddiannus iawn yn y Ganolfan, nos Fawrth, Mawrth 3. Enillwyd y raffl oedd: Bocs nwyddau - John South, Caernarfon; Cloc - N Parry, Caernarfon; Martini - Edryn, Llanberis; Stainless Steet set - Mrs D Jones, Bwlch; Bocs nwyddau - Carys, Glan y Don; Chwisgi - Mr Hughes, Hyfrydle; Sieri - Mrs Roberts, Bod Gwynedd; Gobennydd - Miss Megan Davies, Craig y Don; Pyrecs - Williams Tan Rallt; Bisgedi - Morris, Stryd Newydd; Gwin - Gwenno, 1 Eryri, Bethel; Bisgedi - JH Owen, Ferodo; Dysgl - Carys, Glan y Don; Lliain bwrdd - Mrs Hughes, Bryn.

Enillwyd y raffl noson y Bingo oedd: Cacen - Lloyd Owen; Bara Brith - Annette Jordan; Cinzano - Christine Jordan; Barabyr - Christine Jordan; 'Cruet' - Kevin Williams; 'Powder Puff' - Mrs Megan Pritchard; Liguers - Mrs Valmai Owen; Gobennydd - Mr Idriswyn Roberts.

Dymuna wardeniaid yr Eglwys ddolch i bawb am noson mor llwyddiannus.

CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Len Jones a'r teulu, Arosfa, Fron Gader yn ei brofedigaeth o golli ei fam, sef Mrs Margaret Jones, Maes Padarn, Llanberis.

GWELLHAD: Da yw deall fod Mrs Woods, Brynffynnon, Cheryl Hughes, 10 Dôl Afon, Andrew Jones, 4 Dôl Afon ac Aaron Steele, Bryngwyn Mawr wedi gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.

Bu llawer o blant y pentref yn cywno yn ystod yr wythnosau diwethaf. Hyderwn eu bod hwythau wedi gwella erbyn hyn.

CLWB PÊL-DROED DAN 16: Ennill fu hanes yr hogiau o bedair gôl i dair yn erbyn Morfa yng nghwpan Jimmy James (rownd go gyn-derfynol) ond colli o bum gôl i un eto yn erbyn Morfa yng Nhlws Lonsdale.

ADRAN YR URDD PEN-Y-LLYN: Bu aelodau'r Adran yn cystadlu'n frwd yn Eisteddfodau'r Urdd yn ddiweddar. Aeth Parti Adrodd i'r Eisteddfod dan 15 oed yng Nghaernarfon a bu pob aelod o'r adran yn cystadlu mewn rhyw gystadleuaeth neu'i gilydd yn yr Eisteddfod dan 12 oed yn Ysgol Brynrefail. Llongyfarchion i bawb a fu'n cymryd rhan ac a fu'n paratoi mor galed. Diolch hefyd i'r oedolion a fu'n cynorthwyo. Gobeithir cynnal noson o adloniant a phaned at y Sgannydd cyn hir, a chaiff y plant gyfle i ddangos eu doniau unwaith eto. Gwylwch am y posteri.

Bu aelodau'r Adran yn ymweld ag Adran Penisarwaun yn ystod y mis pryd y gwelwyd ffilm fidio newydd yr Urdd ar Glanllyn a Llangrannog. Diolchwyd i aelodau Penisarwaun am eu croeso gan Kelvin Houston.

Aeth saith o'r bechgyn hefo'r Mri Gwilym Williams ac Idriswyn Roberts i gystadlu yng nghystadleuthau pêl-droed pump-bob-ochr Sirol yr Urdd yng Nghaernarfon Hamdden Arfon. Cafwyd hwyl arbennig ar y chwarae, ac er na chollwyd ond un gêm o'r pedair a chwaraewyd nid aeth y tîm ymlaen i'r ail rownd.


CLWB POBOL Y CWM: Mewn cyfarfod o aelodau y Clwb dydd lau, Mawrth 4ydd, rhoddodd Mr R H Parry, aelod o'r Clwb sgwrs ddiddorol ar leuan Gwylt. Ganwyd ef yn 1822 yn faban gwan o gorff a bu bron a boddi yn 3 oed. Tyfodd gydag awydd i ddysgu ac roedd ganddo ysgol ddyddiol ei hun yn 16 oed. Cafodd ei dderbyn yn athro yn Aberystwyth pan yn 21 oed. Yn 1852 aeth i Lerpwl fel golygydd yr "Amserau" ac yn ei ysgrifau dangosodd fod ganddo syniadau cryf ar broblemau cyfoes. Derbyniwyd ef yn Weinidog yn Llanberis yn 1865. Fel cerddor ac arweinydd cymanfaoedd rhoddodd gyfraniad aruchel i ganiadaeth y cysegr. Bu farw yn 1877 yn 55 oed a chladdwyd ef ym mynwent Caeathro. Diolchodd y llywydd i Mr Parry am ei sgwrs ac i Miss E Hughes, Tan y Griag a Mrs E Hughes, Hyfrydle am y baned, ac i Mrs G Pritchard, Bryn Gwynedd am y raffl.

Nid aeth cyfle heibio i ddathlu Gŵyl Dewi dydd lau, Mawrth 12, er ychydig ddyddiau yn ddiweddar. Cychwynwyd y cyfarfod gyda annerchiad gan y llywydd, Mr Llew Hughes ac yn dilyn gyda amrywiol adroddiadau gan Mrs G Chick, Rhos y Ffin, Mrs K Watkins, Dolwen, Mrs H M Roberts, Bryn Gro, Mr H Pritchard, Bryn Gwynedd. Ar amgylchiad arbennig fel hyn roedd dantheithion amrywiol wedi eu darparu yn y ffordd draddodiadol Gymreig gan yr aelodau, yn cynnwys Bara Brith, Bara Ceirch, Teisennau Radell, a Bisgedi Taffi Triog.

Roedd trefniadau y te yng ngofal Mrs J Parry, Bro Rhythallt a Miss M Davies, Craigydol a rhoddwyd y raffl gan Mrs E Hughes, Hyfrydle.

CŴN BACH "BORDER COLLIE"

Mae angen cartref i gŵn defaid "border collie" du a gwyn sy'n 5 wythnos oed ar hyn o bryd. Byddant yn barod i adael cartref yn 6 neu 7 wythnos oed. Un gast a dau gi. Ffôn: Bethesda 602141



Caernarfon Industrial Supplies

BRYNAFON, LLANRUG, Ffôn: Caernarfon 4448

Hoelion, Sgriws, Bolltiau, "Fasteners", Sgidiau, Wellingtons, Cotiau gwarchod a hamdden, oll am Brisiau gyda'r rhataf yn y fro.

Discownt o 25% ar Dŵls



SELWYN MORRIS

Adeiladwr a Threfnydd Angladdau

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2841

DEINIOLLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

Llongyfarchiadau i Dad a Mam, Mr a Mrs Idwal Jones, 18 Hafod Olau ar ddathlu eu Priodas Ruddem ar Fawrth 26ain.

BEDYDD: Bedyddiwyd Mark Lee Paul Demicoli, mab bychan Tracey a Joseph Demicoli yn Eglwys Gatholig Mosta, Malta ar y 23ain o Ragfyr 1986. Wyr bychan Mr a Mrs Tecwyn Williams, 15 Pentre Helen, Deiniolen.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fawrth 2il o dan arweiniad Mrs Rita Parry Jones, y Llywydd. Darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifennydd.

Cawsom Noson Lawen i ddathlu Gŵyl Ddewi. Cymerwyd rhan gan nifer o'r aelodau a chawsom noson ddifur iawn.

Rhoddwyd y te gan Mrs Mary Thomas, Mrs H J Thomas a Miss Nancy Roberts. Enillydd y raffl oedd Mrs Beryl Hughes. Croesawodd y llywydd Mrs Nancy Thomas a Miss Kathleen Jane Jones yn ôl ar ôl gwaelled. Croesawyd hefyd dwy aelod newydd, sef Mrs Diane Williams a Mrs Beryl Griffiths, Castell. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 6ed pan fydd y Parch Gwynfor Williams, Llanberis yn trafod 'Achub Bywydau'.

Bydd yna stondin Moes a Phryn yno hefyd.

YSGOL GWAUN GYNFI: Llongyfarchiadau i blant Ysgol Gwaun Gynfi ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Cylch yr Urdd a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail, Chwefror 28, 1987. Dyma'r plant fydd yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Sir ym Mangor ar Fawrth 28ain:

Unawd Cerdd Dant dan 8 oed: Alaw Mari Hughes; Adrodd dan 8 oed: Alaw Mari Hughes; Unawd dan 8 oed: Richard Williams; Adrodd dan 10 oed: Elaine Williams; Unawd dan 10 oed: Lyndsey Vaughan Parry; Unawd Cerdd Dant dan 12 oed: Delyth Ann Price; Adrodd dan 12 oed: Dyfan Sion; Deuawd dan 12 oed: Ceri Ann Roberts a Lyndsey Vaughan Parry; Unawd Telyn dan 12 oed: Catrin Keller; Unawd Prês dan 12 oed: Sion Wyn Hughes a Sian Griffiths; Parti Adrodd dan 12 oed: Parti Derwyn.

DIOLCH: Dymuna Mrs Myfanwy Jones a'r teulu, 2 Bro Deiniol, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mab a brawd, David (Dakota, Llanberis). Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Mr a Mrs Goronwy Price Morris, 13 Tal-y-Bont, Llanrug,

ddiolch i'r teulu a'u cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli tad a thaid annwyl. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna teulu'r diweddar Mr John Evans, 2 Tan-y-Foel ddiolch yn gynnes i'r ardal am y cydymdeimlad a dderbyniwyd ar farwolaeth John Evans.

NEWYDDION Y SEINDORF: Ar y 29ain o Fawrth bydd y Seindorf yn teithio i Blackpool i gystadlu yn y gystadleuaeth cyn-derfynol Gogledd Lloegr. Bydd 25ain o fandiau yn cystadlu a bydd y tri band cyntaf yn mynd ymlaen i'r prawf terfynol yn Llundain ym mis Hydref i gystadlu am bencampwriaeth Prydain Fawr. Pob lwc iddynt.

Enillwyr y Clwb 200 am fis Mawrth oedd 1. £20: Mrs Gwyneth Lloyd Roberts, Brynrefail; 2. £15: Mr R O Williams, Arfon House, Deiniolen; 3. £10: Miss K Jones, Prenteg, Deiniolen

CYFARFOD CYHOEDDUS: Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd y Ganolfan am hanner awr wedi saith nos Fercher, 22ain o Ebrill. Yn y cyfarfod hwn eto byddir yn trafod agweddau ar fywyd y pentref, ac er cyfoethogi'r drafodaeth, hyderwn weld pob haenen o'r pentrefwyr, gyda chynrychiolaeth o wahanol fudiadau'r pentref yn bresenol yn y Cyfarfod. Felly cofiwch wneud nodyn o'r dyddiad a gwnwch ymdrech arbennig i ddod yno.

CYNGOR EGLWYSI DEINIOLLEN: Y Parchedig Erfyl Blainey a fu'n cyfareddu pawb ddaeth ynghyd i Festri Ysgoldy nos Lun, 9fed o Fawrth i wrando arno yn traethu ar y diweddar Barchedig John Evans, Eglwysbach. Roedd y tywydd yn oer a gaeafol y tu allan, ond llwyddodd Mr Blainey i gynhesu ei wrandawyr wrth sôn am hynt a helynt un o arwyr y Wesleaid, oedd yn amlwg yn eilun i'r siaradwr. Nid yn unig cafwyd hanes manwl am John Evans o'i febyd i'w fedd, ond cafwyd dyfyniadau o'i arabedd, a'i bregethau yn cael eu mynegi gydag angerdd.

Nos lau Cablyd, 16eg o Ebrill, gweinyddir y Cymun gan Weinidogion y Cyngor, yng nghapel Libanus am saith o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i bawb i'r oedfa arbennig hon.

PERERINDOD I SANGRO RIVER MYNWENT RYFEL ORTONA, EIDAL YM MIS MEDI, 1986

Aeth fy ngwraig a minnau ar bererindod i weld bedd fy nhad, y diweddar Evan Williams, Deiniolen.

Ar ôl cyrraedd y maes awyr, roedd yn rhaid i ni deithio mewn bws am 3 awr i'r

gwesty.

Yn y gwesty cawsom gyfarfod â rhai a oedd wedi teithio o'r Alban, De a Gogledd Lloegr.

Awgrymwyd i ni fynd ar y bererindod gyda'n gilydd.

Diwrnod yr Ymweliad

Roedd yn rhaid codi'n fore i deithio mewn bws, trên a thacsi. Pan yn disgwyl am y bws mi gawsom gorwynt o law nes ein bod yn wlyb at ein croen, ond wedi sychu cyn cyrraedd pen ein taith.

Aeth ein harweinydd â ni i'r fynwent mewn tacsi, a dangosodd i ni fedd fy nhad. Cawsom 6 awr yno.

Fedra i ddim egluro fy nheimplad wrth fedd fy nhad, ond roedd yn brofiad dwys iawn, llawn o ddieter a hiraeth.

Mae'r fynwent yn daclus ac yn hardd. Am fod gennyf amser mi ddarllenais y cofrestr a gweld bod yna lawer o hogiau ifanc o'r Gogledd wedi eu claddu yn y fynwent.

I ddiweddu adroddais Salm 23 a Gweddi'r Arglwydd yn Gymraeg fel y dywedais yn y Band of Hope yng Nghapel Eban flynyddoedd yn ôl.

GYDA DYMUNIADAU GORAU i Mr a Mrs John Griffiths, Caerbythod ar achlysur cyrraedd Hanner Canrif o Fwyd Priodasol, Mawrth 25, 1987.

Llongyfarchion gwaelod calon Rhown i'r ddeuddyn hoffus hwn, Ar ôl priodi hanner canrif Mewn hapusrwydd llawn mi wn. Craesaw parod ar eu haelwyd Fel gwyr llw o blant y fro, Athro Cerdd fu Johni iddynt Am flynyddoedd tō rôl tō.

Yn yr Eglwys rhodd wasanaeth Draw ym mhentref Penisarwaun, Deunaw mlynedd wrth yr organ A'r holl waith oedd gyda graen, Yna daeth i gapel Ysgoldy, Man addoli hynna'r fro, Wyth a deugain o flynyddoedd Fel organydd y mae o.

Ei gyfeilio sydd mor gelfydd, Mae yn feistr ar ei waith, Anodd iawn fydd cael ei debyg Yn yr ardal, dyna'r ffaith. Ym mhob cyngerdd ac eisteddfod Wrth y piano yr oedd o, Ac yn helpu pob datganwr Gyda sicr sain bob tro.

Tri o blant a anwyd iddynt Dim ond dau yn awr yn fyw, Dysgwyl iddynt ar yr aelwyd Sut i barchu dyn a Duw, Boed i Eurwen, John a'r teulu Lawer blwyddyn eto 'nghyd, A hapusrwydd, nerth ac iechyd Ar eu taith trwy hyn o fyd.

RH Clwt y Bont

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen (Caernarfon 3536)

MERCHED YN BENNAF: Mae rhai merched yn y pentref yn dangos diddordeb mewn ail-ddechreu cyfarfodydd o rhyw fath i'r merched. Teimlir fod angen rhywbeth i ni ferched yn y pentref. Os oes gennych diddordeb, a allwch roi eich enwau i Beryl, os gwelwch yn dda.

GWELLHAD: Rwy'n sicr y bydd y pentrefwyr i gyd yn falch o glywed y newydd diweddaraf am Sara, Maes-y-Coed. Mae hi erbyn hyn yn llawer gwell ac oddiar y peiriant cynnal bywyd. Gobeithio iddi gryfhau o ddydd i dydd, ac edrychwn ymlaen atei gweld yn dod adref.

Llongyfarchiadau i Eirlys a John Pritchard, 8 Bryn-y-Gof, ar fod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd ail fab i'w merch Iona.

ac i Wendy a Peris Thomas, 4 Bryn-y-Gof, ar enedigaeth merch fach, Susan, chwaer i Ceri, Heather a Sharon.

CROESO: Croesawn yn gynnes i'n plith Elen Davies, sydd wedi dod i fyw i 5 Rhes Glangwna. Gobeithio y bydd yn hapus iawn yn y pentref.

YSGOL GYNRADD BONTNEWYDD
ER GWYBODAETH: Disgyblion fydd yn gyfrifol o hyn allan am gyflwyno newyddion yr ysgol i LLEU ac ECO'R WYDDFA. Bydd y newyddion yn cael eu bwydo i'r cyfrifiadur, eu storio ynddo, ac ar ddiwedd y mis yn cael eu hargraffu. Yna bydd Mrs Enid

Williams, gohebwaig Bontnewydd, a Mrs Beryl Roberts gohebwaig Caeathro yn cael y newyddion. Y casglwr y mis yma oedd Nia Wyn Evans ac Angharad Gwyn. Hwyl hefyd oedd yn gyfrifol am fwydo'r cyfrifiadur a'i argraffu. Os ydych am wybod beth sy'n mynd ymlaen yn yr ysgol:

PRYNWCH ECO'R WYDDFA

Daeth yr ysgol yn fuddugol yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft, Cylch Arfon o'r Urdd. Llongyfarchiadau i'r canlynol o Gaeathro a ddaeth yn

Parhad ar dudalen 19

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi a phob math o lorïau

Cil-y-Mynydd WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 552



STRYD FAWR, DEINIOLLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

A dewis rhagorol o Fideos i'w benthg Hefyd yn Siop

FFYN A CHERRIG, STRYD FAWR, LLANBERIS



22 BRYNTIRION

Ffôn: Llanberis

870145

TAC SIS WEBB

PENISARWAUN

Gwasanaeth 24 awr – pell ac agos
Gwasanaeth Maes Awyr
a Phorthladd
Gwaith Contract

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Hen Ganeuon Traddodiadol

Nid oes gennyf amheuaeth na chewch chi gysur a mwynhad yn canu'r hen ganeuon traddodiadol canlynol:

MYFANWY (Geiriau Ceiriog)

Paham mae dicter, O Myfanwy,
Yn llenwi'th lygaid duon di,
A'th ruddiau tirlon, O Myfanwy,
Heb wrido wrth fy ngwled i?
Pa le mae'r wên oedd ar dy wefus,
Fu'n cynnau 'nghariad ffyddlon, ffôl?
Pa le mae sain dy eiriau melys
Fu'n denu 'nghalon ar dy ôl?

Pa beth a wnes i, O Myfanwy
I haeddu gwg dy ddwyrudd hardd?
Ai chwarae oedd, O Myfanwy,
Â thannau euraidd serch dy fardd?
Wyt eiddo im drwy gywir amod
Ai gormod cadw'th air i mi?
Ni cheisaf fyth mo'th law, Myfanwy,
Heb gael dy galon gyda hi.

Myfanwy, boed dy holl o'th fywyd
Dan heulwen ddisglair canol dydd,
A boed i ros yn gwridog ientid
Ddawnsio ganwaith ar dy rudd.
Anghofiais oll o'th addewidion
A wnest i rywun 'ngeneth ddel,
A rho dy law, Myfanwy dirion,
I ddim ond dweud y gair, Ffarwel.

PAID Â DEUD (Traddodiadol)

Os yw'th galon bron â thorri,
Paid â deud;
Am fod serch dy fron yn oeri,
Paid â deud;
Ac os chwalu mae'd obeithion
Paid â deud;
Ni ddaw neb i drwsio'th galon,
Er it ddeud.

Pan fo stormydd byd yn gwgw,
Paid â deud;
A gelynyon am dy faeddu,
Paid â deud;
Ac os weithiau byddi'n llwyddo
Paid â deud;
Hawdd i'th lwydd fynd trwy dy ddwylo
Wrth it ddeud.

LISA LÂN (Traddodiadol)

Bûm yn dy garu, lawer gwaith,
Do, lawer awr mewn mwynder maith,
Bûm yn dy gusanu, Lisa gél,
Yr oedd dy gwmni'n well na'r mêl.

Fy nghanen lân, fy nghowlad glyd,
Tydi yw'r lanaf yn y byd;
Tydi sy'n peri poen a chri,
A thi sy'n dwyn fy mywyd i.

Pan fyddwy'n rhodio gyda'r hwyr,
Fy nghanon fach a dodd fel cwyr;
Wrth glywed sŵn yr adar mân,
Daw hiraeth mawr am Lisa Lân.

Lisa, a ddoi di i'm danfon i,
I roi fy nghorff mewn daear ddu?
Gobeithio doi di fannwyl ffrind
Hyd lan y bedd, lle'r wyf yn mynd.

CLEC AR FY MAWD

Gwrandewch yn awr y Cymry llon,
Tra'n adrodd i chwi'r ganiad hon,
'Rwy'n eithaf dyn, 'rwy'n eithaf brad,
'Rwy'n eithaf gŵr mewn tref a gwlad.
Mi aethum unwaith i ryw ffait,
A diengais ymaith ar hanner gair.
Ar ôl cael fy nhystio, coeliwch fi,
Rhois glec ar fy mawd, a ffwrdd â mi.

Mi es i frecwast i'r Cook Shop
Ces yno stakes a mutton chops.
Ac yno bûm yn brysur iawn
Am ennys fer, a'm bol yn llawn.
Daeth bechgyn eraill at y bwrdd
Ac yna diengais innau i ffwrdd;
Tra'n tendio rhain bu gwraig y tŷ,
Rhois glec ar fy mawd, a ffwrdd â mi.

Mi dwyllais y bwtsiar ar ryw dro
Am hanner dafad a hanner llo.
'Roedd yr hen fwtsiar yn hen fachgen quick
Ond dangosais iddo bertiach tric.
Rhois i'r hen fachgen ddau lygad du
A chleciais fy mawd, a ffwrdd â mi.

Mi es i'r siop am ddillad ar fy hynt,
A phrynais yno werth dwy bunt,
Fe ddwedais i wrthi y talwn i'n ffri
A'r gwas a ddanfonodd ef gyda myfi.
Ond wrth i mi basio heibio Yr Harp,
A'r bachgen nid oedd hanner sharp,
Fe safodd yn ei ôl ddau gam neu dri
Rhois glec ar fy mawd a ffwrdd â mi.

Mi brynais geffyl gan ryw ddyn
'Roedd hwnnw'n rôg fel fi fy hun
Dwedais wrthy y rhown ddeugain punt
Am geffyl sownd heb dorri'i wynt;
Y dyn a ddywedodd, "Chwi wyddoch y drefn,"
A pharodd i minnau fynd ar ei gefn;
Rhois innau spardyn i'r hen geffyl du
A chlec ar fy mawd a ffwrdd â mi.

Cytgan
Fe waeddodd y plisman, "Daliwch y dyn",
Fe waeddais innau yr un peth fy hun,
Er fod yno bobl ddau gant neu dri,
Rhois glec ar fy mawd, a ffwrdd â mi.

Ni wn pwy yw'r awdur. Tybed a wyddoch chi? Anfonwch.

FFARWEL I BLWY LLANGOWER Llew Tegid (Traddodiadol)

Ffarwel i blwy Llangower
A'r Bala dirion deg;
Ffarwel fy annwyl gariad,
Nid wyf yn enwi neb.
'Rwy'n mynd i wlad y Saeson
A'm calon fel y plwm,
I ddawnsio o flaen y delyn
Ac i chwarae o flaen y drwm.

Ffarwel i'r Glyn a'r Fedw,
A llethrau'r hen Gefn Gwyn;
Ffarwel i'r Llan a'i dwrw,
A llwybrau min y llyn;
Wrth ganu'n iach i Feirion,
Os yw fy llais yn llon,
Yn sŵn ei hen alawon,
O! y pigyn sy' dan fy mron.

GWNEWCH BOPETH YN GYMRAEG (Traddodiadol)

Os Cymry annwyl ydych
Na wadwch byth mo'ch laith,
Er mynd i wlad yr estron
Neu groesi moroedd maith,
Os hollr chwi yn Saesneg
Yn Lladin neu Hebraeg,
Gofalwch, doed a ddelo,
Am ateb yn Gymraeg.

Siaradwch yn Gymraeg,
A chenwch yn Gymraeg
Beth bynnag 'rych chi'n wneuthur
Gwnewch bopeth yn Gymraeg.

Os gwelwch eneth dirion
Yn mynd â serch eich bron,
Os teimlwch chwant roi'ch calon
Am galon dyner hon,
Rhowch dafod i'ch serchiadau
Yn seiniau mwyn Cymraeg,
A phan y rhowch chi gusan
Rhowch gusan yn Gymraeg.

Cytgan

Cefnogwch ein Hysbysebwy

9ed Mai – 6ed Mehefin 1987

TAITH YN ERBYN TLADI

Annwyl Gyfeillion,

Yr ydym ni yn Taith yn Erbyn Tlodi eisiau eich cymorth wrth wneud pobl yn ymwybodol o anghenion tlodion a newynog y byd. Digwyddodd a darfu Arian Byw, Live Aid a Sport Aid ond y mae tanddatblygiad a newyn yn aros. Cymerodd miliynau o bobl ran yn y digwyddiadau hyn oherwydd eu bod eisiau gwneud rhywbeth ynghylch anghyfiawnder.

Nid yw codi arian i gynorthwyo dros dro yn ddigon. Oni newidir yn gyflym dermau masnach, cymorth a dyled sy'n wynebu gwledydd tlawd bydd dydd arall yn gweld newyn arall.

Bydd cannoedd o filoedd o bobl yn cymryd rhan mewn cyfres o deithiau – cerdded cyfnewid drwy Brydain benbaladr rhwng Mai 9fed a Mehefin 6ed.

Bydd digwyddiadau a drefnir ar y ffordd yn darparu cyfle i annog A.S. i gymryd y 5 cam hwn:
CYNYYDDU A GWELLA CYMORTH
TRAMOR
CYNORTHWYO'R NEWYNOG I
DYFU RHAGOR O FWYD
MASNACHU TEG EFO
GWLEDYDD TLAWD
CODI BAICH Y DDYLED ODDI
ARNYNT
HYRWYDDO YMDRECHION I
D D I W E D D U
GWRTHDRAWIADAU

Y cyhoeddiad pum cam hwn fydd y neges gyfnewid a fydd yn croesi Prydain gan gasglu miliwn o lofnodion erbyn yr amser y bydd yn cyrraedd Llundain ar Fehefin 6ed. Yr ydym yn gofyn i'n Llywodraeth gario'r neges ymlaen i'r Cyfarfod Economaidd rhyngwladol yn Fenis ar Fehefin 8fed.

Yng Nghymru mae taith wedi ei threfnu ar draws gwlad o Borthaethwy i

BEIBL WILLIAM MORGAN

I ddathlu pedwarcanmlwyddiant cyhoeddi'r Beibl Cymraeg cyntaf mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cyhoeddi ffacsimili o Feibl yr Esgob William Morgan. Bu ffotograffwyr ac argraffwyr y Llyfrgell wrthi am yn agos i ddwy flynedd yn paratoi'r ffacsimili hwn a daw'r gwaith o'r wasg ar 1 Tachwedd eleni. Yn ôl y Llyfrgellydd:

"Beibl 1588 yw'r llyfr unigol pwysicaf a gyhoeddwyd yn y Gymraeg erioed a braint inni yw cael defnyddio'r technegau diweddaraf er mwyn ei gyflwyno i'r cyhoedd yn ei ffurf wreiddiol."

Pum cant o gopiau'n unig a argraffwyd o'r gyfrol hardd hon o 1100 o dudalennau ac mae'n sicri y bydd yn drysor i gasglwyr llyfrau.

£60 fydd y pris cyn ei gyhoeddi a £70 wedyn, ond hyd nes y cyhoeddir y Beibl ar 1 Tachwedd bydd y Llyfrgell yn cynnig telerau talu ymlaen llaw yn fisol.



gysylltu â'r brif daith yn Abertawe. Bydd hyn yn rhoi cyfle i bobl Cymru gefnogi amcanion y daith a dangos eu pryder ynghylch newyn yn y byd.

BETH ALLECH CHI EI WNEUD

Nid ydym yn disgwyl i neb gerdded yr holl ffordd. Yr hyn sydd ei angen yw cefnogaeth cyn gymaint o bobl ag sydd bosibl i gerdded mor bell ag y gallant (boed hynny'n 20 milltir neu'n 100 llath) neu i sefyll ar hyd llwybr y daith i groesawu'r daith yn eu bro. Y mae'n bwysig cael cyn gymaint â phosibl o bobl i ARWYDDO'R DATGANIAD.

Y mae'n bwysig cael grŵp contact ymhob man-aros i helpu trefnu cyfarfod cyhoeddus a threfnu cefnogaeth gan swyddogion lleol (cynghorwyr, A.S., arweinyddion crefyddol, ayyb), bwyd a chysgod ar gyfer cerddedwyr hirdaith. Os oes diddordeb gennych mewn bod yn gysylltydd neu gysylltu â threfnwyr lleol yn eich ardal chi, neu gael pobl i arwyddo'r datganiad neu am gael rhagor o wybodaeth, os gwelwch yn dda cysylltwch cyn gynted ag sy'n bosibl, â Chanolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol, CPGC Y Santes Fair, Bangor.

Sylwch ar ein cyfeiriad newydd . . .

**J M JONES
A'I FEIBION**

**GWAITH CERRIG BEDDAU
Y SGWÂR, LLANRUG**

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol,
Cerrig o bob math ar gael.

**Ffôn: Caernarfon 2898 (dydd)
Y Felinheli 670124 (nos)**

THEATR BARA CAWS

yn cyflwyno

"PAWB ISIO BYW"

yn Neuadd Ysgol Brynrefail
nos Fercher, Ebrill 8
am 7.30 o'r gloch

Oedolion £1.50

Plant a phensiynwyr 75c

Trefnwyr – Cangen Plaid Cymru, Llanrug

ECO'R IFANC

Ysgol Waunfawr,
Waunfawr.

Annwyl Olygydd,

Yr ydym ni, plant Safon 4 Ysgol Waunfawr wedi bod yn ysgrifennu barddoniaeth yn ystod y misoedd diwethaf.

Yr ydym wedi bod yn ysgrifennu barddoniaeth am bob math o bethau, er enghraifft — i'r Riced, Gêm Snwcer, Y Cae Pêl-Droed, Deilen ac i'r Ystafell Ddosbarth a llawer o bethau eraill.

Buasem yn gwerthfawrogi ac wrth ein boddau pe baech chi yn gallu eu printio yn Eco'r Wyddfa y mis yma. Os ydych eisiau llun ohonom galleu drefnu hynny.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau rhai o'n cerddi ni.

Yn gywir iawn,
Rachel Davies
(ar ran Safon 4)

Cefnogwch Ein Hysbysebwy

Y Plusman

Yn mynd ar y stryd
yn dawel dawel,
Gwyllo, ac aros
fel tylluan yn y nos.
Gwibio —
saethu ar ôl y cafalier brown.
Golau'n fflachio,
troi fel top.
Di-da, di-da, di-da, di-da, di-da,
Agor y drws.
Rhedeg.
"Arhoswch, Arhoswch"
Ar ei ôl,
ar ei ôl.
Clic — gefynnau'n cau.
Wedi ei ddal o'r diwedd.

Manon Jones

Y Cae Pêl-droed

Chwythodd y bib,
cicio'r bêl.
Edrych,
rhedeg,
pasio,
pasio.
O! methu â'i phasio i'r gôl-geidwad.
"Fan yma, fan yma."
Rwyf yn rhydd.
Rhedeg efo'r bêl —
carlamu lawr y cae
fel melltlen las.
Penio —
Mae'r bêl yn y rhwyd.
Gôl. Gôl. Gôl. GÔL.

Meilir Gwynedd

Gwneud yr athro
Distawwydd, ond gwrch
ambell gadair a chragu pensiliau'r
plant.

Gwneud arall,

Pawb yn chwsg eisiau i'r gloch
amser chwarae fynd.
Yr amser yn mynd yn araf, araf.

Br Br Br y ffôn.
Gwibiodd yn athro allan i ateti
y ffôn.

Ding, Dong, Diolch byth.

Elin Gwilym

Ystafell
Ddosbarth

**YN EISIAU
PERSON BRWDFRYDIG I FOD
YN GYFRIFOL AM "ECO'R
IFANC"**
Cysyllter â'r golygyddion

RHEW

Rheir ar yr awllt fawr
fel carped

yn sgleirio yn yr haul
Gwair yn sefyll fel milwr gwngna gwngda
yn llonydd ac yn syth fel procor.
Cerdde

ar gae o greision -
crysh crysh crysh
Lapion gynnes fel nioryn
welingtons,
merig lliwgar
a dda bâr o drowsis
Y tywydd oer fel cath
yn cripiar fy wynneb
Rhedeg fel melltlen i' ysgol-
i gadu'n gynnes!

Taime

Methu codi

o'r gwely yn y bore.
Breuddwydio o dan
y dillad yn gynnes
fel potol diwr poeth.
Fy nhraed fel blociau o reu
yn yr ystafell oer.

Distawwydd fel y bedd
Sôn ambell gar yn tagu
Y ddacat yn galed fel concret
afon wedi rheu fel cylch reu.
Coed yn sefyll yn stond fel potai rhw
wedi cael sioc drydanol, brigau fel
pensiliau gwyn. Drysau a'r ffenestri
wedi rheu'n gorn, Methu mynd allan.
Cerdde yn araf i lawr y grisiau
a swctio wrth y tân eirias i
gadu'n gynnes.

Rachel Davies

**SIMNEIAU GWael? CRACIAU?
MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?**

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376

SIBRYDION O YSGOL BRYNREFAIL



Lois, Iola, Delyth, Tammi a Ceryl — a fu'n canu carolau dros Wyl y Nadolig i gasglu arian at y Sganiwr. Gweler adroddiad isod.

YMWELD Â'R THEATR: Nos Fawrth, 3ydd o Fawrth aeth criw o ddisgyblion sy'n astudio Ffrangeg i'r theatr yn Salford ger Manceinion i weld drama Ffrangeg. Bore Gwener, 6ed o Fawrth, aeth dau fws i weld drama 'Gymerwch Chi Sigaret' gan Saunders Lewis yn cael ei chyflwyno gan Gwmni Theatr Gwynedd yn y theatr ym Mangor a Nos Lun, 16 o Fawrth aeth bws i'r Theatr Fach, Llangefni i weld drama 'Hywel A'. Mwynhaodd pawb eu hunain yn y perfformiadau.

YR URDD: Cafwyd dwy noson ddifur iawn unwaith eto y mis yma gan adran yr Urdd. Nos Fawrth, Chwefror 24ain, daeth Jen Williams i ddangos fideo ar wersyll Glanllyn a Mawrth 10fed, cafwyd sgwrs a sleidiau gan Mr Huw J Hughes ar y 'Pili Palas'.

EISTEDDFOD YR URDD: Cynhaliwyd Eisteddfod y Sir dydd Sadwrn, 14eg o Fawrth yn Ysgol Brynrefail. Daeth Ffion John Williams yn gyntaf yn y gystadleuaeth unawd dan 15 oed, a bydd yn mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Merthyr Tydfil ym mis Mai. Daeth hefyd yn ail yn yr Unawd Cerdd Dant. Daeth Dylan Williams yn gyntaf ac Iwan Williams yn ail yn y gystadleuaeth Unawd Prës, felly bydd Dylan yn mynd i Ferthyr hefyd. Iwan a ddaeth yn gyntaf yn yr Eisteddfod Cylch a Dylan yn ail yn y gystadleuaeth yma. Pob lwc i Ffion a Dylan ym mis Mai.

YMWELIAD Â THŶ'R CYFFREDIN: Dydd Iau, 12fed o

Fawrth, aeth pedwar o ddisgyblion o'r ysgol, sef Rheon Larsen, Dafydd Jones, Dyfrig Lewis ac Angharad Price ynghyd â disgyblion eraill o ysgolion y wlad i Lundain lle y cawsant gyfle i ymweld â Thŷ'r Cyffredin, ac yna cael y cyfle i ofyn cwestiynau i bedwar Aelod Seneddol ar gyfer y rhaglen, "Meet for Lunch" gan Vincent Kane. Cawsant ddiwrnod difyr iawn.

Y BANC TSB: Prynhawn Mercher, 4ydd o Fawrth, daeth dau gynrychiolydd o'r Banc TSB i'r ysgol i ddangos ffilmiau a chael sgwrs gyda disgyblion y chweched dosbarth ar sut i ddefnyddio cyfrif banc. Cafwyd sgwrs ddifur iawn a bydd yn sicr o fudd yn y dyfodol.

ADDYSG IECHYD: Bore Iau, 26ain o Chwefror, daeth y Nyrs Ceri Pierce i'r ysgol i drafod Addysg Iechyd gyda disgyblion y chweched dosbarth. Ymdriniodd yn fwyaf arbennig â'r clefyd 'Aids'.

APÊL Y SGANIWR: Bore Iau, Chwefror 26ain, daeth Dr Jim Davies, Cadeirydd Pwyllgor Apêl y Sganiwr i'r Gwasanaeth Boreol i dderbyn sicr o £100 gan aelodau o'r pedwerydd dosbarth. Fe godwyd yr arian ganddynt drwy drefnu disgo i'r pedwerydd a'r pumed dosbarth. Cyflwynwyd sicr o £22.50 i Dr Davies hefyd gan chwech o enethod o'r flwyddyn gyntaf a fu'n canu carolau dros Wyl y Nadolig. Y mae'r ysgol wedi cyfrannu £522.50 tuag at Gronfa Apêl y Sganiwr hyd yn hyn.

PENCAMPWYR PÊL-DROED YSGOLION SUL ARFON



CAPEL MAWR: Yn ystod y gwasanaeth yng Nghapel Mawr fore Sul, Mawrth 1af, llonyfarchodd y gweinidog y Parch John Morris grŵp o fechgyn ifanc yr Ysgol Sul a fu'n llwyddiannus yn ennill tlws Cyngor Ysgolion Sul Cymru, Dosbarth Arfon, am chwarae pêl-droed o dan un-ar-ddeg oed. Y bechgyn oedd Huw Owen, Iwan Rhys Parry, Kenny Griffith, Aled Roberts, Mathew Williams a Gwyn Jones.



BARDDONIAETH BLWYDDYN 2

Y Gêm

Gweiddi, sgrechian
ar y cae.
Y bib yn mynd,
Llanrug wedi ennill 2-0.
Mynd i ymolchi
yn yr ystafell newid.
Y tim arall yn edrych yn gas.
Yn yr ystafell newid
pawb yn teimlo'n swil.
Dŵr yn oer fel
yn y North Pôl.
O! am dawelwch,
ar ôl i bawb fynd.
Dim sgrechian na gweiddi,
na neb yn crio.
Athrawes yn dweud
"O! am gêm dda."
Caernarfon fory
Ennill 10-0 i Llanrug.

Tracy Jordan (BI 2)

BATH

Dydd Sul wedi cyrraedd eto
Gorffod mynd i'r bath,
Dŵr berwedig yn dod o'r tap,
"Bubbles" mawr yn llenwi'r ystafell,
Fel pobl yn mynd i fewn i'r gofod.

Dydd Sul wedi cyrraedd eto
Gorffod mynd i'r bath,
Fy hwyaden fach felyn yn
arnofio yn swil.
Y ddwy droed i fewn a
nofio yn y bath.

Judith Jones 2A2

Yn Derbyn Slaes Cansen fel Cosb
Teimlais yn siomedig wrth
Gael ffræ gan y prifathro.
wedyn teimlais y wialen fedw,
yn llosgi,
un ergyd ar ôl y llall.
Eisteddais yn y gadair
gan edifaru am
dorri ffenestr yr ysgol.
Ac ar ôl y digwyddiad
ysgrifennais mewn poen,
gan wneud y llinellau
hir, diflas.

David Henry Evans 2P

**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

DAI YN ARWR YM MRYNREFAIL


Cyflwynwyd i *Bedwyr Evans*



am gymryd rhan yn
apêl Sefydliad Cenedlaethol
Brenhinol y Bad Achub.
(Ras Ysgolion Cymru)



Llofnod *Dai Davies*



Ar y 27ain o Chwefror fe noddwyd nifer o ddisgyblion dosbarthiadau 1, 2 a 3 Ysgol Brynrefail mewn ymgyrch i godi arian drwy redeg ugain gwaith o gwmpas y trac athletau. Aiff 40% o'r arian a gesglir i gronfa'r Ysgol, a'r gweddill i'r RNLI tuag at gynnal y badau achub.

Dai Davies, cyn-gôlgeidwad Cymru, Everton, Abertawe, Wrecsam a Bangor sy'n hybu'r ymgyrch ac fe ymunodd â'r plant drwy gyd-redeg â hwy. Yna fe dynnwyd ei lun â phob un o'r plant yn unigol, a chyflwyno

tystysgrif iddo i gofio'r achlysur. Bu hefyd yn sgwrsio â hwy, gan roi cyfle iddynt ei holi ynglŷn â'i yrfa fel pêl-droediwr proffesiynol.

DAWNSIO GWERIN

Parti Dawnsio Gwerin Adran yr Urdd, Penisarwaun a fu'n fuddugol yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Pob dymuniad da iddynt yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor ddydd Sadwrn.

MELINAU Y CRAWIA gan Meurig Owen, Llundain

RHAN 2



Un llun sydd gennyf o'r melinau yng nghyfnod eu prysurdeb, llun y felin isaf, melin ddwbl gyda dau olwyn ddwr. Daw'r llun o'r llyfr *Rural Welsh Parishes* — Llanrug gan y Parch Hugh Williams, Curad y plwyf ar y pryd. Llyfr yn adrodd hanes adfer Eglwys San Mihangel yw, mae ynddo rai darluniau diddorol o'r pentref ac Ysgol Glanmoelyn, ei dyddiad yw Ionawr 1907. Yr ysgrifen o dan y llun yw *Crawia Writing Slate Mill*. Gwelwch fod dwy felin a dau olwyn, adeiladau'r *Crawia a'r New Crawia Works* debyg. Efallai mai cwmni J Jones a'i Fab oedd yn gweithio'r ddwy felin pan dynwyd y llun, dyna oedd y sefyllfa yn y blynyddoedd a gofias.

Prynodd Cwmni'r Rheilffordd dir gan Rice Thomas, Coed Alun gan gynnwys y cyfran o Bontrhythallt i'r Crawia a thir yn y dref pan estynwyd y cledrau drwy'r dref i orsaf y L & NWR yn 1870. Hyd yn hyn ni welais unrhyw ddogfen yn sôn am y melinau na disgrifiad o'r tir wrth eu hochrau. Efallai fod gan rhywun wybodaeth am y leinau a'i perchenogion fuasai o ddiddordeb ac yn llenwi bylchau yn yr hanes.

Ond i droi at felinau Thomas Jones fel y cofias fi hwy. Safai'r felin uchaf ar ochr ddeheuol rheilffordd y Chwarel rhyw chwarter milltir o'r Pandy. Gyferbyn, ar ochr ogleddol y rheilffordd yr oedd lliidiart a ffordd drol trwy'r cae i ffordd y Glasgoed. Arweinai llwybr o'r Pandy gyda'r rheilffordd at gefn y felin, lle yr oedd lliidiart i'r rheilffordd a heibio'r talcen. Adeilad bychan unllawr oedd gyda'r olwyn ar y talcen ddeheuol. Deuai'r dŵr i droi'r olwyn o Lyn John Owen, y llyn uchaf gyferbyn â thir Cefn Rhythallt, lle yr oedd criw ar draws yr afon i gronni'r dŵr. Rhedai'r ffrwd am tua 270 o lathenni gan fyned o dan rheilffordd Caernarfon-Llanberis at letraws

mewn cylfert. Ni chofias fod cafn yno, yn ôl pob tebyg yr oedd fflodiart i reoli'r dŵr a chredaf mai olwyn *breastshot* oedd gyda'r dŵr yn taro'r olwyn rhwng yr echel a'i ben. Yr oedd drws mawr ym mur blaen y felin, ni chredaf fod ffenestr yno, un ystafell yn unig gyda bwrdd llifio. Cychwynai llwybr o ddrws y felin tua'r felin ganol, gyda'r domen yr ochr arall i'r llwybr, yr oedd tomen hŷn y tu ôl i'r adeilad. Rhedai pwt o seidin o reilffordd y Chwarel i gyfeiriad y domen gyda chroesi droi car iddo. Safai signal wrth ymyl lliidiart y llwybr a weithiai pan ddefnyddid y groes. Ni welais glytiau na dim arall yn dod gyda run y Chwarel i'r felin, rhaid y defnyddid wageni arbennig i'r pwrpas gan na ellid dadlwytho unrhyw wagen oddi ar gar mawr, yma nag yn y felin isaf, yn hwylus iawn gan nad oedd platform llwytho yma fel yn y Gilfach Ddu. Rhaid y defnyddid wageni arbennig, rhai agored ar ffram car mawr y gellid ei dadlwytho yn y seidin, gan gario'r clytiau i'r felin. Un dyn yn unig a gofias yn gweithio yno. Arferai roddi'r clytiau i sefyll ar eu pennau yn erbyn y mur oddi mewn i'r

adeilad yn agos i'r bwrdd llifio cyn eu trin a'u hollti. Erbyn 1973 ychydig o waliau'r felin oedd ar ôl, tipyn o'r talcen a thyfiant mawr o goed a llwyni o amgylch ac yn nhwll yr olwyn ddwr. Yr unig olion o'r olwyn oedd pren mawr yr echel a dau gylch haearn arno.

Fel y soniais, rhedai llwybr o'r felin uchaf i'r felin ganol gyda chledrffordd fach, dwy droedfedd rhwng y felin. Safai'r felin ganol, oedd yn adeilad go helaeth ar ddau lawr rhyw 60 llath i'r De ar ochr rheilffordd Caernarfon-Llanberis, gyferbyn â'r rhaeadr yn yr afon; gydag olwyn ddwr mwy o faint nag yn y felin uchaf ar y talcen ar ochr y rheilffordd. Rhedai'r dŵr a fu'n troi y felin uchaf i droi yr olwyn yma hefyd. Cofias fod mwy o ôl saerniaeth ar dwll yr olwyn ac yr oedd pwt o gafn i gario dŵr i'w droi. Credaf mai olwyn *breastshot* oedd hwn hefyd. Rhwng y ddwy felin croesai dwy ffrwd, un mewn cafn. Deuai'r dŵr o olwyn y felin uchaf a chroesid hon hefyd mewn cylfert o dan y rheilffordd. Efallai y gellid troi dŵr o Lyn Garreg Fawr at ddefnydd y felin ganol os oedd angen. Credaf y cariai'r cafn ddwr o Lyn Garreg Fawr dros y ffrwd o'r felin uchaf oherwydd wedi i'r melinau gau, torrwyd y cafn a throwyd y ffrwd a'r canlyniad i'r gweddill o'r afon, gyda lein y Chwarel i'r felin isaf sychu. Bu rhai ohonom, pan yn hogiau ysgol, yn cerdded gwely'r afon gan ddal pysgod yn y pyllau oedd ar ôl.

Beth bynnag oedd y sefyllfa, yr oedd cyflenwad o ddwr i droi y felin ganol a rhedai'r dŵr o'r olwyn eto mewn cylfert o dan y rheilffordd gydag agoriad mawr sgwâr yn y mur wrth y Rhaeadr. Heblaw y felin ei hun safai adeilad bach wrth ei hochr ogleddol gyda lle tân a phentan bob ochr. Defnyddid ef, mi gredaf fel caban.

Gorffenid y llechi ysgrifennu yn y felin ganol, yma gwnaed y ffram ac yr oedd yma beiriant i ddal y llechen a'r ffram yn sgwâr a thyn a chlensid yr hoelion wrth eu cyro. Bu Emrys fy mrawd a rhai o'r bechgyn hŷn yn cael y fraint o guro'r hoelion i gwblhau'r fframiau. Un gorchwyl oedd ar ôl, llosgi llun yr Union Jack ac enw'r cwmni arni. A dyna hi gyda chanoedd eraill yn barod i'w gosod yn un o'r bocsus a wnaed yn y felin isaf ar gyfer eu llwytho i un o wageni'r L & NWR oedd wedi paratoi seidin at ochr y felin, gyda lliidiart ar ei thraws pan nas defnyddid hi. Enw swyddogol

Cwmni'r Rheilffordd arni oedd *Jones's siding*, clywais yr enw droeon pan yng ngorsaf Pontrhythallt yn edmygu'r *goods* cyn sylweddoli mae at Felin ganol Thomas Jones y cyfeirid.

Bron wrth ochr lliidiart y L & NWR a'r tu arall i wal derfyn y cwmni, yr oedd lliidiart ar draws y dramffordd bach a redai i'r felin isaf, pellter o tua chwarter milltir. Yr oedd tipyn o rediad a buasai wagen wag ar ôl tipyn o berswad yn rhedeg ohoni ei hun ar y cledrau. Pe bai'r wagen o gwmpas ar ddiwrnod nad oedd neb yn gweithio yn y melinau a'r ffordd yn glir i'w chael ar y cledrau rhwng y felin uchaf a'r ganol, yna hei lwc a reid. Ambell dro byddai siawns am reid i gyfeiriad y felin isaf ond gofalem beidio mynd yn rhy agos i'r felin honno gan yr ofnem i Thomas John, mab Thomas Jones ein gweld. Credem yn amlwg fod ganddo lygaid barcud i'n gweld o'r tŷ yn y Crawia. Cerddasom lawr ar hyd yn hen gledrffordd. Tir gwyllt oedd rhyngddi ac afon y felin isaf ond lle da am gnau a ffyn ac yr oedd yno hefyd goeden afalau surion y bum yn ei changhennau lawer tro.

Gydag ochr rheilffordd y chwarel rhedai afon y felin isaf gyda chafn pren uchel y gallem gerdded odano ar ben y daith. Cynhwysai y felin hon adeiladau dau lawr, safai un adeilad bron wrth dalcen y llall gyda dau olwyn ddwr tua'r un faint, ugain troedfedd efallai, i droi'r peiriannau yn y ddau adeilad. Olwynion *breastshot* oeddynt gyda'r dŵr yn dod o'r cafnau ac wedi troi'r olwynion rhedai o dan reilffordd Caernarfon-Llanberis yn ôl i'r afon tua phen Llyn y Crawia. Lliffid coed yma a thrinid cerrig ysgrifennu yng nghyfnod y ddau gwmni. Gwn y bu Josiah Jones yn gwneud cerrig beddau yma felly rhaid fod ganddynt fyrddau llifio, plaenio a llyfnhau. Dengys y llun gryn brysurdeb, eistedda'r dynion ar domen go helaeth o fawr mân sydd yn awgrymu tipyn o weithio cerrig. Gwelwch y ddau olwyn ddwr. Erys y cwestiwn, faint o weithwyr oedd yma? Ai gweithwyr yr holl felinau sydd yn y darlun? Gwelir y rheilffordd i Lanberis a'r man croesi i'r Garw ac at y felin yno, ond nid oedd seidin yma. Rhedai rheilffordd y Chwarel yr ochr arall i'r Gogledd i'r melinau gyda seidin helaethach nag yn y felin uchaf ond heb signal os cofias yn iawn. Deuai'r cerrig o'r chwarel ac efallai goed a nwyddau eraill. Dilynai ffordd y Glasgoed gwr y rheilffordd yn agos a chyfleus i'r melinau.

Bu cryn brysurdeb am gyfnod go faith ond erbyn y dauddegau darfu'r galw am lechi ysgrifennu a daeth tymor melinau Thomas Jones fel y lleill i ben. Distawodd yr olwynion, adfeiliodd yr adeiladau ond erys y felin isaf a addaswyd yn dŷ annedd i'n hadgoffa o'r gogoniant a fu. Dylasem geisio cofnodi'r hanes. Yn y nodiadau blêr hyn dibynnaf ar wybodaeth gan fy mrawd Emrys, fy nghof innau, a llawer o ddychymyg. Pe cawn gyfle i ymweld â'r safleoedd a mesur yr adfeilion efallai y newidiwn gryn dipyn ar yr hanes. Buaswn yn ddiolchgar am gael unrhyw wybodaeth bellach. Hoffwn weld eraill o'r ardal yn ychwanegu at, neu gywiro'r nodiadau: cychwyn yn unig yw'r rhain goebithio.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

OSMOND SHAW DEINIOLLEN

Gwerthu
a thrwsio
Teledu Lliw
Newydd ac Fel
Newydd
GWASANAETH
ATEB
FFÔN 24 AWR
LLANBERIS 870545

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir

Y MYNYDD MENYN: Erbyn hyn mae pensiynwyr yr ardal, a hefyd Nant Peris, wedi derbyn eu cyfraniad o'r 'Mynydd Menyn', ac mae eu gwerthfawrogiad yn fawr iawn. Hefyd mae eu diolch i'r cyfeillion hynny fu'n trefnu'r cyfan ac yn dosbarthu'r menynd o ddrws i ddrws, sef Mrs Marian Roberts, Bryn Menyn, Cynrychiolydd y W.R.V.S. a threfnydd y 'Prydau Parod', a Mr Kenneth Jones, Blaen y Ddôl a'i gyfeillion a fu'n dosbarthu'r menynd. Os oes yna unrhyw bensiynwr sydd heb dderbyn y rhodd yma, bydd peth i'w gael gan Mr Kenneth Jones.

BINGO: Cynhaliwyd Bingo yng Ngwesty Gwynedd nos Wener, Chwefror 20. Yr oedd yr elw yn mynd at dîm pêl-droed y bechgyn iau. Dymuna Mr Thomas John Roberts ddiolch i'r genod a Mr W Roberts (Wil Korea) am helpu i drefnu'r noson, hefyd i'r mamau i gyd am eu haelioni tuag at y gwobrau. Diolch yn fawr i bawb.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i'r rhai canlynol sydd yn yr ysbyty, neu wedi dychwelyd adref: Mrs Bessie Pritchard, Stryd Fawr; Pat Pitts, 53 Dol Elidir; Sian Griffiths, 52 Dol Elidir; Gareth Morris, Ffordd Capel Coch; Mr Huw Jones, Maes Padarn; Miss Marian Davies, 5 Rhes York; Mr Wil Roberts, Ffordd Capel Coch; Mrs Enid Roberts, Maes Padarn; merch fach Meira a Dafydd Price, Cabs Padarn; Kenny Lee, mab bach Iorwen a Dewi, 1 Glandwr Flat; Steven Roberts, Dol Elidir.

CYDYMDEIMLO: Ein cydymdeimlad dwysaf â'r rhai canlynol yn eu profedigaeth:

Len, Dennis, Rita, Alwena a Ceinlys ar golli eu mam, sef Mrs M Jones, Dol Eilian; Eunice Jones, Paul a Judith ar golli priod a thad, sef Mr David Jones, Dakota, hefyd Mrs Dilys Roberts, ar golli mab yng nghyfraith a Mrs Alwena Roberts, Idan House ar golli ei brawd, hefyd ei fam a'r teulu oll yn Neiniolen; Nyrs Glenys Parry ar golli ei mam, sef Mrs Parry, Stryd Ceunant a oedd yn 95 mlwydd oed; Mr Alan Roberts a'r teulu ar golli ei fam, sef Mrs Gwyneth Roberts, Stryd Newton. Nid oes ond rhai misoedd yn ôl pan oeddym yn cydymdeimlo ag ef ar golli ei dad; Mrs Jean Jones, Rhes Victoria, ar golli ei mam.

PRIODI: Llongyfarchiadau i Peter Hughes, mab Mr a Mrs D Hughes, Tan Pant ar achlysur ei briodas ar Chwefror 12 yn Llangefni.

Mr Adrian Williams, mab Mr a Mrs Dennis Williams, Stryd Fawr ar achlysur ei briodas ar Fawrth 14 ym Methesda.

Mr Peter Jones, Coed y Glyn ar achlysur ei briodas ar Fawrth 14 yn Eglwys Sant Padarn.

Mr Robin Davies, mab Mr a Mrs H Ll Davies, Hafod Lydan a Jennifer Ellen, Nant Peris ar achlysur eu priodas yn Eglwys Sant Peris ar Chwefror 21.

DIOLCH: Dymuna Miss Gwyneth Williams, Bron-y-Graig, gynt o Woodley, ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed.

DYMUNIADAU DA i Mrs Jones, Maes Padarn yn ei chartref newydd yn Llanrug.

YMDDEOL O'R FRIGÂD DÂN: Ar ddiwedd y mis hwn mae Mr Dafydd Price, Cabs Padarn, yn ymddeol o'r Frigâd Dân. Ymunodd Dafydd â'r mudiad 14 blynedd yn ôl, ac wedi gweithio ei hun i fyny, canys ef oedd y Prif Swyddog yn Llanberis. Dymunwn yn dda iddo ac efallai erbyn y rhifyn nesaf o'r Eco y cawn fwy o fanylion ac ambell lun.



CROESO: Mr Cynrig Hughes a benodwyd yn brifathro Ysgol Dolbadarn, Llanberis. Mae ar hyn o bryd yn brifathro Ysgol Rhostryfan. Bydd yn dechrau ar ei swydd yn dilyn gwyliau'r Pasg. Gobeithio y bydd yn setlo i lawr yn fuan yn ein plith wrth droed yr Wyddfa.

TEYRNGED I MRS BEATRICE Alice Parry (yn enedigol o Bagillt, Clwyd). Gweddwr Mr. Charles Robert Parry. Daeth Mrs Parry i Lanberis dydd Llun Diolchgarwch, 1919 fel nyrs ardal yn dilyn cynnod dyletswyddau nyrsio yn yr ysbyty a elwid Ysbyty Rhyfel, Caer, lle gofodd am filwyr a anafwyd yn y Rhyfel Cyntaf. Un o'r milwyr yn yr ysbyty uchod yr adeg honno oedd Tommy Williams, Cadfan House. Cafodd Mrs Parry yr anrhydedd o nyrsio Mr Williams yn ei gartref yn Llanberis.

Arhosodd am amser byr gyda'r teulu Rowlands yn y "Bee Hive", ac wedyn symud i aros gyda Mr a'r diweddar Mrs Michael Pritchard, Glanfa, Ffordd Capel Coch. Yn y flwyddyn 1921 symudodd i Drefor, Llŷn fel nyrs plwyf yno. Ei gyrfa nesaf oedd yn y Waunfawr am bum mlynedd.

Yn 1926 priododd a chartrefu yn 18 Ceunant Street, un o'r tai a ymwelodd â hwy pan ddechreuodd yn Llanberis fel nyrs ardal. Yn ei gyrfa derbyniodd lawer o dystysgrifau a llythyrau o werthfawrogiad am ei gofal â'i defosiwn o'i gwasanaeth.

Mae'r golled yn fawr i'w merch Glenys, perthnasau, cymdogion a llu o'i ffrindiau.

BREHNINES Y CARNIFAL: Dydd Gwener, Mawrth 6ed cafwyd Disgo yn Ysgol Dolbadarn i ddewis Brenhines y Carnifal am 1887. Dyma'r canlyniadau: Brenhines: Jacinta Kisalu, 55 Dol Elidir;

Morwynion: Lliwen Huws, 1 Stryd Tomos a Sarah Birch, Victoria Cottage, Gwesty Victoria.

Gwas y Goron: Alun Vaughan, Stryd Yankee.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

MAROLAETH: Ddydd Sul, Chwefror 22ain, daeth y newydd am farwolaeth Miss Laura Annie Hughes, Bethesda. Er iddi adael y pentref, nifer o flynyddoedd yn ôl bellach, yma yr oedd ei chalon - y pentref, ei bobl a'i bethau oedd ei diddordeb, a phrif destun ei sgwrs bob amser oedd Brynrefail a'i gymeriadau ym mlynnyddoedd cynnar ei bywyd. Ganwyd hi yng Ngreuer Villa bron i ddeg a phedwar ugain o flynyddoedd yn ôl. Fe gofia'r mwyafrif ohonom amdani yn trigo yn Isfryn, yn wraig gymdogol a diddan, ymdrechgar a diwyd yn ei gwaith. Ond yn fwyaf arbennig, mae'n debyg mai'r darlun a erys fwyaf yn y cof yw hwnnw fel yr athrawes Ysgol Sul gyntaf iddegau o blant y pentref, a hynny am flynyddoedd maith. Roedd ei ffyddlondeb i Eglwys Brynrefail yn un i'w edmygu a hyfrydwch i bawb ohonom ac anrhydedd iddi hithau oedd yr achlysur ym Mai 1984 pan dderbyniodd Fedal Thomas Gee am ei ffyddlondeb i'r Ysgol Sul. Bu ei harwyl yng Nghapel Gerlan, Bethesda, a chladdwyd hi ym mynwent Coetmor. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i chwaer Mrs Eluned Roberts a fu'n ofalus iawn ohoni yn

ystod ei blynnyddoedd olaf a'i chyfnithr Mrs Maggie Closs Parry, Greuer Villa a gyd-fagwyd â hi ym Brynrefail.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Dathlwyd Gŵyl Ddewi gyda swper ym Mhlas Menai, nos Lun, Mawrth 2il pryd yr ymunodd aelodau o Glwb y Mamau i fwynhau'r arlwy. Trefnwyd y noson gan Mrs Rhian Jones a diolchwyd iddi gan y llywydd, Mrs Pat Jones. Rhoddwyd y wobwr raffl hefyd gan y llywydd ac fe'i henillwyd gan Mrs Ann Parry. Cynhelir cyfarfod mis Ebrill o'r gangen nos Lun, Ebrill 6ed oherwydd fod Gŵyl y Pasg yn disgyn ar y dyddiad arferol ac estynir gwahoddiad i'r aelodau i ymuno â changen Llanberis nos Iau, Mai 28ain.

CYDYMDEIMLAD: Syndod oedd deall am farwolaeth Mr Luois Esposito, Llwynceilyn, tra'n derbyn archwiliad meddygol mewn ysbyty yng Nghaerdydd. Er mai yn gymharol ddiweddar y daeth ef a'i briod i fyw i'r pentref, mewn byr amser cydnabyddid ef fel cymieriad annwyl a chymwynasgar ymhlith ei gymdogion. Cydymdeimlwn â'i briod Mrs Mary Esposito a'r teulu oll yn eu profiedigaeth.

YR HEN YSGOL FABANOD: Daeth y darlun hwn i law, o ddisgyblion yr Ysgol a'u athrawesau yn 1922, trwy garedigrwydd Mrs Blodwen Hughes, 12 Trem Eilian. Tybed a all unrhyw un roi gwybodaeth pwy yw'r rhai nas enwyd?



Athrawon: (Chwith) Miss Jones, Bethel. (Dde) Miss Jones, Pant-tŷ-Gwyn, Bethel.

Rhes gefn o'r chwith i'r dde: Gwyneth (Titw Menai); ? ; Griff Bevan Lewis; Nesta Lewis; Willie Meirion Roberts; ? ; William Andreas Jones; William Arthur Pritchard; Emllyn (Bryn Llwyd). Rhes ganol o'r chwith i'r dde: ? ; ? ; Arfon (Dinorwig House); Owen Jeffrey Williams; Dennis Hughes (Goat); ? ; Nesta neu Nora (Fachwen); Annie May Price (Penclogwyn); Gwyneth Bellis; ? . Rhes flaen o'r chwith i'r dde: Clifford Allan Jones; Robert Kenneth Jones; Ceridwen (Fachwen); Blodwen Williams; Jennie Arfon Williams; Nora neu Nesta (Fachwen); ? ; Violet a Lillian Roberts.

DRAENOG

Mae rhai gwŷr yn mynd i eithafion i gael llonydd rhag eu gwragedd. Beth am y gwŷr o Lanrug a oedd yn helpu ei wraig i dacluso'r siambar? Roedd

angen help llaw ar y wraig i ddod i lawr o'r siambar - gan nad oedd yn rhy hoff o uchder, ond roedd y gwŷr wedi diflannu. Clywed fod angen NYRS arno pan gofiodd o'r diwedd ble'r oedd y wraig.



CRIB COCH

Y SGWÂR, LLANRUG
Ffôn Caernarfon 76772
TRIN GWALLT I BAWB
O'R TEULU GAN JEN

Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr)

CLWB GWYRFAI: Cyfarfu'r aelodau bnawn Iau, Chwefror 19 er gwaethaf yr eira. Mrs Morgan Jones yn llywyddu a Mrs Jones, Goleufryn yn trafod trefniadau cynorthwyo'r henoed drwy drefniant y Cyngor Plwyf. Croesawyd yn galonnog Miss Gladys Lewis, hefyd Mrs G Griffith, Is Elen sydd wedi dod i fyw i'r ardal. Anfonwyd cofion at Mrs M A Owen sydd yn yr ysbyty a dymunwyd iddi adferiad buan, hefyd Mrs Pritchard, sydd yn y De gyda'r ferch ac yn gwella. Chwith hefyd colli cwmni Mrs Williams, Dwyfor, nad yw yn ei hwyliau gorau y dyddiau hyn. Mrs Evan Hughes fu'n garedig yn rhoi anrheg arbennig a Mrs Southworth fu yn lwcus yn ennill.

Mrs M Vaughan Jones fu yn garedig iawn yn sôn am ei hymweliad â China ac fe ddangosodd amryw o luniau ardderchog o'r wlad. Mrs Jones, Eryri Wen a ddiolchodd i Mrs Jones. Treuliwyd brynhawn difyr ac addysgiadol iawn. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn yr ysgol ddyddiol i ddathlu Gŵyl Ddewi dan wahoddiad cynnes Mrs Leslie Jones, y prifathro a'r staff ar Sed o Fawrth.

Mawrth Sed, 1987

Treuliodd yr aelodau brynhawn difyr iawn yn yr ysgol dan wahoddiad y prifathro Mr Leslie Jones a'r staff. Cawsom gyngerdd ardderchog ar ôl gwasanaeth crefyddol. Yr oedd y plant ar eu gorau yn canu, dawnio ac actio. Cafwyd eitem gan bob dosbarth a hawdd iawn canfod y cydweithio graenus rhwng pob aelod o'r staff.

Mrs Eames oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r eitemau yn y dechrau, a'r athrawon yn eu tro yn barod gyda chyfraniad eu dosbarth. Dywedodd Mr Jones eu bod wedi ceisio darllenfa er cof annwyl am Mr Owen, yr athro a fu farw yn sydyn llynedd, ac y defnyddir ef bob bore yn y gwasanaeth dechreuol.

Trefnwyd gwledd cyn mynd adref a rhieni a phlant y 4ydd dosbarth oedd yn gyfrifol am hyn. Ar ran y Clwb, cyfrifoldeb y Rheithor oedd diolch i'r Prifathro a'r staff, a hefyd staff y gegin a fu'n brysur iawn yn paratoi'r wledd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y Ganolfan dan nawdd aelodau'r Clwb brynhawn Iau, Mawrth 19eg.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cyfarfu Cangen Waunfawr o'r Sefydliad yn Festri Croesywaun gyda Mrs Pat Parry yn llywyddu.

Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Katie Wyn Jones, yr ysgrifenyddes a oedd wedi bod yn yr ysbyty. Y gŵr gwadd i ddathlu Gŵyl Dewi oedd y Parch W R Williams o'r Felinheli. Cawsom hwyl a chwerthin gyda'i storïau am wahanol ddigwyddiadau digrif. Diolchwyd iddo gan Mrs Catherine Jones. Trefnwyd y blodau gan Mrs Mary Davies ac fe'i rhoddwyd wedyn i Mrs Katie Wyn Jones. Enillodd Mrs Peggy Jones y raffl a roddwyd gan Mrs Buddug Rowlands.

CYFARFOD LLWYDDIANNUS: Cynhaliwyd cyfarfod hynod lwyddiannus gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yn y Ganolfan ar brynhawn Sadwrn, Chwefror 28. Doedd dim sedd ar ôl yn y neuadd fawr a chafodd y gynulleidfawr o bentrefywr ynghyd â phobl o'r tu allan i'r ardal gyfle i groesawu Ffred Ffransis o garchar yn dilyn ei ran i geisio sefydlu Corff Datblygu Addysg Gymraeg.

Soniodd Ffred Ffransis am bwysigrwydd gweithredu yn ein hardaloedd ein hunain i gryfhau'r iaith Gymraeg. "Nid pawb sy'n medru teithio i Gaerdydd i brotestio yn erbyn y Swyddfa Gymreig" meddai "ond mae cyfle i ni gyd wneud ein rhan yn ein hardaloedd ein hunain, ac yn aml iawn mae hynny'n gallu bod yn llawer mwy effeithiol."

Apeliodd ar bawb i restru unrhyw

gwynion am ddiffygion cyrff cyhoeddus i warchod yr iaith Gymraeg. Diolchwyd i bobol yr ardal am gefnogi'r cyfarfod ac i fechgyn ifainc y pentre am helpu i symud cadeiriau.

Mae Cymdeithas yr Iaith yn trefnu cyfres o gyfarfodydd drwy Gymru i gyflwyno eu hachos i bawb posib.

MERCHED Y WAWR: Dathlu Gŵyl Ddewi wnaeth y gangen nos Iau, Chwefror 26ain pan gafwyd noson yng nghwmni Margaret, Meira, Alun, Wmffra a Brian. Cafwyd eitemau o ganu ac adrodd a diolchwyd iddynt gan Alma Jones. Roedd yr aelodau wedi paratoi y bwyd a chafwyd gwledd ardderchog. Dymunodd y Llywydd wellhad buan i Mrs Mary Ann Owen, Tref Eilian oedd wedi dod adref o'r ysbyty, aci Mrs Katie Wyn Jones a oedd yn yr ysbyty. Penderfynwyd anfon llythyr i'r Swyddfa Gymreig yn cefnogi'r galw am Ddeddf Iaith Newydd. Dywedodd Mrs Gweneirys Jones fod Ysgol Undydd yn y Ganolfan ar Ebrill 11eg i ddysgu sut i baratoi arddangosfa, os oes unrhyw aelod yn awyddus i fynd dylid rhoi'r enwau i Mrs Jones, Cartrefle. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 26ain, pryd y bydd Mrs Mary Vaughan Jones yn ein diddori gyda sgwrs a sleidiau.

PLAID CYMRU: Cafwyd noson o hwyl addysgiadol yn Ysgol Gynradd Llanrug, Mawrth 11eg pan ddaeth sawl cangen o Blaid Cymru i gystadlu mewn Cwis 'Gwahanol' a drefnwyd gan Dafydd Whiteside Thomas a Gwynhaf Jones, Llanrug.

Yn wahanol i'r arfer, bu'n rhaid i'r cystadleuwyr brynu eu cwestiynau ond caniatwyd ambell bapur am ddim er codi calonnau y rhai mwy crintachlyd yn ein mysg!

Achosodd sawl cwestiwn gryn bendroni, yn enwedig y rhai a oedd yn ymwneud â'r pwnc dyrys yna, daearyddaaeth.

Wedi cwblhau'r papur olaf croesawyd yr atebion gyda chymysgedd o chwerthin ac ochneidio. Afraid dweud fod aelodau'r Waun cystal â neb yn yr ornest. Diolch o galon i Gangen Llanrug am y gwahoddiad i ymuno yn yr hywl.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr enillwyr y Clwb 100 am fis Chwefror:

1. Haydn Jones, Rhandir Mwyn; 2. Jean Jones, Llwyn Onn; 3. Norman Williams, Llidiart Wen.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan iawn at Mrs A Bennett, Llechwedd; Mrs D Williams, Llys Seibiant a Miss Mem Williams, Weirglodd Goch. Hefyd Mrs K W Jones, Bron Eifion sydd yn ysbyty Walton, yn Lerpwl.

ADREF O'R YSBYTY: Croeso adref i Mr Gwilym Hughes, Tref Eilian; Mrs M A Owen, Tref Eilian; Heddu Gwynedd, Nant; Mrs B Hughes, Gwyndy; Llio Mai, Llwyn Onn a Shan Jones, Morawel. Gobeithiwn eu bod yn dal i wella.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Chwefror:

1. £40: Mrs Laura Williams, Tros y Gors; 2. £25: Neil Johnstone, Tŷ Gwyn; 3. £10: Geraint Griffith, 10 Bro Waun.

LLONGYFARCHIADAU: i Don ac Eluned Roberts, Sŵn y Gwynt, ar ddathlu eu Priodas Arian ar Fawrth 3ydd;

I Malcolm Roberts, 9 Bryn Golau, ar ennill gwobrau yn Sioe Crafts gyda'i gŵn. Hefyd i'w rieni, Mr a Mrs R Roberts, ar ddathlu eu Priodas Ruddem;

I Mrs E Jones, Eryri Wen, ar fod yn nain unwaith eto. Ganwyd merch, Eleri Ann i Ifor ac Ann;

I Mrs A B Pritchard, 4 Tref Eilian, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 80 ar Chwefror 21;

I Mrs S Jones Evans, Pennant, ar gyrraedd ei phen-blwydd hithau yn 80 oed ar Fawrth 16.;

I Mr a Mrs Evan J Hughes, Pandy, 12 Bro Waun, ar fod yn daid a nain, ganwyd mab bach i Kelvin a Hefina.

DIOLCH: Dymuna Heulwen a John Huws, Argoed, ddiolch o galon am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Elin.

YR URDD: Dydd Sadwrn, Chwefror 21 cynhaliwyd Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail. Daeth Parti Recorders 'Iona' yn 1af dan 12 oed a pharti 'Llio' yn 2il. Bydd parti Iona yn mynd ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Sir a gynhelir yn Neuadd PJ, Bangor, dydd Sadwrn, Mawrth 28 - hefyd ymlaen i'r Sir aeth Elin Gwilym yn adrodd dan 12 oed ac yn chwarae Ffliwt dan 12 oed, a Meilir Gwynedd yn chwarae'r Clarinet dan 12 oed. Aeth Kailey Jones ymlaen hefyd i'r Sir gyda chlustog roedd wedi ei wau yn y gystadleuaeth dan 12 oed. Pob lwc iddynt.

Ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Merthyr Tydfil mae aelodau'r Gân Actol dan 15 oed yn mynd, â'u testun oedd 'Pobol y Cwm'. Dyma ni yn cael trip i'r Genedlaethol unwaith eto, yn wir mae hon y bumed flwyddyn yn olynoli ni a bydd rhaid inni fod yn brysur iawn yn ystod yr wythnosau nesaf i godi arian er mwyn mynd â'r plant yno ym mis Mai.

Yn ymweld â'r Urdd nos Fercher, Mawrth 4 bu Tegid Roberts, Penisarwaun a mwynhawyd cwis yn ei gwmni, ac ar nos Fercher, Mawrth 11 aeth y plant yng nghwmni Gareth Jones i'r Pwll Nofio a chael amser da iawn - diolch i'r rhieni am fynd â'r plant yn eu ceir. Bydd y Swyddog Datblygu, Miss Jen Williams, yn dod i'r Urdd nos Fercher, Mawrth 25 i ddangos Fideo am wersylloedd yr Urdd.

DIOLCH: Dymuna Mrs M A Owen, Tref Eilian, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra yn yr ysbyty yn ddiweddar ac ar ôl dyfod adref.

YR YSGOL: Ym mis Chwefror daeth fen recordio'r BBC i'r ysgol i recordio'r plant yn canu emynau ar gyfer y rhaglen "Caniadaeth y Cysegr". Bydd y rhaglen yn cael ei darlledu ar Radio Cymru ddydd Sul, 12fed o Ebrill o 4.30 hyd 5 o'r gloch.

ANTUR WAUNFAWR

Fel y gŵyr gwrandawyr Radio Cymru, un o'r rhaglenni mwyaf poblogaidd yw Talwrn y Beirdd, pan fydd timau o wahanol ardaloedd yn cystadlu ar gyfansoddi barddoniaeth. Testun y delyneg mewn ymryson ddiweddar rhwng timau o Benrhyndeudraeth a Waunfawr oedd 'Carreg'. Dyma gyfansoddiad Mrs Meg Dafydd o'r Waunfawr - gyda llaw mae Mrs Meg Dafydd yn byw dros y ffordd i Bryn Pistyll, lleoliad gweithgareddau Antur Waunfawr. Ar hyn o bryd, mae nifer o'r gweithwyr abl ac anabl yn prysur ailadeiladu hen fythynnod.

(I Antur Waunfawr, lle mae pobl a nam meddyliol yn gweithio yn y gymuned yn hytrach na chael eu cadw mewn sefydliadau ar wahân.)

Carreg ar garreg a godwyd
Yn rhagfur rhyngoch a'r byd;
Muriau a adeiladwyd
Rhag i'ch ddrysu'n rhagdybio clyd.
Doethineb a ddeddfai mai unfurf sgwâr
Oedd brics adeiladu cymdeithas wâr.

Carreg ar garreg a godir
Gan ddwylo medrus fu'n fud;
I herio'n clydwch cyffyrddus
A fu'n wahanfur cyhyd;
A gwelsum fod cerrig amrywiol eu maint
Yn harddu adeilad. Dyna ein baint.

Tybed a gaed erioed well crynhoad
o athroniaeth y strategaeth?
R.G.D.



Llun o blant Ysgol Waunfawr tua 1930.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

**CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR**



**DEWIS EANG O
WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?**

**Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291**

**AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.**

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

YSGOL TAN Y COED: Fe dreuliodd Mr Alun Jones o Gaernarfon bum wythnos ddifyr yng nghwmni Safon 2, 3 a 4. Pob dymuniad da i chwi Mr Jones i'r dyfodol oddi wrth bawb yn yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn cau bawn Gwener, Ebrill 10fed am 1.00 pm tan Ebrill 27ain.

ADRAN BENTREF YR URDD: Daeth Duncan Brown o'r Waunfawr i ddangos sleidiau i'r plant nos Fawrth, Chwefror 24ain - "O'r Môr i'r Mynydd" oedd y thema a chafwyd awr ddiddorol ac addysgiadol dros ben. Diolch yn fawr i chi Mr Brown. Sleidiau a gafwyd ar Fawrth 3ydd hefyd, y tro yma gan Mr Leslie Larsen. Yr oedd y plant wrth eu bodd yn gweld lluniau o'r fro ac ambell i 'Anti' yn ei gwisg ysgol. Diolch i chwithau Mr Larsen am noson ddifyr dros ben. Braff oedd cael gwahodd Adran Benlllyn atom ar Fawrth 10fed i weld fideo newydd yr Urdd ar Lanlllyn a Llangrannog - cafwyd noson ddifyr a chyfeillgar iawn.

Daeth nifer dda i chwarae Chwilen ar Fawrth 17fed a gwnaed trefniadau ar gyfer nos Fercher, Mawrth 25ain i fynd i Ganolfan Hamdden Arfon ar Fawrth 31ain. Bydd Helfa Drysor. Ebrill 7fed - Disgo yn Neuadd yr Eglwys.

Llongyfarchwn y plant i gyd am wneud mor dda yn yr Eisteddfod Gylch, er gwaethaf salwch mawr. Daeth llwyddiant mawr i'r Adran cleni - Louise yn drydydd am Adrodd, Jonathan yn ail am ganu, Parti Louise yn ail am gyd-adrodd a'r Parti Dawnsio Gwerin wedi cael cyntaf. Pob lwc i Jonathan a'r Parti Dawnsio yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor, Sadwrn Mawrth 28ain.

Llongyfarchiadau hefyd i Gwenllian am gael cyntaf am wneud tegau meddal yng nghystadlaethau Celf a Chrefft.

CAPEL BOSRA: Cynhaliwyd Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiroedd nos Iau, Mawrth 14 am 6.30pm a daeth cynulliad teilwng o ferched ynghyd i ddathlu canfed pen-blwydd y Mudiad 1887-1987, mudiad o wahanol draddodiadau Cristnogol gydag awydd ac angen i rannu rhoddion gweddi a gwasanaeth, gan gyd-weithio heb raniadau na rhagfarn.

Fe gynhelir Cymanfa'r Annibynwyr ddydd Sul, Ebrill 26ain yng Nghapel Jerwsalem, Nant Peris - bydd plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yn oedfa'r pnawn, ac fe fyddant yn cymryd rhan yng Nghymanfa'r Methodistiaid ym Mangor, gyda'r nos. Gobeithir trefnu bws i'r ddwy gymanfa.

CROESO ADREF I Dylan Williams, Careb - balch o dy weld Dylan yn mwynhau seibiant o'r fyddin yn yr Almaen.

PROFEDIGAETHAU: Y mis hwn eto

cydymdeimlwn â nifer o ffrindiau yn y pentref sydd wedi colli anwyliad. Ein cydymdeimlad llwyrfa â'r canlynol: Teulu Perthi, wedi colli modryb ym Mhenygroes;

Mrs Gay Williams, wedi colli perthynas agos, a Mrs Betty Evans, Llys y Gwynt wedi colli chwaer o Lanberis.

Bu farw brawd i Mrs Eileen Thomas, Bron y Gaer yn frwydus o sydyn - roedd yn ewythr hefyd i Mr Gwynfor Roberts, Tai Croesion.

Ein cydymdeimlad dwysaf hefyd â Mrs Mowll, Bryntirion, wedi colli ei mam.

GWELLHAD: Balch ydym o ddeall fod Margaret Williams, Carrog, Huw Thomas, Bron y Gaer, Iwan Griffith, Cae'r Bledwyn, Mrs Roberts, Tai Arthur, a Nathan Jones, Bryn Hyfryd yn gwella wedi triniaeth yn yr ysbyty. Dymunwn adferiad buan i bawb sy'n sâl yn y pentref.

LLONGYFARCHIADAU I Wil a Jean Jones, Bryntirion ar enedigaeth eu mab bychan, William Haydn, a Mary a Tony Elliot ar enedigaeth eu trydydd mab, Deian Tudur.

Pob dymuniad da i Anwen Jones, Meillionydd, ac Aled ar achlysur eu dyweddïad.

Pen-blwydd hapus i chwithau Mrs Evans, Bod Idris yn 80 oed.

DIOLCH: Dymuna Mary a Tony Elliot ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion ar enedigaeth Deian Tudur. Yr un modd dymuna Jean a Wil Jones ddatgan eu diolchgarwch i bawb am eu caredigrwydd ar enedigaeth William. Dymuna Sharon Owen ddiolch i'w rhieni, teulu a ffrindiau am eu caredigrwydd ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed.

Am bob arwydd o gydymdeimlad o golli ei chwaer, dymuna Mrs Betty Evans, Llys y Gwynt ddiolch o galon i bawb. Diolchir am y rhoddion ariannol a drosglwyddir i Gronfa Clefyd y Siwgr.

CLWB YR HEULWEN: Bnawn Mawrth, Mawrth 17 cafwyd cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn yn Neuadd yr Eglwys. Darllenwyd y Cofnodion a mwynhawyd sgwrs a phaned. Cydymdeimlwyd â nifer o'r aelodau a dymunwyd adferiad ieched buan i eraill. Llongyfarchwyd Mrs Evans, Bod Idris ar ei phen-blwydd yn 80 oed. Anfonwyd dymuniadau da i Dave Patterson yn ei waith newydd yng Ngwlad Israel, a phob dymuniad da i Mrs Gwyneth Jones yn ei chartref newydd. Rhoddwyd y te gan Mrs K Williams a Mrs E Porter. Diolchwyd iddynt gan Mrs N Roberts. Enillwyd y raffl gan Mrs G Lewis. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 21, pryd ceir "Moes a Phryn" (Bring and Buy).

EISTEDDFOD BENTREF: Nos Iau, Mawrth 5ed fe gynhaliwyd 'Sêl Fawrth'

yn Neuadd yr Eglwys. Gwnaed elw o dros £120. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd y noson mewn unrhyw fodd.

PWYLLGOR NEUADD: I ddathlu Gŵyl Ddewi, nos Iau, Chwefror 26ain, cafwyd noson hwyliog dros ben yng nghwmni Arwel Jones, noson o 'Siôn a Siân'. Y parau priod mentrus a dewr oedd Janice a Michael Jones, Myra a Selwyn Griffith, Elisabeth ac Eric Jones a Mr a Mrs Larsen. Datgelwyd ambell i gyfrinach amdanynt gan y gyflwynwraig 'Phyllis Emlyn', ac roedd Arwel Dai Jones yn gorfod bod yn ofalus iawn hefo ambell un wrth ofyn cwestiynau. Yr oedd pawb wedi mwynhau eu hunain cymaint fel bod nifer wedi gofyn am noson gyffelyb rhywbryd eto. Chafodd neb y jacpot ond fe gawsant wobwr gysur - cennin i'r dynion a daffodil i'r merched. Diolch i bawb ohonoch am noson ddifyr iawn.

Llun: Sylwch fod gŵr Maer Arfon wedi cael ei yrru adref am ddatgelu gormod!

Nos Wener, Mawrth 27 am 6.30 pm



Sylwch fod gŵr Maer Arfon wedi cael ei yrru adref am ddatgelu gormod ar "Siôn a Siân".

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

"Oes Aur y Llongau Hwyllo"

yng nghwmni Aled Eames
ORIEL ERYRI, LLANBERIS
nos Fercher, Ebrill 15fed
am 7.30 o'r gloch

Gellir ymaelodi â'r Gymdeithas am Dymor
1987-88 ar y noson.
Rhaglen lawn wedi ei threfnu

**Wavell
Roberts**
CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

**Aled
Jones**

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

**4 Bryn Eglwys
Penisarwaun**
Ffôn: Llanberis
871047

**CYNGERDD
BLYNYDDOL
"Lleisiau'r
Gweunydd"**

Arweinydd Einir Wyn Owen
Cyfeilydd: Anette Bryn Parri
gyda Dafydd Iwan
a Thriawd Menlli
Yn Neuadd Bentref Rhiwlas
Nos Fercher, Ebrill 8fed am
7.30pm Arweinydd y
noson Arwel Jones

Elw'r Noson a'r Raffl at Ymchwil
yr Arennau
Tocynnau ar gael gan aelodau'r
Côr ac Eiriona Williams - Ffôn:
870644

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgerran (Portdinorwig 670726)

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher, Ebrill 8 yn yr ysgol am 7.30. Y gŵr gwadd fydd Mr Medwyn Williams a fydd yn barod i roi pob math o gynghorion gwerthfawr ar arddio ac edrych ar ôl y planhigion yn y tŷ.

LLONGYFARCHIADAU i Kelvin Roberts, 21 Bro Rhos a Howard Pierce, Caer Siddi ar eu llwyddiant mewn cystadleuaeth Arlunio, o dan nawdd Cadbury's. Cawsant dystysgrif a siec am ugain punt yr un yn wob, a thrip i Oldham gyda rhai o'i hathrawon i weld eu gwaith yn yr arddangosfa (Cadbury's National Exhibition of Children's Art).

Mae'r ddau yn 14 oed ac ar eu trydedd flwyddyn yn Ysgol Syr Hugh Owen.

CLWB BRO BETHEL: Gwahoddwyd y clwb i'r ysgol eleni eto i ddathlu Gŵyl Ddewi. Croesawyd pawb gan y Prifathro Mr Islwyn Jones, a chafwyd adloniant ardderchog gan y plant, dan gyfarwyddyd yr athrawon. Yna cafwyd gwledd wedi ei darparu gan Mrs Pat Jones, Mrs Helen Sutherland a genethod dosbarth 4. Gan ei bod yn ddydd Mawrth Crempog, roedd rhain wedi eu darparu ar gyfer pawb.

Gwnaed casgliad o £8.60 i'r ysgol. Talwyd y diolchiadau gan y Parch W R Williams. Dymuna'r aelodau ddiolch i bawb am y wledd, yna treuliodd ychydig amser i wneud gwaith arferol y clwb, sef anfon cofion at bawb oedd ddim yn dda, gan gofio at Mr Ted Jones a oedd yn yr ysbyty, a Mrs Jones, Bro Rhos wedi bod, ond yn awr yn aros gyda'i merch. Dymunwyd gwellhad buan i bawb. Penderfynwyd cael taith ym mis Mai, y penderfyniad i'w wneud yn y cyfarfod nesaf, Ebrill 14eg.

Darlennwyd llythyr o atebiad oddi wrth Brif Arolygydd yr Heddlu yn dweud fod cael plismon i'r pentref dan ystyriaeth.

Roedd pawb yn falch o weld Mrs Sallie Hughes, Bro Rhos wedi gwella'n ddigon da i ymuno yn y wledd.

Cydymdeimlwyd â Mrs Mary M Jones, 14 Cremllyn ym marwolaeth ei phriod.

CLWB FFERMWYR IEUANC CAERNARFON: Yn ystod mis Chwefror a Mawrth, cynhaliwyd y rhagbrofion a'r Eisteddfod. Nos Sadwrn, Chwefror 28ain, cynhaliwyd rhagbrofion y sgetsus a'r caneuon actol yn Neuadd Chwilog. Ar ran y clwb bu Gwen Jones, Carys Owen, Andrew Kettle ac Elwyn Parry ar y sgets - "Chwilio am Waith". Er na lwyddwyd i fynd ymlaen i'r Eisteddfod ym Mhwlheli rhoesant berfformiad canmoladwy iawn. Nos Fercher, Chwefror 18fed, cynhaliwyd

cystadleuaeth dartiau a phŵl yn y Clwb Rygbi, Caernarfon. Andrew Jones fu'n cystadlu ar y dartiau ac Alwyn ac Eurwyn Jones ar y pŵl. Nos Wener, Mawrth 13eg cynhaliwyd y Clwb ddisgo yn Neuadd Goffa Bethel er budd Cronfa Apêl Sganiwr Ysbyty Gwynedd. Bu'n noson lwyddiannus a diolchwn i'r aelodau fu'n helpu ar y byrddau gwerthu a'r rhai fu'n glanhau'r Neuadd ar ôl y Disgo. Diolch arbennig i Mr Geraint Elis, Mrs Gwyneth Jones, Mrs Falmal Owen, Mrs Nan Owen a Mrs Norah Parry am oruchwylio yn y sesiwn olaf. Diolch hefyd i Mrs Eleri Warrington am gael menthyg y 'gas ring'. Diolchwn hefyd i bawb a ddaeth i ddawnsio ac am eu cefnogaeth ac i'r troellwr, Mr Iorwerth Williams. Enillwyd y raffl Wŷ Pasg gan Iwan Hughes, Cae Rhos, Bethel.

ADRAN YR URDD: Mae'r Adran wedi mwynhau nosweithiau lau difyr dros ben yn ddiweddar yng nghwmni Mr Richard L Jones, Mrs Mair Price, Mr Dewi Hughes a Mrs Mair Read. Mae'n dyled yn fawr iawn i rai lleol fel hyn am roi o'u hamser i ddiddanu'r plant. Cawsom noson hefyd yn gwyllo fideo newydd ar ddau wersyll yr Urdd a chafodd y rhai lleiaf bleser yn gwyllo Superted.

Cawsom y Noson Goffi flynyddol nos Wener, Chwefror 27. Diolch i'r rhieni am ddod â nwyddau i'r stondinau a hefyd i'r rhai fu'n gwerthu. Diolch i bawb ddaeth i gefnogi'r noson. Derbyniwyd amryw o roddion ariannol gan garedigion na allasant fod yn bresennol - diolch iddynt hwythau hefyd. Enillwyd y raffl oedd Miss Carys W Jones, Llanberis, Llinos Angharad Morris, Eysyllt Môn Jones, Mrs Ceris W Williams a Mrs Jean Jones, oll o Fethel. Cawsom gyngerdd gan y plant dan arweiniad Mr Geraint Elis, gyda Mrs Glenys Griffith wrth y piano.

Cynrychiolwyd y gangen yn yr Eisteddfod Sir gan Non L Jones, Eryri a'r Parti Alaw Werin 12-15 oed. Daeth y parti yn ail ac enillodd Non yn y gystadleuaeth cân wreiddiol dan 15. Pob lwc i Non ym Merthyr.

LLONGYFARCHIADAU i Catherine Daniels, 18 Y Ddôl ar ei phen-blwydd yn 18 oed, Chwefror 25, a hefyd i Gweno Owen, 2 Tan y Cae oedd yn dathlu ei phen-blwydd ar Fawrth 15.

PLAID CYMRU: Nos Fercher, Mawrth 18fed cafwyd noson lwyddiannus iawn gyda Chwmni Drama Llanberis yn cyflwyno dwy gomedi fer yn y Neuadd. Cafwyd perfformiadau gwych o "John Hughes Drws Nesa" gan Cynan a "Gwyn y Gwêl" gan William Owen. Roedd y nifer dda drodd allan wedi cael gwledd o

noson.

Nos Fercher, Ebrill 15, cynhelir Seiat Holi yn y neuadd pan geir cyfle i holi cynrychiolwyr a darpar gynrychiolwyr yr ardal ar y Cynghorau Lleol.

CYMDEITHAS RHINI AC ATHRAWON YSGOL BETHEL: Nos Iau, Mawrth 7 cynhaliwyd cyfarfod cyntaf pwyllgor y gymdeithas. Penderfynwyd cynnal Noson Goffi yn yr ysgol nos Wener, Mawrth 27 gyda'r nod o gasglu arian at brynu offer at ddefnydd plant yr ysgol.

LLONGYFARCHIADAU i Charles ac Alice Peters, 13 Cremllyn ar enedigaeith merch fach ddydd Sul Mawrth 15fed.

CYDYMDEIMLAD: Yn frawychus o sydyn ar ôl gwaeledd byr bu farw Mr Richard Hughes, Fachell Bach ddydd Gwener, Mawrth 6ed. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf i Owain a Beryl a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Roedd Richard Hughes yn aelod o'r Cyngor Cymuned ac o Lywodraethwyr yr Ysgol ac yn gymwynaswr mawr i'r fro. Bydd colled ar ei ôl.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Edward Jones ddiolch yn fawr iawn i'w cyfeillion am y caredigrwydd tuag atynt tra yn byw yn 15 Bro Rhos. Maent wedi symud i fyw i Landyfyddog, Ynys Môn.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd noson Swper Gŵyl Ddewi yn yr ysgol, nos Fawrth, Mawrth 10fed. Daeth nifer dda iawn o'r aelodau ynghyd i fwynhau swper a ddarparwyd gan y pwyllgor er gwaethaf gorff newid y noson. Wedi gorffen y swper cawsom adloniant hwyliog iawn yng nghwmni aelodau o Glwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Nantlle. Diolchwyd iddynt gan Mrs Elen Ellis, Rhos Lan.

Dymunwyd gwellhad buan i'r aelodau na fedrai fod yno gan obeithio eu gweld yn ôl yn fuan.

Enillwyd y raffl - bocs o nwyddau - gan aelod o'r Ffermwyr Ifanc; Potel o win hefyd gan aelod o'r Ffermwyr Ifanc; Planhigyn tŷ - Mrs Elizabeth Jones; Tuniau ffrwythau - Mrs Mabel Jones; Tuniau llysiau - Mrs Nora Parry.

Llongyfarchiadau i Haf Owen, Fron Heulog ar ennill y wobr gyntaf am arlunio yn y Cylch. Mae Haf yn aelod o'r Urdd yn Ysgol Brynrefail ond hefyd yn aelod ffyddlon o gangen Bethel.

Llongyfarchiadau i Bethan Fôn, Bro Dawel, Rhoslan ar ddod yn drydydd am ganu dan 8 oed yn yr Eisteddfod Gylch.

Balch iawn oedd y gangen o lwyddiant Trystan Gwilym ar Ganu a Cherdd Dant dan 8, a hefyd o lwyddiant y Gân Actol o Ysgol y Gelli, dan gyfarwyddyd Ann Hopcyn, un a

weithiodd yn galed iawn yn yr adran pan yn byw yma.

Yn y cystadlaethau nofio diweddar yn y Ganolfan Hamdden, roedd adran Bethel yn amlwg iawn bron ym mhob ras ac roedd pawb yn ymfalchio yn llwyddiant y tîm yn y ras gyfnewid dros 15. Bydd Aled Jones, Fachell, Elwyn Parry, Tan y Buarth; Andrew Kettle, Ty'n Rhos a Robert Gray Parry, Llanberis yn cynrychioli'r adran yn y cystadlaethau ym Merthyr.

EISTEDDFOD BETHEL 1987: Cynhaliwyd pwyllgor cyntaf Eisteddfod Bethel yn y Neuadd nos Lun diwethaf dan lywyddiaeth Mr Ieuan Williams. Penderfynwyd cynnal Eisteddfod 1987 ddydd Sadwrn Tachwedd 7fed. Bydd arddangosfa coginio a chelf a chrefft ar Hydref 30. Etholwyd Mrs Nora Parry yn Is-ysgrifennydd a Mrs Rita Williams yn Is-lywydd. Gobeithio y ceir Eisteddfod lwyddiannus eto eleni.

Bydd Is-bwyllgor adrodd a cherdd nos Lun, Mawrth 30 am 7 o'r gloch i dynnu allan y rhaglen.

Cynhelir y pwyllgor nesaf yn y Neuadd nos Lun, Ebrill 6ed am 7 o'r gloch.

NOSON GOFFI: Cynhelir Noson Goffi a byrddau gwerthu yn Festri Capel Bethel nos Wener, Ebrill 3. Yr elw at adeiladau'r capel.

LLONGYFARCHIADAU i Gôr Adrodd Adran y Pentref a ddaeth yn gyntaf yn Eisteddfod Aelwydydd yr Urdd ym Mhenygroes ddydd Sadwrn, Mawrth 21. Dymuniadau gorau iddynt yn yr Eisteddfod ym Merthyr fis Mai. Yr hyfforddwaig yw Mair Price, Tan-y-ffordd.

YN EISIAU

GOFALWR I GAPEL BETHEL (A)

Am fanylion pellach cysyllter â:
Emyr W. Jones Wenallt, Bethel.

Merched . . .
Dynion . . .
Plant . . .

I gael trin eich
gwallt yn eich
cartref cysylltwch â

SIAN

MAIRANNEDD
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon 5366

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol



W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Y MORON AUR gan Y Gwalch

Rwy'n cofio'r adeg y daeth Doctor Jones i fyw i Wern y Gro. Mis Mawrth oedd hi, ac mi gawson spel o dywydd braf; un o'r ysbeidiau hynny fydd yn ysbrydoli pobl i dorchu eu llewys er mwyn gwneud arian, i'w galluogi i fudo i ryw fro arall, sydd yn eu meddyliau yn tra rhagori ar yr hon maen nhw'n trigo ynddi ar hyn o bryd.

Roedd y doctor yn brysus hefyd, yn trin cleifion y clefydau gwanwynol, yn yr ystafell fawr honno a wynebai'r ardd - mangre a achosai gryn bryder iddo ar y pryd.

Doedd o fawr o arddwr ei hun, a doedd hi ddim yn hawdd cael gafael ar ddyd a allai gwneud rhywbeth amgenach hefo rhaw na phwyso arni. A doedd y chwyn dringo bellach ddim yn fodlon ar dagu'r tŷ gwydr; roeddau nhw'n bygwth dwad i'r tŷ drwy ffenest y pantri bach.

Mi fyddai'r doctor yn galw yn swyddfa'r dŷ rwan ac yn y man, i ofyn i'r clarc am gynorthwy. Mi anfonodd hwnnw ddyn; mi anfonodd ddynion - ond y cwbl oeddau nhw yn allu ei gwneud oedd sgubo llwybra a chnoi gwrychoedd, ac mi daflodd un ohonyn nhw lwyn bach prin a ddaeth y doctor adra o'r Himalayas, mewn camgymeriad am ddail poethion.

Yn y twymiad hwnnw y daeth Beg O'Donnell i'r amlwg. Ataf i y daeth o i ddechrau a gofyn am waith yn yr ardd. Roedd o'n greadur digon dymunol yr olwg, tua deg ar hugain oed a gwallt cringoch ganddo fo. Roedd o'n dweud ei fod o yn gyfarwydd â gweithio hefo gwydr, a fedrwn i ddim ond ei gymryd o ar ei air, ond doeddwn i ddim angan ei wasanaeth o ar y pryd, ac mi anfonais o at Doctor Jones. Mi aeth ar ei union, a'r peth nesa glywais i, oedd ei fod o'n gweithio yno am ddiwrnod bob wythnos, ac yn gwneud job reit dda ohoni. Roedd y doctor hyd yn oed yn cyfaddef hynny.

Ymhen mis yr oedd Beg wedi cael ei big i mewn yn dda yng Ngwern y Gro. Roeddau nhw yn dweud ei fod o'n tynnu am ei draed cyn mynd i'r gegin am panad, a hyd yn oed wedi cynnig golchi'r llestri i Mrs Jones, a phan ddaeth Sali'r ferch adra o'r coleg tros y Pasg, dechreuodd pobl sylwi ei fod o'n dwad i'w waith yn drwsiadus tros ben a chrafat glas wedi ei chwipio am ei wddf.

Yn ymyl y sied botio, roedd gan y doctor glwt o dir gwyllt, a neb wedi ei gyffwrdd o ers blynnyddoedd. Mi gymerodd Beg yn ei ben i'w glirio, ac mi wnaeth swydd mor dda ohoni, nes i'r doctor ddweud wrtho fo am blannu beth bynnag a fynnai yn y darn hwnnw at ei ddefnydd ei hun. Roedd Beg yn bur ddiolchgar. "Mi rof i dipyn o foron yno fo," meddai. "Maen nhw'n betha reit dda at y mennydd."

Ar hynny dyma'r doctor yn gofyn cwestiwn gwirion.

"Beth ydw i'n fethu â deall Beg," medda fo, "Sut a chitha yn arddwr mor dda, na fasa chi'n gwybod mwy am enwa'r planhigion yma?"

"Wel mae hi fel hyn," medda Beg. "Yr ydach chitha yn ddoctor. Pa ddiban fasa i chi fedru rhoi enw ar glefyd a methu ei wella fo?"

Ar ôl hynny gadawodd y doctor i Beg gwneud ei orau, a gorau da oedd o hefyd. Roedd yr ardd wedi gweddnewid, ac erbyn canol Ebrill roedd y moron yn glir â'r wynab ac yn dwad i fyny ar andros o ras. Roedd eu topia nhw yn edrych yn lân ac yn gryf. "Dyna ddangos beth fedrwyd chi neud hefo tir newydd," medda Beg.

Erbyn hyn roedd ganddo fo amryw o gwsmeriaid eraill yn y dre. Roedd o'n ymddangos yn ddyn prysur iawn a'i foron o yn dwad ymlaen fel trê. Ond rhyw fore, roedd y doctor yn cymryd tro drwy'r ardd cyn agor y syrjeri. Sylwodd fod topiau rhai o'r moron wedi cael eu torri, a phan ddaeth Beg, gofynnodd iddo pam.

"Mae hwnna yn hen dric welwch chi. Ddowch chi ddim ar draws hwnnw mewn llyfr. Mi fydda fy nhad yn gwneud hynna yn y Werddon. Mae o'n help i'r gwraidd fynd i lawr yn ddwfn a chaledu. Mi dyfan eto gewch chi weld."

"Rhyfeddol," medda Doctor Jones a mynd at ei gleifion.

Roedd hi'n amlwg fod Beg yn dwad yn ei flaen yn rhagorol. Mi gafodd gar newydd spon, ac mi gwelach o weithia hefo genod reit smart ar y traeth, ac un noson roedd o yn bwyta allan hefo un yn y Penrhyn Grill. A'r adag honno y dechreuais i amau fy mod i wedi camddewis fy ngyrfa.

Ymhen tair wythnos, dyma fi'n taro ar Doctor Jones, ac fe drodd y sgwrs yn naturiol at arddio. Y newydd gefais i ganddo ef oedd, fod

Beg O'Donnall wedi diflannu heb fath o rybudd yn y byd. Doedd yna ddim hanas ohono fo yn unman.

"O mi ddaw yn ei ôl am ei foron," medda fi.

Ond ddaeth Beg ddim am ei foron na dim arall chwaith - ond mi gafodd y doctor ymwelwyr eraill.

Un diwrnod dyma gar mawr yn stopio tu allan i Wern y Gro, ac ohono fo daeth dau blisman a dyn mewn dillad plaen. Dyma nhw'n gofyn am weld y doctor, a bu raid iddo fo adael llond stafall o gleifion i fynd atyn nhw.

Wedi ei gael o'r naill du, dyma nhw'n gofyn am Beg O'Donnell wrth ei enw, a bu raid i'r doctor ddweud wrthyn nhw bob dim a wyddai am y dyn. Roedd hynny, erbyn iddo fo ganfod, yn ddigon 'chydig.

"Oedd o'n tyfu moron yma?" gofynnodd y dyn dillad plaen.

"Wel oedd erbyn i chi sôn."

"Mi faswn i'n hoffi eu gweld nhw."

"Cewch â chroeso," meddai'r doctor, ac aeth â'r dynion at y clwt yn ymyl y sied. Dyna lle roedd y moron, y rhan fwy ohonyn nhw heb dopiau o gwbl. Cymerodd un o'r plismyn fforch a throi mymryn ar y pridd o'u cwpas, a doedd yna ddim moron chwaith. "Beth ydy ystyr hyn?" meddai Doctor Jones.

"Doctor bach," meddai dyn y dillad plaen. "Nid moron mo' rhain ond cannabis. Roedd gan y creadur blanhigion fel hyn yn tyfu mewn pedair gardd yn y dre 'ma. Roedd o'n mynd â'r stwff i Lerpwl yn gyson. Raid i mi ddweud wrthoch chi i beth?"

"Ond ble ar y ddaear roedd o'n cael yr had?"

"Wyddoch chi'r siop yna yn y Stryd Fawr sy'n gwerthu bwyd i anifeiliaid anwes, cŵn a chathod ac ati?"

"Gwn yn iawn."

"Does dim ond isio i chi brynu bwyd parrot. Mae hwnnw yn llawn ohonyn nhw."

Chlywais i byth fod neb wedi dal Beg O'Donnall, ond yn ddiweddarach yr haf hwnnw, aeth Sali, merch y doctor ar wyliau i Estoril hefo rhyw gyfeilles. Un diwrnod, wrth iddyn nhw gerddad ar hyd y traeth, beth welson nhw ond gŵr bonheddig hefo spectol dywyll a lliw haul go dda ar ei groen yn eistedd hefo rhyw hogan o dan barasol wrth fwrdd o flaen yr Hotel Ophir. Roedd gan y dyn wallt cringoch.

Fedrai Sali ddim bod yn siŵr, ond roedd y dyn yn debyg iawn i rhywun oedd hi wedi ei weld o'r blaen yn rhywle, a chofiodd hi ddim pwy nes y daeth hi adra.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs Mary Ff Roberts, Cerrigydrudion.

PRIODAS: Yn Eglwys St Peris ar Chwefror 21ain, priodwyd Jennifer Anne, merch Mr a Mrs Tony Ellis, 'Hafan' a Robin, mab ieuengaf Mr a Mrs Huw Davies, 'Hafod Lydan', Llanberis. Y Parch Alun Hawkins oedd yn gwasanaethu a'r organyddes oedd Mrs Ruth Rowlands. Cafwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Victoria Llanberis. Cyfansoddwyd y penillion canlynol i'r pâr ifanc gan eu ffrind Mr John Morris, 'Rhianfa', Deiniolen.

Dymuna Jennifer a Robin ddiolch o galon am y llu cardiau ac anrhegion gwerthfawr a dderbyniasant ar achlysur eu priodas. Diolch yn fawr iawn.

I gyfarch Robin a Jennifer ar eu priodas
At allor Duw daeth dau ynghyd
Yn swil eu cam, ond llon eu byd,
I rannu bywyd dau fel un,
Mewn glân briodas mab a mun.

Boed iddynt fendith ar eu taith,
Hir oes, a iechyd mewn gŵyl a gwaith;
A dyddiau hapus yn llawn serch
Sy'n dilyn plethiad mab a merch.

A'r fodrwy aur i roddi sêl
Ar daith gysurus eu mis mēl,
Newyddion da a ddaw i'w rhan,
Wrth glywed eco cloch y Llan.

BETWS GARMON

Mae digwyddiadau mawr wedi cymeryd lle yn y Betws yn ddiweddar. Emyr a Rhian a'r genod wedi symud o Bron y Graig, cwpwl newydd yn eu lle ac yn gwneud defnydd o'r capel yn ei waith gyda choed, pob lwc iddynt

Marian wedi symud i fyw i'r Waunfawr, wedi bod yn y Llythyrdy am dros 20 mlynedd, dymunwn pob hapusrwydd iddynt yn eu cylch newydd.


Mr a Mrs Burton a'r plant wedi dod i'r Llythyrdy. Mr a Mrs Hollingworth wedi dod i'r hen Ysgol. Mrs Slaven yn Tan Caearau.

Croeso iddynt i gyd a gobeithio y byddent yn cartrefu yn fuan ac yn hapus yma.

Cydymdeimlwn â Mrs Brown, Cynefin a Mr a Mrs bohanna a'r plant, Bryn Afon ar farwolaeth gŵr, tad a thaid annwyl iawn.

Adferiad buan i Gwynfor P Jones, Cerrig Rhyd sydd ar hyn o bryd adref o'i waith fel athro ysgol ym Mhwlheli.

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**

Ffôn: Caernarfon 5175

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394



**BECWS
DEINIOLLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn:
LLANBERIS 870232
BARA FFRES A
THEISENNAU BLASUS
Hefyd gwerthwyr
CALOR GAS

LLYFR RHEDYN EI DAID

Portread o EVAN ROBERTS Capel Curig, Llysieuwr.

Llyr D. Gruffydd • Robin Gwyndaf

"Mae'n ŵr arbennig iawn. Edwyn ucheldiroedd Eryri, glegyr a chlogwyn, fel cledr ei law, ei bywyd gwyllt a miraglau ei thyfiant." Dyna ddisgrifiad o Evan Roberts, y Llysieuwr o Gapel Curig gan yr Athro R Alun Roberts wrth ei gyflwyno am radd M.Sc. Prifysgol Cymru, er anrhydedd yn 1956.

Eleni, dros ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach cyhoeddir cyfrol sy'n portreadu'r llysieuwr nodedig hwn. Llyr Gruffydd, Curadur Oriel Eryri, Llanberis, a Robin Gwyndaf o'r Amgueddfa Werin sy'n gyfrifol am y gyfrol, ond dyfynnir yn helaeth o sgysiau a recordiwyd gydag Evan Roberts ei hun yn y cyfnod o 1973 i 1983. Mae hyn yn rhoi blas hunangofiannol i'r gyfrol, ond ei bod yn darllen fel cyfres o sgysiau diddorol.

Fel y gellid disgwyl, mae Gwasg Dwyfor wedi cyflwyno cyfrol hardd; dyma'r wasg bellach sy'n feistri ar y maes cyhoeddi ym Myd Natur. Mae lluniau ar bron bob tudalen, gan gynnwys nifer o rai lliw o'r llysiau prin hynny y gwnaeth Evan Roberts gymaint i'w cronico.

Mae i'r gyfrol deitl go

anghyffredin: 'Llyfr Rhedyn ei Daid'. Teitl ydoedd i lyfr a gadwai ei daid yn cofnodi a disgrifio gwahanol redynnau yn Eryri. Yn anffodus, teitl yn unig ydoedd i Evan Roberts, oherwydd ni welodd erioed mo'r llyfr, dim ond clywed amdano, a'r cyfan sydd ar ôl o gasgliad ei daid heddiw, yw gweddillion rhai o'r rhedynnau a gasglwyd ganddo sy'n tyfu yng ngardd y Gelli, ei gartref yng Nghapel Curig.

Ond diolch i'r sgysiau a recordiwyd, a diolch i'r rhai a fu wrthi'n paratoi'r gyfrol hon, mae Llyfr Rhedyn a Llysiau Evan Roberts yn gofnod gwerthfawr o'r llysieuwr hynod hwn. Prynwch y gyfrol ar bob cyfrif; mae'n werth pob ceiniog o'r tair punt a hanner can ceiniog.

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siop lyfrau lleol.

CLWYD, Hafina

Buwch ar y Lein

Honno £3.95

Detholiad o ddyddiaduron Llundain, 1957-1964.

DAVIES, J Ifor

Sŵn y Môr

Gwasaneth Llyfrgell Gwynedd. 75c. Darlith flynyddol Llŷn, 1986, lle'r edrydd J Ifor Davies atgofion am ei flynyddoedd cynnar yng nghyffiniau Nefyn.

GLYN, Dyfed

Llygad y Ddraig

Y Lolfa £1.95

Nofel antur i blant.

HYWYN, Gwenno

'Tydi Bywyd yn Boen

Gwasg Gwynedd £1.75

Y bumed gyfrol mewn cyfres o lyfrau i'r arddedau.

JAMES, Hawys Glyn

Hwyl a Mawl: Praise and Pleasure

Y Lolfa £3.45

14 o ganeuon ysgafn, gyda chyfeiliant hen-nodiant.

JONES, D.G.Merfyn

Y Lluch Du

Gwasg Gwynedd £2.25

Nofel i oedolion

JONES, Siân

Cymylau'r Dydd

Gwasg Gomer £3.95

Nofel hanesyddol wedi'i seilio yng

Ngogledd Ceredigion.

JONES, W.J. (Gol)

10. Crefyddwyr Enwog

11. Enwogion y Sinema

12. Adeiladwyr Enwog

Gwasg Cambria £2.25

Y llyfrau diweddaraf yng nghyfres Enwogion y Byd.

KNOWLES, Andrew

JONES, Arfon a Siôn Aled (Addas)

Cristnogaeth Go Iawn

Gwasg Efengylaidd Cymru £2.95

Llyfryn a ddengys y cysylltiad rhwng dysgeidiaeth lesu a bywyd heddiw.

LLOYD, D. Tecwyn

Drych o Genedl

Tŷ John Penry £2.95

Cyrol sy'n olrhain twf Cymreictod a thaeogrwydd, gan gynnig darlun o'r dyfodol hefyd.

ORWIG, Dafydd (Gol)

Yr Atlas Cymraeg

George Philip (CBAC) £4.95

Atlas safonol yn y Gymraeg, yn cynnwys mapiau, diagramau a ffotograffau lliw.

STODDART, John (Cyf)

Cerddi Gaeleg Cyfoes

Gwasg Prifysgol Cymru ar ran

Yr Academi Gymreig £3.95

Cyfieithiadau o ddetholiad o gerddi Gaeleg cyfoes.

BRO A BYWYD SYR THOMAS PARRY 1904-1985

Ar Mawrth 25 cyhoeddwyd Bro a Bywyd Syr Thomas Parry, y llyfryn diweddaraf yn y gyfres boblogaidd hon sy'n amcanu at gyflwyno prif lenorion Cymru a'u hardaloedd trwy gyfrwng ffotograffau. Bu cyfraniad Syr Thomas Parry fel llenor ac ysgolhaig yn un sylweddol a gwerthfawr ac yr oedd hefyd yn ffigwr amlwg ym mywyd cyhoeddus Cymru. Bydd hanes ei deulu a'i fywyd o ddiddordeb i Gymry ym mhob rhan o'r wlad.

Comisiynodd Cymdeithas Ranbarthol Gogledd Cymru Branwen Jarvis i olygu'r llyfr. Cyhoeddir y gyfres gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Y pris yw £2.95.

Eisoed cyhoeddwyd

Bro a Bywyd T H Parry-Williams, Gol. Ifor Rees yn 1981; Bro a Bywyd Kate Roberts, gol. Derec Llwyd Morgan yn 1981; Bro a Bywyd Gwenallt gol. Dafydd Rowlands yn 1982; Bro a Bywyd Cynan gol. Ifor Rees yn 1982; Bro a Bywyd D J Williams gol. J Gwyn Griffith yn 1983; Bro a Bywyd T Gwyn Jones gol. David Jenkins yn 1984.

Argraffwyd nifer o gardiau post o'r lluniau yn y gyfres a gellir eu cael o Oriel, Heol Siarl, Caerdydd.

CÂN I GYMRU

Roedd gan gyfansoddwyr buddugol Cân i Gymru gysylltiad agos â Bro Eco'r Wyddfa. Y buddugwyr oedd "Eryr Wen". Mae Llion ac Euros Jones yn feibion i'r Parch a Mrs Isaac Jones, Abergele. Mrs Nancy Jones (Ellis gynt yn enedigol o Benisarwaun). Yn ail daeth Trisgell. Mae Robert Arwyn yn fab i Mr a Mrs Griff Jones, Talysarn - ei fam Enid Jones (Roberts gynt) o'r Fachwen.

Llongyfarchiadau o Fro'r Eco iddynt.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, LLONGYFARCHIADAU i Glenda Roberts, 4 Tai Minffordd ar gael swydd yn Arch Farchnad Leo yng Nghaernarfon. Gyrfa lwyddiannus, hapus iddi yno.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Ffion Williams, Fferm Minffordd ar ddod yn gyntaf yng Nghystadlaeth Unawd i Ferched dan 15 oed yn Eisteddfod yr Urdd yn Ysgol Brynrefail ddydd Sadwrn, Mawrth 14eg. Bydd Ffion yn awr yn mynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Merthyr Tydfil ym mis Mai. Pob hwyl i Ffion ar y cystadlu terfynol yma, a llongyfarchiadau iddi ar ei llwyddiant yn y cystadlu blaenorol.

DYMUINIADAU GORAU i Mr

MERCHED Y WAWR EISTEDDFOD RHANBARTH ARFON

Hwyrach mai Ffug Eisteddfod a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail nos Wener, Mawrth 3, ond yr oedd hi'n Eisteddfod ardderchog efo perlau o berfformiadau.

Mae'r clod i Jean Evans a Beth Ann Williams am y trefnu, ac am gael y syniad o rannu'r dosbarth yn dair carfan - Bangor a'r Cylch, Caernarfon a'r Cylch a Phenygroes a'r Cylch.

'Doedd yna yr un perfformiad gwael, a'r pencampwyr, efo llawer mwy o farciau na'r ddwy arall hefo'i gilydd, oedd Penygroes. Y nhw enillodd y gadair - Beti Wyn Thomson; y Llythyr Caru - Enid Baines, a'r Parodi - Myfi Parry. Dyffryn Nantlle felly yn dal ei dir ym myd llenyddiaeth!

Arewinydd y noson oedd Arwel, fel ei arfer yn serchog a rhadlon, ac yn gwybod yn iawn sut i drin cynulleidfa o ferched, a fo hefyd oedd yn beirniadu y Gadair, y Parodi a'r Llythyr Caru. Jini Owen oedd beirniad y canu, yr actio a'r adrodd, a'i beirniadaethau wedi'u gwau hefo'i straeon digri hi ei hun.

Cystadlu uchelgeisiol ar ganu i grŵp dan 5 oed - a hogan bach dew efo plethi yn seren, corau adrodd a chorau chwibanu, actio hysbyseb a bandiau cegin (?), a chadeirio'r bardd hefo Archdderwydd, corn gwlad, cyrchu'r bardd, cyflwyno'r aberthged a dawns flodau'r sgifis - a Heddwch yn diasbedain drwy'r neuadd.

Yr oedd dyfeisgarwch pob cangen yn rhyfeddol - yn enwedig Côr Adrodd Llandwrog efo'u lleuad a'u llwynogod etc. etc., a hefyd Llys y Brenin Arthur wrth Ffynnon Cegin, yn gwneud gwrthiau. Dawnsio can-can, Meryl a Sian yn sbonclyd iawn, a'r bath fel 'Pair y Dadeni' yn rhoi troedigaeth i Megi, Gari, Bela a Gwen Ellis, - mae dyfroedd Ffynnon Cegin Arthur nid yn unig yn feddyginiaethol ond yn wir wyrthiol!!

Robert Wynne, Gelliod a gafodd ddamwain gan syrthio yn yr eira beth amser yn ôl ac anafu ei goes. Y mae Mr Wynne yn parhau yn gaeth i'r tŷ ers y ddamwain, ond yn gwella. Boed iddo adferiad llwyr a buan.

CROESO ADRE i Miss Nance Williams, Cartref, wedi iddi gael ei chipio i'r ysbyty. Byr fu ei harhosiad yno a chafodd ddychwelyd adre i gael llwyr adferiad gobeithio.

CEUNANT

CYDYMDEIMLAD: Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â Mr a Mrs Arwel Thomas, Arwelfa, yn eu profedigaeth o golli mam, sef Mrs Gwawrwen Thomas, Alwyn, Llanrug.

PORC CARTREF 80c y pwys

hanner mochyn wedi ei dorri â'i baratoi ar gyfer y rhewgist

Cig Cyflawn Cymreig

Cysylltwch â June a Cynan Jones, Tanybryn, Nanmor, Beddgelert, Caernarfon.

Ffôn: Beddgelert 353

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562



PEN-BLWYDD NAIN

"Be hoffech chi gael ar eich pen-blwydd wythnos nesa Nain?"

Roedd Edwina yn eithaf parod i'r ateb a gafodd gan yr hen wraig.

"Wel mi liciwn i gael te bach fel arfer - bara brith a menyn ffarm. Mi ydw i'n licio menyn ffarm."

"Fe gewch chi hynny, ond mi yda ni isio rhoi rhwybeth sbesial i chi."

"Sbesial? Hy yda chi'n trio dod rownd fi eto i wneud fy 'wyllys?"

"Na, na, cofiwch y'ch bod chi yn ddeg a phedwar ugain wythnos nesa, oedran da, ac mi yda ni isio 'celebratio'."

"Celebratio? Twt lol. 'Run peth a llynedd mae'n debyg? Yfed te a sherry a chwrw, mae'n debyg? Llond y tŷ o bobol yn cadw stwr, a minna yn methu cael nap fach, am fod Efan 'ma yn canu emyna, yn 'i ddiod."

"Peidiwch a bod mor gas, nain. Mi yda ni o ddifri isio rhoi rhywbeth sbesial i chi."

"Dyna beth ddywedsoch chi wrtha i yr ha dwyth, a beth ddigwyddodd? Codi cywilydd arna i. Lowri Jôs a finna yn mynd i'r ardd i weld y rhosod, a beth welson ni?"

"Dowch o na Nain. Peidiwch a sôn am hynny. Rhywbeth bach ddiwrnod oedd o. Roedd hi'n ddiwrnod poeth. Damwain oedd o i gyd."

"Damwain, Damwain? Pedwar o ddynion mawr, un ohonyn nhw yn flaenor, yn eistedd yn chwara cardia, a run ohonyn nhw yn gwisgo crys. Cywilydd, cywilydd, ac ar fy mhen-blwydd i hefyd."

"Ond Nain, mi oedd hi'n ddiwrnod poeth."

"Chefais i 'rioed ffasiwn sioc. Roedd hi'n sioc i'r ddwy ohonom ni. Roedd hi'n sioc farwol i Lowri druan."

"Ond Nain, peidiwch a deud petha felna."

"Mi oedd hi'n sioc farwol i Lowri, fy ffrind gora i. Sioc farwol. Fe laddodd y sioc Lowri. Y beth fach."

"Ond fuo Lowri ddim marw am chwe mis arall, a welodd hi ddim byd. Roedd hi mor ddall â twrch daear."

"Dall neu beidio, mi gafodd hi sioc 'run fath. Roedd hi yn lêdi, a tydi lêdis ddim yn gallu dygymod â phetha felna, yn enwedig lêdis dall."

"O, dowch da chi Nain. Be hoffech chi gael ar eich pen-blwydd? Hoffech chi gael cot ffyr?"

"Na, dydw i ddim isio cot ffyr. Mae gen i un, a dydw i byth yn gwisgo honno."

"Beth am gadair newydd gyfforddus, wyddoch chi un o'r cadeiria 'reclinio 'ma."

"Na, dydw i ddim isio un o'r rheina chwaith. Mi fyddwch isio i mi aros yn fy ngwely toc. Mi sticia i hefo'r gadair sy gen i. Dydw i ddim yn mynd i ddechra clertian o gwmpas y lle 'ma."

"Wel be hoffech chi gael?"

"Trip."

"Trip?"

"Ia, trip i ben yr Wyddfa."

"Trip i ben yr Wyddfa? I beth y neno'r tad?"

"I weld yr haul yn codi. Fe ddeudaist ti Edwina y cawn i unrhyw beth. Ond dyna fo. Mi

ydw i wedi hen arfer a chael addewidion fil, ac yna cael fy anghofio."

"Yda chi'n deall y bydd raid i chi aros dros nos ar ben yr Wyddfa, os yda chi am weld yr haul yn codi?"

"Ydw, mi ydw i'n deall hynny yn iawn. 'Dwyti ti ddim yn fodlon. Yr un fath oeddech chi pan oeddwn i isio priodi hefo Wil Matheias, Tyddyn Gwyn. Fe godsoch chi wal a mynydd yr adeg honno hefyd."

"Wal a mynydd mi allwn i fentro. Nid gwraig oedd Wil Matheias isio ond nyrs."

"Wel tro yma mi ydw i isio mynd i ben yr Wyddfa."

Aci ben yr Wyddfa yr aeth Nain. Trefnwyd iddi aros yno, ac fe aeth Edwina ac Efan gyda hi. Cyn cychwyn yn y tren mi ofynodd Edwina i Nain oedd hi isio mynd i'r tŷ bach.

"Na mi ydw i yn iawn, diolch."

"Ond mae hi'n siwrna hir. Dowch hefo fi rwan."

"Paid a'm mhlagio i o hyd. Mi ydw i yn iawn."

Ond hanner ffordd i fyny dyma hi'n gweiddi "Stopiwch yr hen dren 'ma."

"Be sy'n bod rwan?"

"Mi ydw isio mynd i'r loo."

Gwylltiodd Efan. "Drychwch yma Nain. Fe naetho ni ofyn i chi cyn cychwyn. Pahan na fuasech chi wedi mynd yr adeg honno?"

"Roeddwn i'n iawn yr adeg honno, ond mi ydw i'n egseited erbyn hyn. Stopiwch y tren."

"Does dim loo yn fan hyn. Mi yda ni hanner ffordd i fyny'r Wyddfa. Does na ddim tŷ bach o fewn milltiroedd."

Bu raid i'r tren aros ar ganol y mynydd, ac aeth Edwina gyda Nain tu ôl i rhyw garreg fawr, ond roedd hi'n dal i fwmban.

"Deudwch wrth y bobol 'na am edrych y ffordd arall, yr hen gnafon digywilydd. Drychwch y ffordd arall, nid llygadu ffordd hyn."

Rhyddhad oedd cael Nain yn ôl i'r tren, ac i ffordd a nhw eto, ond wrth groesi'r grib ar Clogwyn, bu bron i Nain lewygu. Roedd yr olygfa i lawr y waelod y dyffryn yn haul yr hwyr yn odidog, ond roedd ofn ar yr hen wraig, cymaint o ofn, fel y bore wedyn, ar ôl gweld gwawr ysblennydd, roedd hi'n gwrthod yn lan a mynd yn ôl i'w sedd i ddychwelyd. Roedd hi'n hanner crio, hanner gweiddi.

"Na, dydw i ddim yn croesi'r lle peryg 'na eto. Mi fyddai lawr yng gnawelod Cwm Hetia. Na, na, ddoi byth i mewn i'r hen dren 'na. Byth."

Dyna chi broblem, ac yn wir, roedd hi'n dechra ypsedio i hun. Pan anfonodd Edwina Efan i chwilio am 'soda water', doedd yr un dropyn i'w gael, ac roedd pawb ar ben eu tennyn. Aeth Efan at oruchwyliwr y gwesty i ofyn am rhywbeth tebyg i 'soda water', unrhyw beth, am unrhyw bris. Daeth yn ôl hefo llond cwpan, ac yn wir roedd Nain dipyn gwell ar ôl ei yfed.

"Cer i nôl cwpanad arall iddi Efan," medda Edwina, "Mae hwn yn gwneud lles iddi."

Aeth Efan braidd yn anfoddog, ac yn wir, mi ofynodd yr hen wraig am baned arall, ac aeth i eistedd yn

hollol ddiraffterth yng nghornel y set, lle syrthiodd i gysgu, ond ddim cyn dweud,

"Efan, soda water da ydy hwnnw."

Edrychodd Edwina yn amheus ar Efan: "Beth oedd y 'soda water' 'na roist ti i Nain."

Atebodd yntau. "Gwranda rwan Edwina. Mae hi wedi gadael

tropyn bach ar ôl. Well i ti 'i gael o. Mi gostiodd lot o arian."

Cymerodd Edwina sip fach ohono a chododd ei llygaid i'r entych gan ddweud,

"Does dim rhyfedd iddi setlo i lawr. Mae'r 'soda water' yma yr un blas â shampên."

Do fe gafodd Nain ben-blwydd da. Shampên oedd o.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU BRO MADOG 1987

Mae trefniadau cyngherddau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Bro Madog bron â'u cwblhau, ac yn ôl y gwerthiant tocynnau mae'n amlwg fod yr arlwy wedi taro deuddeg.

Eisoes gwerthwyd gwerth £40,000 o docynnau wythnos, ac mae galw mawr am docynnau i rai o'r cyngherddau a gynhelir yn y Pafiliwn fin nos.

Bydd BBC Cymru yn trefnu cyngerdd "Ffanffer" ar nos Sadwrn cyntaf yr Eisteddfod, ac ar y nos Sul ceir cyngerdd gyda naws operatiadd yng nghwmni Dennis O'Neill, Patricia O'Neill, corau meibion Caernarfon a'r Bryffoni Gymreig y BBC. Yr arweinydd gwadd fydd Andrew Goodwin o Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru.

Bydd Cerddorfa Symffoni Gymreig y BBC hefyd i'w gweld ar y nos Lun, y tro hwn yn cyfeilio i Gôr yr Eisteddfod. Bydd y Côr yn perfformio 'Requiem' gan Mozart, a 'Carmina Burana' gan Carl Orff, a'r unawdwyr gwadd fydd Eirian Davies, Mary Lloyd Davies, Wynford Evans ac Eric Roberts. Yr arweinydd gwadd fydd Brian Wright.

Mae galw mawr am docynnau nos Fawrth pan fydd plant ysgolion cynradd y dalgylch yn cyflwyno pasiant i ddathlu pedwar canmlwyddiant cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg. Awdur y sgript yw Geraint Llwyd Owain, Rhuthun a dyma'r gwaith enillodd gystadleuaeth arbennig yn Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun, gan dderbyn canmoliaeth uchel Norah Isaac, y beirniad. Cyfansoddir y gerddoriaeth gan Hefin Elis.

Nos Fercher, ceir cyngerdd gan Gerddorfa Genedlaethol Ieuencid Cymru, ac ar y nos Iau bydd Côr Ieuencid Cenedlaethol Cymru a Ieuencid Cenedlaethol Ieuencid Cymru yn perfformio.

Bydd y cywair yn newid nos Wener pryd y cynhelir 'noson werinol' ar gyfer y teulu oll. Cymerir rhan gan Trebor Edwards, Côr Ieuencid Rhuthun, Parti Cymerau, Syr Wynff a Plwmsan, Leah Owen a Pharti Dawns Hafodwenog. Arweinydd y noson fydd Dyfan Roberts.

Sesiwn eisteddfodol hwyr a geir ar y nos Sadwrn, ac yn ôl yr arfer cynhelir Cymanya Ganu yn y Pafiliwn ar y nos Sul dan arweiniad Mr T J Williams, Llanrwst.

CYFNEWID ARTISTIAID Cymru ac Iwerddon

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Celfyddydau Iwerddon-An Chomhairle Ealaion ar fin dechrau ail ran cyfnewid rhwng Cymru ac Iwerddon. Yr oedd y rhan gyntaf, a sefydlwyd y llynedd i roi i artistiaid y cyfle i ddatblygu cysylltiadau diwylliannol rhwng y ddwy wlad, yn golygu bod y beintwraig o Ddilyn, Gwen O'Dowd, wedi ymweld â Chymru am dri mis ystod yr haf.

Er mai'r ddau Gyngor Celfyddydau sy'n talu am y cyfnewid ac yn ei drefnu, Canolfan y Sgubor, Aberystwyth a Chanolfan Celfyddydau Triskel, Cork fydd yn gwahodd. Gobeithir y bydd y bartneriaeth rhwng y ddwy Ganolfan Celfyddydau yn parhau i annog a darparu fframwaith er mwyn i syniadau ac ymdrechion artistiaid gael llifo'n rhwydd ar draws Môr Iwerddon.

Gwahoddir artistiaid nawr i weithio am dri mis yn Cork yn stiwdios Cork Artists Collective.

Ystyriar ceisiadau oddi wrth amrywiaeth eang o artistiaid yn gweithio mewn gwahanol gyfryngau gan gynnwys peintio, cerflunio, gwneud printiau, ffotograffiaeth, gwaith gosod a gwaith amgylchedd. Dylai fod gan ymgeiswyr ddiddordeb gwirioneddol ymgeiswyr i'r diwylliant Gwyddelig a'r cysylltiadau rhwng y ddwy wlad, a dylent fod yn barod i addysgu a chyfathrebu'n eang am gelfyddyd a diwylliant Cymru'n gyffredinol. Dylai artistiaid fod yn byw yng Nghymru am y rhan fwyaf o'r

flwyddyn (o leiaf 9 mis y flwyddyn), a bod â defnydd eisoes wedi ei gofrestru yn Llyfrgell Sleidiau a Gwybodaeth Cyngor Celfyddydau Cymru.

Disgwylir i'r artist a ddewisir weithio am dri mis yn olynol yn ystod y cyfnod Gorffennaf i Hydref. Y tâl yw 3,200 punt Wyddelig, i gynnwys teithio, cynhaliaeth, llety, defnyddiau a chostau eraill.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw Dydd Gwener 3 Ebrill 1987.

Gellir cael rhagor o fanylion a ffurflenni cais oddi wrth:-

Alison R T Scott

Swyddog Artistiaid a Chomisiynau

Cyngor Celfyddydau Cymru

9 Stryd yr Amgueddfa

CAERDYDD

CF13NX

(Ffôn: 0222 394711)

Parhad o dudalen 8

fuddugol yn yr eisteddfod.

Pypedau dan 12 oed: 2il - Ceri Ann Roberts, 3ydd - Manon Fflur Hughes;

Arlunio dan 12 oed: 3ydd - Manon Fflur Hughes;

Cerdd Dant dan 12 oed: 1af - Manon Fflur Hughes, 3ydd - Ceri Ann Roberts;

Alaw Werin dan 12 oed: 1af - Ceri Ann Roberts, 2il - Manon Fflur Hughes;

Canu dan 12 oed: 2il - Ceri Ann Roberts, 3ydd - Manon Fflur Hughes;

Deuawd dan 12 oed: 1af - Ceri Ann Roberts a Lyndsey V Parry, 2il - Manon Fflur Hughes ac Awen Llwyd Owen;

Pypedau dan 12 oed (Cystadleuaeth Celf a Chrefft Sir Eryri): 1af - Ceri Ann Roberts.

CHWARAEON

Y PARCH HERBERT THOMAS

Yn ystod y mis fe'n digalonwyd â'r newydd am farwolaeth y Parch Herbert Thomas, Llannor, un o gefnogwyr pêl-droed mwyaf selog yr ardal, a chyfrannwr aml i erthygl ar dudalen ôl yr Eco.

Hanes hen dimau'r ardal oedd ei brif ddiddordeb, yn enwedig felly hynt a helynt y Darrans.

Derbyniais lythyr ganddo ddiwedd Ionawr yn dweud fod hen gopi ysgol yn ei feddiant, yn llawn o hanes pêl-droed yr ardal yn yr 20au, fel yr unodd Rhythallt Comrades a Glasgoed Rangers i ffurfio Llanrug Utd., a chanlyniadau cyntaf Llanrug yn y gynghrair, sef

Tymor 22-23:

Medi 2: Llanrug 3 Pwllheli 0

Medi 9: Llanrug 3 Rhiwlas 1

Medi 16: Llanrug 3 Llanllechid 2

Medi 23: Llandegai 6 Llanrug 1

Ychwanegodd y byddai'n mynd ati i ysgrifennu mwy o'r hanes pe byddwn yn meddwl y byddai o unrhyw ddiddordeb i'r genhedlaeth hon!

Cyn i mi gael amser i ymateb, daeth llythyr arall ddiwedd Chwefror yn darllen fel a ganlyn: Annwyl Gyfaill,

Diddorol oedd darllen yn yr Eco am "Hen gystadleuaeth ddiwedd tymor pêl droed" yn Llanrug. Byddai un debyg yn Llanberis hefyd rhwng ponciau y chwarel. Amgaeaf lun tua 1906 o dîm 'Y Flower' - tîm o Swyddogion y Chwarel. Dr Mills oedd y Capten."

Ar gefn y llun, a welir isod, fe ysgrifennodd:

Tîm o Glercod Swyddfa'r Chwarel gyda Dr R H Mills Roberts a Dr Morris.

Dr Mills yw'r dyn mawr ar y chwith i'r drws, Dr Morris ar ei ochr dde a Bertie Williams ar ei ochr chwith, Gough Owen ar y chwith iddo yntau. Y dyn â'r het yw Madog Jones, Athro yn Ysgol Brynrefail a aeth wedyn yn Brifathro yn Ysgol John Bright, Llandudno, ac o'i flaen ef mae Jones Bach Clerc.

Carwn gydymdeimlo â'i deulu gan ddatgan y byddem fel golygyddion yr Eco yn falch iawn pe byddai'n bosib cael cipolwg ar yr 'hen gopi ysgol' y cyfeiriodd ato. Bydd colled fawr ar ei ôl.



PÊL-DROED

Bu'n fis hynod o lwyddiannus eto yn hanes y ddau glwb sy'n cystadlu am y gwobrau yng Nghynghrair Gwynedd, a'r uchafbwynt yn sicr o ran Llanberis, eu trydedd buddugoliaeth o'r tymor dros Llanrug.

Rownd gyn-derfynol Cwpan Gwynedd oedd yr achlysur, ac Iwan Evans oedd arwr ei dîm, gan sgorio yn y munud olaf i'w gwneud yn 2-1. 'Roedd yn gêm hynod o gyffrous ac agos, a Llanrug yn teimlo eu bod wedi gwneud digon i haeddu ail chwarae.



Llanberis yn ymosod yn y 'Darbi'.

Y Coleg Normal fydd gwrthwynebwyr y Darrans yn y ffeinal ar gae Bangor, ac yno hefyd chwaraeir ffeinal Tarian Eryri. Mae Llanrug eisoes wedi sicrhau eu lle ynddi drwy drechu Llanfairpwll y Sadwrn diwethaf o 4 gôl i 2. (John Williams 2, Robert Morris a gôl gan un o amddiffynwyr Llanfairpwll). Bydd yn rhaid i Lanberis drechu'r Coleg Normal yn y semi arall os am eu cyfarfod.

Mae angen 7 pwynt arnynt i fod yn hollol siwr o ennill y bencampwriaeth, ac mae 5 gêm yn weddill ganddynt.

Wedi chwarae	Pwyntiau	Pwyntiau posibl
Llanberis 11	21	31
Llanrug 13	19	25
Harlech 8	12	28
Coleg Normal 10	10	22

Mae Llanberis hefyd yn 16 diwethaf y Cwpan Barritt. Y gwrthwynebwyr yn y rownd nesaf fydd Rhydymwyn ar yr 28ain o'r mis hwn.

PYSGOTA

Adroddiad H P Hughes

Ar ddechrau tymor newydd, manteisïaf ar y cyfle i atgoffa'r aelodau o'r Reolau'r Bwrdd Dŵr ynglŷn â'r gwaharddiad i 'sgota hefo abwyd (pry genwair neu gynthron) hyd at ddechrau Mehefin o Lyn Crwn i'r môr ar y Seiont, a rhwng Pont Lôn (Pontllyfni) a'r môr ar y Llyfni.

Ni fu llawer o lwyddiant ar y dal hyd yma, yr oerni'n peri i'r lein rewi ar yr enwair unwaith neu ddwy, ond


daeth newydd calonogol fod nifer o hen eogiaid wedi eu dal ar eu ffordd i lawr yr afon ar ôl claddu. A'r rhai hynny mewn cyflwr da iawn. Mae rhagolwg am dymor da felly, gobeithio'n wir!

Cefais air gyda thrysorydd y gymdeithas rai nosweithiau yn ôl; mae'n synnu braidd fod cynifer o'r aelodau heb gymryd mantais o'r tocyn £30 oedd ar gael i fyny at y cyntaf o Fawrth. Dywed fod tua 60 o aelodau newydd wedi ymuno, hyn yn dod â'r nifer o oedolion i 250. Mae rhai'n dadlau y dylid caniatáu hyd at 300 o aelodau cyn cau'r rhestr; byddai'n ddiddorol clywed

barn rhai ohonoch am y syniad.

Cynhaliwyd cystadleuaeth ar Lyn Padarn ar yr 22ain o'r mis; gobeithiaf gynnwys enwau'r enillwyr a maint yr helfa, yn ogystal â chanlyniad cystadleuaeth Llyn Dywarchen yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Efallai i chwi sylwi ar y posteri gwych oedd yn cyhoeddi cystadleuaeth Padarn. Cynnrych disgyblion dosbarthiadau arlunio Alan Ginsberg yn Ysgol Brynrefail ydynt, a chyflwynwyd rhodd i'r pump gorau am eu llafur. Gwelir hwy yn y llun isod, sef Sion Ellis, Gareth Hughes, Richard Parry, Nia Griffiths ac Olwen Jones.



YSGOL BRYNREFAIL

PÊL-DROED

Y Sadwrn diwethaf (yr 2il o'r mis) cafodd Dafydd Llywelyn Jones o Fethel y fraint o chwarae ar y Vetch fel aelod o dîm dan 15eg oed Ysgolion Arfon yn rownd gyn-derfynol Cwpan Ysgolion Cymru. Bechgyn Abertawe oedd y gwrthwynebwyr, a hwy fu'n fuddugol o 4 gôl i 1.

Dewiswyd Mark Williams o Lanberis yn aelod o dîm dan 14eg Gwynedd ac yn ystod y mis bu yntau'n chwarae ym Mhrestatyn yn erbyn Clwyd. Colli fu eu hanes o 5 gôl i 3.

ATHLETAU

Cynhaliwyd cystadleuaeth Athletau dan do yng Nghanolfan Chwaraeon Arfon ar yr 11eg o'r mis. Bechgyn a genethod y flwyddyn gyntaf a'r ail oedd yn cymryd rhan a deallaf eu bod wedi mwynhau'r noson yn fawr. Daeth yr Ysgol yn ail i Ddyffryn Nantlle, gan guro Ysgolion Dyffryn Ogwen a Syr Hugh Owen.

PÊL-RWYD

Enillwyd pencampwriaeth Gwynedd gan dîm dan 13eg yr Ysgol ym Mangor ar y 4ydd o'r mis, a hynny heb golli yr un gêm yn y gystadleuaeth. Fe drechwyd Ysgolion Loreto, Caergybi, Dyffryn Conwy, Friars a Chreuddyn yn y rowndiau rhagbrofol, ac yna Ysgol Syr Hugh Owen yn y rownd derfynol, a'r sgôr yn 5-2.

Aelodau'r tîm oedd Rhian Morris, Linda Prydderch, Annette Sellars, Michelle Willis, Louise Murphy, Nerys Powell, Tammy Massey a Michelle Carr. Mrs Jen Fletcher fu yn eu hyfforddi.

